RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
10/2025
DYDDIAD CYHOEDDI:
30/01/2025

# Gwerthusiad o'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd a'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig: adroddiad terfynol

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron 2025 ISBN Digidol 978-1-83715-167-7

Gwerthusiad o’r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd a’r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig: Adroddiad Terfynol

Awduron: Ioan Teifi, Endaf Griffiths

Adroddiad Ymchwil Llawn: Griffiths, E; Teifi, I (2025). Gwerthusiad o’r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd a’r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig: Adroddiad Terfynol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 10/2025.
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-cynllun-buddsoddi-mewn-busnesau-bwyd-ar-cynllun-buddsoddi-mewn-busnesau-gwledig

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â’r canlynol:
Ymchwil, Monitro a Gwerthuso WEFO
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: +44 300 025 3946
E-bost: gwerthuso.ymchwil@llyw.cymru

## Rhestr gynnwys

1. Cyflwyniad ... 4
2. Methodoleg ... 7
3. Trosolwg o gynnal yr FBIS a’r RBISF ... 14
4. Canfyddiadau Allweddol ar y Dylunio a’r Cyflenwi ... 29
5. Prif ganfyddiadau am y canlyniadau a’r effeithiau ... 40
6. Casgliadau ac Argymhellion ... 69
Atodiad A: Cwestiynau Cyfweliad i’r Tîm Cyflawni ... 76
Atodiad B: Cwestiynau Cyfweliad i Randdeiliaid Allanol ... 79
Atodiad C: Cwestiynau’r arolwg i fuddiolwyr ... 81
Atodiad D: Cwestiynau’r arolwg i’r rheiny nad oeddent yn fuddiolwyr (Ffôn) ... 95
Atodiad E: Cwestiynau’r arolwg i’r rheiny nad oeddent yn fuddiolwyr (Ar-lein) ... 102
Atodiad F: Theori Newid ar gyfer yr FBIS a’r RBISF ... 106
Atodiad G: Data ar broffil yr ymgeiswyr ... 108
Atodiad H: Cymharu samplau o’r arolygon i fuddiolwyr a’r rhai nad ydynt yn fuddiolwyr ... 111
Atodiad I: Astudiaethau achos ... 113

**Rhestr tablau**

Tabl 3.1: Adolygu data o geisiadau grant yr FBIS ........ 19
Tabl 3.2: Adolygu data o geisiadau grant yr RBISF ........ 22
Tabl 5.1: Cyflawniadau'r FBIS yn erbyn targedau DPA ........ 41
Tabl 5.2: Cyflawniadau'r RBISF yn erbyn targedau DPA ........ 42
Tabl 5.3: Priodoli trosiant ........ 53
Tabl 5.4: Cynnydd mewn trosiant ac ROI cyfartalog yn ôl is-sector ........ 55
Tabl 5.5: Cynnydd mewn trosiant ac ROI cyfartalog yn ôl maint busnes ........ 55
Tabl 5.6: Newid i ddosbarthiad daearyddol y gwariant ar gadwyni cyflenwi ........ 57
Tabl 5.7: Newid i ddosbarthiad daearyddol gwerthiannau buddiolwyr ........ 58

**Rhestr ffigurau**

Ffigur 3.1: Rhesymau'r buddiolwyr dros ymgeisio am y cymorth grant ........ 27
Ffigur 4.1: Bodlonrwydd buddiolwyr â Cham 1 – Datganiad o Ddiddordeb ........ 31
Ffigur 4.2: Bodlonrwydd buddiolwyr â Cham 2 – Cais llawn ........ 31
Ffigur 5.1: Cyfran yr ymatebwyr a nododd ganlyniadau mewn ymateb i'r cwestiwn canlynol: 'A yw buddsoddiad yr FBIS/RBISF wedi arwain at unrhyw un o'r newidiadau neu fuddion canlynol i'ch busnes?' ........ 43
Ffigur 5.2: Newidiadau i lwybrau buddiolwyr at y farchnad ........ 49
Ffigur 5.3: Cyfran y trosiant diweddaraf y gellir ei briodoli i'r cymorth grant ........ 52
Ffigur 5.4: Trosiant y gellir ei briodoli i'r cymorth grant ........ 54
Ffigur 5.5: Achrediadau buddiolwyr cyn ac ar ôl derbyn cymorth ........ 64
Ffigur 5.6: Gwasanaethau cymorth eraill a ddefnyddiodd buddiolwyr ........ 66

## Geirfa

AEA: Asesiad o Effaith Economaidd (EIA)

BRC: Consortiwm Manwerthu Prydain

CCTV: Teledu cylch cyfyng

CThEF: Cyllid a Thollau EF (HMRC)

DPA: Dangosydd Perfformiad Allweddol (KPI)

DU: Y Deyrnas Unedig (UK)

EOI: Datganiad o ddiddordeb

FBIS: Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd

FTE: Cyfwerth ag amser llawn

GaA: Gwerth am Arian (VFM)

GVA: Gwerth ychwanegol gros

OCVO: Swyddfa’r Prif Filfeddyg

RBISF: Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig – Bwyd

RDP: Rhaglen Datblygu Gwledig

ROI: Adenillion ar Fuddsoddiad

RPW: Taliadau Gwledig Cymru

RSPCA: Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid

SIC: Dosbarthiad Diwydiannol Safonol

SME: Menter fach a chanolig ei maint

TAW: Treth ar Werth (VAT)

TG: Technoleg gwybodaeth

TWE: Cynllun Talu wrth Ennill (PAYE)

# 1. Cyflwyniad

1.1 Yr adroddiad hwn yw'r gwerthusiad terfynol ar y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd (FBIS) a'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig – Bwyd (RBISF), sef cynlluniau grant cyfalaf sydd â chyllideb o ychydig o dan £70m, wedi'u hariannu ar y cyd o dan Raglen Datblygu Gwledig (RDP) 2014 i 2020.

1.2 Mae'r FBIS wedi'i gynllunio i helpu cynhyrchwyr cynnyrch amaethyddol cynradd[1] yng Nghymru i ychwanegu gwerth at eu hallbwn. Mae'n gwneud hyn drwy roi cymorth ar ffurf buddsoddiad grant cyfalaf i'r busnesau hynny sy'n cynnal gweithgareddau prosesu cam cyntaf ac/neu ail gam,[2] gan felly gynyddu eu gallu a'r galw am gynnyrch cynradd. Dyluniwyd y cynllun i wella perfformiad a natur gystadleuol busnesau prosesu i ymateb i alw defnyddwyr, annog arallgyfeirio, a chanfod marchnadoedd sy'n bodoli eisoes a rhai newydd, gan fanteisio ar y marchnadoedd hynny a gwerthu iddynt.

1.3 Mae'r RBISF yn gynllun grant cyfalaf llai o faint sy'n cynnig buddsoddiadau i wella a datblygu gweithgareddau prosesu a gweithgynhyrchu bwyd a diod nad ydynt yn gymwys ar hyn o bryd o dan yr FBIS. Mae'n agored i broseswyr a chynhyrchwyr bwyd a diod presennol a rhai newydd sy'n fusnesau bach a micro, a'r nod yw cefnogi gweithgareddau prosesu neu weithgynhyrchu bwyd a diod sy'n cynnig buddion clir a mesuradwy i'r diwydiant.

Mae'r FBIS yn dod o dan Fesur 4 yr RDP (buddsoddiadau mewn asedau ffisegol) gan fod â chyllideb o £65m. Mae gweithgareddau o dan y cynllun yn cefnogi amcanion yr RDP o dan Flaenoriaeth 3 (Maes Ffocws A)[3] — 'gwella cystadleurwydd cynhyrchwyr cynradd trwy eu hintegreiddio'n well i'r gadwyn bwyd-amaeth trwy gynlluniau o safon, ychwanegu gwerth at gynhyrchion amaethyddol, hyrwyddo mewn marchnadoedd lleol a chylchoedd cyflenwi byr, grwpiau a sefydliadau cynhyrchwyr a sefydliadau rhyng-gangen'.

1.4 Mae'r RBISF yn dod o dan Fesur 6 — datblygu ffermydd a busnesau. Mae'r cynllun yn dod o dan Fesur 6.4 RDP 2014 i 2020 ac mae ganddo gyllideb o £3.5m. Mae

[1] Mae cynnyrch amaethyddol cynradd yn cyfeirio at unrhyw gynnyrch y pridd, ffermio stoc a physgodfeydd a helwriaeth. Mae cig coch, dofednod, wyau, llaeth, a chynnyrch garddwriaethol i gyd yn enghreifftiau o gynhyrchion amaethyddol cynradd.
[2] Prosesu cynradd yw trosi deunyddiau crai yn nwyddau bwyd, e.e. melino gwenith yn flawd. Prosesu eilaidd yw pan fydd y cynnyrch cynradd yn cael ei newid yn gynnyrch arall, e.e. troi blawd gwenith yn fara.
[3] Mae Chwe Maes Blaenoriaeth RDP 2014 i 2020 (ac amcanion y Meysydd Ffocws o dan bob Blaenoriaeth) ar gael i'w gweld yn: [Common Evaluation Questions for Rural Development Programmes 2014 to 2020 | The European Network for Rural Development (ENRD)](#).

gweithgareddau o dan y cynllun yn cefnogi amcanion yr RDP o dan Flaenoriaeth 6 (Maes Ffocws A) — ‘Hwyluso arallgyfeirio, creu a datblygu mentrau bach yn ogystal â chreu swyddi’.

**Amcanion y gwerthusiad**

1.5 Comisiynodd Llywodraeth Cymru gwmni Wavehill i gynnal gwerthusiad terfynol o’r ddau gynllun wrth iddynt ddod i ddiwedd eu cyfnod rhaglennu presennol ac, felly, angen asesiad annibynnol ar y gwaith o’u cynnal ynghyd â’u heffaith.

1.6 Dyma nodau ac amcanion penodol y gwerthusiad:

- archwilio effeithiolrwydd y broses ymgeisio (gan gynnwys y Datganiad o Ddiddordeb), y broses gwneud penderfyniadau a’r broses werthuso
- asesu lefel yr ymgysylltu â buddiolwyr y cynllun, h.y. busnesau sy’n derbyn cyllid grant ynghyd â sefydlu proffil buddiolwyr a llwybrau i mewn i’r cynllun
- archwilio effeithiolrwydd rheoli’r cynllun — gan gynnwys y broses hawlio, systemau monitro, cyfathrebu, a’r gefnogaeth oedd ar gael ar ôl dyfarnu cyllid
- asesu addasrwydd targedau’r cynllun
- asesu a gwerthuso effaith gyffredinol y ddau gynllun, gan roi ystyriaeth benodol i unrhyw ganlyniadau ac effeithiau economaidd ac amgylcheddol
- asesu a gwerthuso gwerth am arian
- asesu i ba raddau y mae’r cynlluniau wedi cyfrannu at amcanion polisi strategol Llywodraeth Cymru a’r UE
- rhoi argymhellion a gwersi a ddysgwyd a fydd yn helpu i ffurfio’r dystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau yn y dyfodol yn ymwneud â buddsoddiadau sy’n cefnogi’r diwydiant bwyd yng Nghymru er mwyn gwneud y mwyaf o’u potensial i gyfrannu at y strategaeth newydd.

**Trefn yr adroddiad**

1.7 Mae gweddill yr adroddiad wedi'i drefnu fel a ganlyn.

- Ym Mhennod 2 amlinellir y fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn.
- Mae Pennod 3 yn rhoi trosolwg o'r ddau gynllun grant, gan gynnwys y cefndir, y model cyflawni, a'r allbynnau.
- Ym Mhennod 4 trafodir y canfyddiadau allweddol ar ddyluniad a gweithredu'r cynlluniau.
- Mae Pennod 5 yn nodi'r canlyniadau a'r effeithiau y mae'r cynlluniau wedi esgor arnynt.
- Mae Pennod 6 yn cloi'r adroddiad gyda chyfres o argymhellion.

1.8 Ymhellach, rydym wedi cynnwys yr atodiadau canlynol:

- Atodiad A: Cwestiynau cyfweliad i'r tîm cyflawni
- Atodiad B: Cwestiynau cyfweliad i randdeiliaid allanol
- Atodiad C: Cwestiynau'r arolwg i fuddiolwyr
- Atodiad D: Cwestiynau'r arolwg i'r rheiny nad oeddent yn fuddiolwyr (ffôn)
- Atodiad E: Cwestiynau'r arolwg i'r rheiny nad oeddent yn fuddiolwyr (ar-lein)
- Atodiad F: Theori Newid ar gyfer yr FBIS a'r RBISF
- Atodiad G: Data ar broffil yr ymgeiswyr
- Atodiad H: Cymharu samplau yr arolygon i fuddiolwyr a'r rhai nad ydynt yn fuddiolwyr
- Atodiad I: Astudiaethau achos.

## 2. Methodoleg

2.1 Penodwyd Wavehill ym mis Ionawr 2022 i gynnal y gwerthusiad hwn, ac fe'i gynhaliwyd mewn dau gam. Ar gyfer Cam 1, datblygwyd Adroddiad Cychwynnol a Fframwaith Gwerthuso ym mis Mehefin 2022 yn seiliedig ar ymarfer cwmpasu cynhwysfawr. Roedd pwrpas y cam cyntaf hwn yn ddeublyg:

- yn gyntaf, sicrhau bod gennym ddealltwriaeth lawn o'r cynlluniau, gan gynnwys y rhesymeg y tu ôl i'r cyllid, y model cyflawni, a'r effeithiau a fwriedir
- yn ail, deall yn well y gofynion gwerthuso a pha dystiolaeth oedd ar gael er mwyn mynd ati i ddatblygu ein dull gwerthuso.

2.2 Roedd dau allbwn allweddol wedi'u cynnwys yn adroddiad Cam 1, sef model Theori Newid i grynhoi'r model rhesymeg sy'n sail i'r cynlluniau (gweler Atodiad F), a Fframwaith Gwerthuso yn amlinellu'r cwestiynau gwerthuso allweddol a'n dull o fynd i'r afael â phob un ohonynt. Cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol i lywio adroddiad Cam 1:

- naw cyfweliad cwmpasu â swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â dylunio a gweinyddu'r cynlluniau, ynghyd ag arweinwyr polisi Bwyd a Diod
- saith cyfweliad â rhanddeiliaid allanol (cynrychiolwyr y diwydiant yn bennaf)
- pedwar cyfweliad â phartneriaid gweithredu (h.y. sefydliadau sy'n cynnal cynlluniau bwyd a diod eraill sy'n cael eu hariannu gan yr RDP)
- adolygiad cynhwysfawr o'r ddogfennaeth sy'n ymwneud â'r cynllun a'r llenyddiaeth ehangach, gan gynnwys adolygiad o wybodaeth reoli y cynlluniau i ddeall pa ddata y gellid ei ddefnyddio ar gyfer y gwerthusiad
- sesiwn gweithdy Theori Newid yr FBIS a'r RBISF gyda swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â dylunio a chynnal y cynlluniau.

2.3 Mae Cam 2 y gwerthusiad wedi canolbwyntio ar lunio'r Adroddiad Gwerthuso Terfynol hwn, yn seiliedig ar y Fframwaith Gwerthuso a ddatblygwyd yn y cam cyntaf. Dechreuodd Cam 2 yn hydref 2022 ac roedd ei ffocws i ddechrau arni ar ddatblygu'r offer ymchwil ar gyfer casglu data. Yn seiliedig ar y Fframwaith Gwerthuso, roedd yr offer ymchwil yn mynd ati i ddefnyddio dull cymysg ar gyfer y gwerthuso sef casglu data meintiol ac ansoddol. Roedd angen hyn i fynd i'r afael â nodau ac amcanion y gwerthusiad (fel y nodir yn y bennod flaenorol) gan fod casglu

data ansoddol (e.e. archwilio effeithiolrwydd y broses rheoli hawliadau) yn well i fynd i'r afael â rhai ohonynt tra bod dull meintiol (e.e. nodi'r effeithiau economaidd ac amgylcheddol) yn fwy addas i fynd i'r afael ag eraill, er bod y rhan fwyaf yn gofyn am gyfuniad o'r ddau. Cynhaliwyd y gweithgareddau ymchwil canlynol yng Ngham 2 i fod yn sail i'r adroddiad hwn:

- Ail rownd o gyfweliadau manwl â rhanddeiliaid a swyddogion Llywodraeth Cymru o ddiwedd 2022 hyd at ddechrau 2023. Roedd hyn yn cynnwys pum cyfweliad manwl gyda'r prif bersonél gweithredu yn Llywodraeth Cymru, gan archwilio effeithiolrwydd y dulliau dylunio a gweithredu, a chanlyniadau'r cynllun, ynghyd â'u barn am y prif wersi a ddysgwyd (mae casgliad llawn y cwestiynau i'w gweld yn Atodiad A). Cyfwelwyd wyth o randdeiliaid allanol yn gynnar yn 2023. Cynhaliwyd y cyfweliadau hyn ag arweinwyr prosiectau a chynlluniau Bwyd a Datblygu eraill yr RDP i gael barn a dealltwriaeth allanol ar gyflawniadau'r FBIS a'r RBISF a chael adborth ar yr aliniad â'u cynlluniau eu hunain yn ogystal â'r seilwaith cymorth ehangach (mae casgliad llawn y cwestiynau i'w gweld yn Atodiad B).
- Holwyd 65 o fuddiolwyr (h.y. y busnesau a oedd wedi elwa o'r cynlluniau) drwy gyfweliadau dros y ffôn a gynhaliwyd yn bennaf rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2022. Roedd rhai wedi nodi eu bod yn brin o amser cyn y Nadolig ac, felly, ailagorwyd yr arolwg gennym ddechrau mis Ionawr 2023, gan dargedu'r busnesau hynny'n benodol i gael rhywfaint o ymatebion ychwanegol. Recriwtiwyd y buddiolwyr o gofnodion poblogaeth lawn y busnesau a rannwyd gan Lywodraeth Cymru, a'r cofnodion yn cynnwys 146 o wahanol fusnesau (119 o'r FBIS a 27 o'r RBISF). Cafodd offer yr arolwg ei dreialu'n fewnol gan Dîm Ymchwil Wavehill i ddechrau arni cyn mynd ati i ffonio busnesau. Roedd yr arolwg yn casglu data ansoddol a meintiol yn ymwneud â phroffil buddiolwyr, y cymhellion y tu ôl i gael cymorth, eu profiad o'r cynlluniau, a'r canlyniadau a gyflawnwyd (gellir gweld casgliad llawn y cwestiynau yn Atodiad C). Defnyddiwyd dull cyfrifiad ar gyfer y samplu, a chysylltwyd â phob busnes hyd at bum gwaith ar y mwyaf, gyda'r bwriad o gael cynifer o ymatebion â phosibl. Roedd ein sampl yn cynnwys 54 o ymatebion gan yr FBIS ac 11 gan yr RBISF, sy'n cyfateb i gyfradd ymateb gyffredinol o 44% (45% ar gyfer yr FBIS a 41% ar gyfer yr RBISF). Cafwyd cyfeiriadau e-bost ar gyfer pob cyswllt, gydag ychydig iawn o achosion o negeseuon yn peidio â chyrraedd (dim ond saith cyfeiriad a

geir at ebyst yn methu yn nodiadau cyswllt y tîm ymchwil). Yn hollbwysig, roedd mwy na 90% yn cynnwys cysylltiadau ffôn, a oedd yn allweddol i ymgysylltu â busnesau. Mae sampl yr FBIS yn darparu cadernid ystadegol digonol ar gyfer y gwerthusiad hwn, gyda lwfans ansicrwydd o +/- 9.9%.[4] Mae sampl yr RBISF yn darparu llai o gadernid ystadegol, gyda lwfans ansicrwydd llawer uwch o +/- 23.7%[5], er bod y data yn dal i gynnig canfyddiadau dangosol sy'n ddefnyddiol at ddibenion yr ymchwil hwn. Dadansoddwyd pa mor rhwydd oedd cymharu samplau'r arolwg â'r poblogaethau ehangach yn Atodiad G, a hynny'n dangos dosbarthiadau tebyg o ran maint busnes a'r is-sector y maent yn gweithredu ynddo. Mae hyn yn rhoi hyder pellach bod canlyniadau'r arolwg yn gynrychioladol ac yn gyffredinol.

- Holwyd 53 o fusnesau nad oeddent yn fuddiolwyr (h.y. busnesau a oedd wedi gwneud cais am gymorth ar y dechrau ond a oedd yn aflwyddiannus neu a dynnodd yn ôl o'r broses) drwy gyfweliadau dros y ffôn rhwng Tachwedd 2022 ac Ionawr 2023. Cafodd y rhain eu recriwtio eto o gofnodion poblogaeth lawn y busnesau, a chafwyd 381 o gysylltiadau busnes (327 ar gyfer yr FBIS a 54 ar gyfer yr RBISF). Cynlluniwyd hyn i gefnogi'r asesiad effaith gwrthffeithiol (h.y. deall beth fyddai wedi digwydd pe na bai'r cymorth ar gael) drwy ddeall a oedd y rhai nad oeddent yn fuddiolwyr yn bwrw ymlaen â'r buddsoddiadau heb y cymorth, tra hefyd yn archwilio eu profiad â'r cynlluniau (gellir gweld casgliad llawn y cwestiynau yn Atodiadau D ac E). Cafwyd y rhan fwyaf o'r ymatebion hyn (48/53) trwy gyfweliadau ffôn, a gafodd eu treialu'n fewnol cyn eu cynnal. Fodd bynnag, crëwyd fersiwn symlach o'r arolwg maes o law (gweler Atodiad E) a'i ddosbarthu ar-lein i'r holl gysylltiadau a oedd yn weddill ar ôl i'r arolwg ffôn gau yn gynnar ym mis Ionawr 2023. Arhosodd yr arolwg ar-lein ar agor am bythefnos cyn cael ei gau ddechrau mis Chwefror. Nodwn fod ansawdd y wybodaeth gyswllt a gedwir ar gyfer y rhai nad ydynt yn fuddiolwyr yn is. Er bod gan bob cyswllt gyfeiriad e-bost, dim ond 35% oedd â rhif ffôn ar eu cyfer (gellir cymharu hyn â rhestr gyswllt buddiolwyr, lle roedd cofnodion rifau ffôn ar gyfer mwy na 90% ohonynt). Yn ogystal, roedd cyfradd bownsio'n ôl o 10% yn ein hymgais i gysylltu dros e-bost (o gymharu â 6% ar gyfer y rhestr gyswllt buddiolwyr). Ni wnaeth y rhan fwyaf o fusnesau ymateb i'n hymdrechion i

[4] Cyfrifir hwn ar sail lefel hyder o 95% pan fo canran yr ymateb yn 50%.
[5] Cyfrifir hwn hefyd ar sail lefel hyder o 95% pan fo canran yr ymateb yn 50%.

gysylltu er gwaethaf sawl e-bost; roedd y sampl yn cynnwys 49 o ymatebion gan ymgeiswyr i'r FBIS a dim ond pedwar gan ymgeiswyr i'r RBISF, sy'n cyfateb i gyfradd ymateb o 15% ar gyfer yr FBIS a 7% ar gyfer yr RBISF, neu 14% yn gyffredinol. Ni osodwyd cyfradd ymateb darged benodol ar gyfer yr arolwg i'r rhai nad oeddent yn fuddiolwyr. Cysylltwyd â phob busnes sawl gwaith gyda'r bwriad o gael cynifer o ymatebion â phosibl. Mae maint y sampl yn cynnig canfyddiadau dangosol defnyddiol ar gyfer cymharu buddiolwyr yr FBIS â'r rhai nad oeddent yn fuddiolwyr, er bod maint y sampl ar gyfer yr RBISF yn rhy fach i gynnal yr ymarfer hwn. Cynhaliwyd dadansoddiad o sut y gellir cymharu'r samplau buddiolwyr a'r rhai nad ydynt yn fuddiolwyr ac fe'i dangosir yn Atodiad H. Datgelodd ein dadansoddiad wahaniaethau ystadegol arwyddocaol rhwng y ddau grŵp o ran maint eu busnes (trosiant a nifer y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn [FTE]).

- Ynghyd â'r ymchwil sylfaenol a ddisgrifiwyd uchod, defnyddiwyd data gwybodaeth reoli Llywodraeth Cymru i helpu i lywio ein canfyddiadau. Roedd hyn yn bennaf yn cynnwys data ar gyfer pob ffenestr cyllido, sef data ar nifer yr ymgeiswyr, statws y ceisiadau, maint y cyllid grant, a gwybodaeth am broffil yr ymgeiswyr (e.e. maint busnes ac is-sector). Dadansoddwyd hefyd gronfa ddata ar wahân ar faint o gyllid grant a ddyfarnwyd ac a hawliwyd ar gyfer pob prosiect. Yn ogystal, cawsom ddata dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) a oedd yn ein galluogi i asesu a oedd y cynlluniau wedi llwyddo i gyrraedd eu targedau swyddogol ai peidio.
- Yn olaf, lluniwyd pum astudiaeth achos fanwl i dynnu sylw at enghreifftiau penodol o'r effaith a gynhyrchir ar fusnesau (gweler Atodiad I).

2.4 Yn y rhan fwyaf o achosion, rydym wedi amlinellu canlyniadau'r ddau gynllun ar wahân fel y gellir barnu pob cynllun yn ôl ei rinweddau unigol. Mae dadansoddiad o'r data meintiol wedi cynnwys croesdablu yn ôl maint busnes ac is-sector i nodi a yw'r cymorth wedi bod yn fwy buddiol i rai carfannau busnes nag i eraill. Mae'r dadansoddiad meintiol hefyd wedi pwyso'n drwm ar sawl cwestiwn yn yr arolwg yn ymwneud â'u sefyllfa cyn y grant ac ar ôl y grant (e.e. cwestiynau ar faint eu busnes, llwybrau i'r farchnad, ac achrediadau) a hynny er mwyn olrhain newidiadau ers i fusnesau dderbyn cymorth. Mae'r data ansoddol wedi'u codio gan ddefnyddio dull matrics thematig i nodi themâu cyffredin, ac rydym hefyd wedi cynnwys rhai dyfyniadau yn yr adroddiad.

2.5 At ddibenion yr adroddiad a'r dadansoddiad hwn, yr ardal effaith sydd dan sylw yw Cymru. Er enghraifft, nid yw gweithgareddau sy'n symud gweithgaredd economaidd o Loegr i Gymru yn cael eu hystyried yn ddadleoli, ac felly nid addaswyd ar eu cyfer, ond yn hytrach fe'u cyfrifir fel buddion ychwanegol i Gymru.

**Cyfyngiadau yn ein dull o asesu'r effaith economaidd**

2.6 Mae ein dull o asesu effaith economaidd y cynlluniau wedi'i nodi yn yr adran 'Twf busnes ac effaith economaidd' ym Mhennod 5. Er ein bod wedi gallu cynhyrchu amcangyfrifon yn seiliedig ar y dull hwn, nodwn fod nifer o ffactorau cyfyngol sydd wedi effeithio ar gadernid yr amcangyfrifon a gyflwynwyd.

2.7 Mae defnyddio data hunanadroddedig i nodi'r effaith economaidd y gellid ei phriodoli i'r cynlluniau wedi bod yn sylfaenol i'r dull hwn. Roedd ein dull yn seiliedig ar ofyn i fuddiolwyr faint o'u data trosiant diweddaraf y gellid ei briodoli i'r buddsoddiad a wnaed drwy gynllun yr FBIS neu'r RBISF. Yr hyn sy'n anodd gyda dull o'r fath yw ei fod yn gofyn i unigolion wneud amcangyfrifon bras iawn ar effaith y cynlluniau ar drosiant eu busnes ac i wahanu hynny oddi wrth nifer o ffactorau cyfrannol eraill. Er enghraifft, gwyddom fod cyfran fawr o fuddiolwyr wedi cael cymorth gan brosiectau a gwasanaethau eraill (megis Cywain a Helix) yn ystod cyfnod tebyg, sy'n ei gwneud yn anos priodoli effaith yr ymyrraeth benodol hon. Mae yna nifer o ffactorau eraill a fydd wedi effeithio ar dwf buddiolwyr hefyd, sydd, gyda'i gilydd, yn effeithio ar hygrededd yr amcangyfrifon a ddarparwyd.

2.8 Dull mwy cadarn yw creu grŵp cymharu 'gwrthffeithiol' y gellir ei ddefnyddio, o gael amodau priodol, i amcangyfrif gwahaniaethau yn llwybrau twf grwpiau sydd wedi cael 'ymyrraeth' a grwpiau 'rheoli'. Er i ni ddadansoddi'r twf a gafodd buddiolwyr o'i gymharu â'r rhai nad oeddent yn fuddiolwyr (a oedd yn gweithredu fel grŵp cymharu), mae'r gwahaniaeth arwyddocaol ym maint a mathau'r busnesau o fewn pob grŵp yn cyfyngu ar werth y dadansoddiad. Mae'r amcangyfrifon hyn yn y crynodeb yn dueddol felly o fod yn ddiffygiol ac felly dylid eu trin yn ofalus iawn.

2.9 Opsiwn arall fyddai defnyddio cofnodion busnes o setiau data eilaidd sydd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) er mwyn adeiladu grŵp rheoli mwy addas. Fodd bynnag, roedd bylchau data megis diffyg newidynnau ynghylch manylion busnesau (e.e. oedran busnes) a diffyg rhifau cofrestru cwmnïau yn cyfyngu ar ddichonoldeb creu grŵp rheoli addas drwy ddull o'r fath. Ymhellach, nodwn y byddai proffil y busnesau sy'n elwa o'r cynlluniau (gyda chyfran fawr ohonynt yn

ficrofentrau bach iawn [1 i 4 o gyflogeion – gweler Atodiad G] wedi'i gwneud hi'n anodd paru â setiau data cenedlaethol gan fod gwybodaeth ar gyfer busnesau o'r math hwn yn tueddu i fod yn llai cynhwysfawr. Mae'r Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau, er enghraifft, yn seiliedig ar gofnodion TAW a TWE y CThEF; felly, weithiau nid yw'n cynnwys y busnesau lleiaf (e.e. y rhai sy'n is na'r trothwy TAW neu'r rhai heb unrhyw weithwyr cyflogedig). Am y rhesymau hyn, nid oeddem yn gallu adeiladu grŵp rheoli mwy addas.

2.10 Gellir defnyddio technegau eraill i gynhyrchu amcangyfrifon mwy cadarn wrth ddylunio grŵp rheoli, e.e. trwy baru sgorau tueddiad (PSM)[6]. Nid oedd hyn yn cael ei ystyried yn ymarferol, fodd bynnag, oherwydd y gwahaniaeth mawr yn y mathau o fusnesau a ddefnyddiodd y cymorth (o ran eu maint, is-sector, ac ati), swm y cymorth grant a dderbyniwyd (amrywiai hyn yn sylweddol o fod rhwng <£20k hyd at £5m), a diffyg data gwaelodlin yn y wybodaeth reoli. O ran yr olaf, dim ond ciplun o drosiant, cyfrif cyflogeion, a data is-sector oedd yn nata gwaelodlin y wybodaeth reoli. Byddai newidynnau eraill fel data ar oedran busnes a throsiant hanesyddol (h.y. i nodi tueddiadau dros nifer o flynyddoedd) wedi bod yn fuddiol, gan fod ymarferion PSM effeithiol yn dibynnu ar gael gwybodaeth ddigonol i gyd-fynd â chofnodion busnes.

2.11 Mae'r diffyg data trosiant hanesyddol (casglwyd data ar gyfer dwy adeg yn unig – sef gwaelodlin a'u trosiant ar adeg yr arolwg [2022]) yn codi problem arall, sef bod buddiolwyr wedi cael y cyllid grant ar wahanol adegau yn ystod y cyfnod gweithredu saith mlynedd. Er mwyn rhoi cyfrif am gyfraddau dyfalbarhad ar gyfer buddiolwyr a gafodd gymorth yn gynharach yn y cyfnod gweithredu, aethom ati i gymhwyso cyfradd dyfalbarhad tair blynedd lle ystyriwyd yn llawn effaith trosiant ar gyfer pob busnes a gafodd gymorth o 2019 ymlaen a thynnwyd 10% y flwyddyn oddi ar yr effeithiau a adroddwyd gan fuddiolwyr a gafodd gymorth cyn hynny. Cynlluniwyd hyn i gyfrif am y ffaith y byddai llawer o ffactorau cyfrannol eraill yn effeithio ar drosiant buddiolwyr fwy na thair blynedd ar ôl yr ymyrraeth.

2.12 Mae hefyd yn bwysig nodi effaith pandemig COVID-19 o ran ychwanegu cymhlethdod ac amheuaeth bellach ynghylch yr amcangyfrifon a gynhyrchwyd. Pan fydd yr amodau economaidd yn fwy sefydlog, ein dull fel arfer yw nodi'r newid mewn

[6] Mae paru sgorau tueddiad (propensity score matching) yn ddull lled-arbrofol lle mae'r ymchwilydd yn defnyddio technegau ystadegol i adeiladu grŵp rheoli artiffisial trwy baru pob uned sydd wedi bod yn rhan o'r cynllun ag uned heb gysylltiad sydd â nodweddion tebyg.

trosiant ar gyfer pob buddiolwr (h.y. cyn ac ar ôl cymorth) ac yna gofyn pa gyfran o'r twf (os caiff ei hadrodd) y gellir ei phriodoli i'r ymyrraeth. Fodd bynnag, cytunwyd ar ddull amgen gyda Llywodraeth Cymru er mwyn rhoi cyfrif am y ffaith bod y pandemig wedi achosi cythrwfl yn llwybr twf busnesau tua hanner ffordd drwy oes y cynlluniau. Y gwahaniaeth yn ein dull yn yr astudiaeth hon oedd gofyn i'r cwestiwn priodoli fod yn seiliedig ar ddata trosiant diweddaraf buddiolwyr (yn hytrach na'u twf mewn trosiant) er mwyn cyfrif am unrhyw effaith 'diogelu' ar drosiant. Mewn geiriau eraill, gallai busnes ond wedi cael twf bach neu hyd yn oed ostyngiad mewn trosiant oherwydd y pandemig, ond bod y cynlluniau hyn wedi helpu i sicrhau bod lefel eu trosiant yn uwch nag y byddai wedi bod fel arall. Mae ein dull gweithredu ar gyfer y gwerthusiad hwn yn cyfrif am yr effeithiau hynny ac fe'i hystyriwyd yn ffordd ymarferol o geisio nodi'n fras y 'difuddiant'[7] wrth ystyried y cyd-destun economaidd ehangach. Fodd bynnag, trwy ddefnyddio trosiant cyffredinol a hunanbriodoli rydym yn dibynnu ar amcangyfrifon sydd o bosibl o werth mwy o faint, gan arwain at fwy o bryderon ynghylch eu hygrededd. Pan ystyrid bod gwerthoedd yn edrych yn anarferol o uchel, aethom ati i adolygu'r ymatebion ansoddol er mwyn profi'r hygrededd hwn a chanfuwyd bod y rhain yn ddilys ar y cyfan (o ystyried sefyllfa'r sefydliadau hyn pe na baent wedi derbyn y cyllid).

2.13 Er bod y gyfradd ymateb gref yn cynorthwyo wrth gael graddfa'r ymatebion i gyd-fynd â maint poblogaeth gyfan y buddiolwyr, ym mhob achos mae'r dulliau hyn o'u cael yn gymesur wedi gorfod defnyddio cyfartaleddau yn hytrach na chyfraddau adenillion cymhwysol i ffigurau gwaelodlin unigol pob busnes yn y boblogaeth ehangach. Mae hyn oherwydd nad oedd y wybodaeth fonitro a gasglwyd gan y rhaglen yn cynnwys newidynnau megis trosiant a chyflogaeth ar sail parhaus. Yn lle hynny, rydym wedi cynhyrchu ein canlyniadau graddedig yn seiliedig ar segmentiad yr ymatebwyr a'r boblogaeth a chymhwyso cyfartaleddau pwysol o bob segment. Mae hyn yn helpu i reoli effaith cynnwys busnesau mwy o faint sy'n effeithio ar y segmentau llai.

2.14 O ystyried y cyfyngiadau methodolegol hyn, dylid bod yn ofalus wrth drin yr amcangyfrifon ynghylch yr effaith economaidd a gynigir yn yr adroddiad hwn. Wedi dweud hynny, maent yn cynnig amcangyfrifon dangosol dilys ynghylch maint yr effaith y mae'r cynlluniau wedi esgor arnynt.

[7] Y 'difuddiant' (deadweight) yw cyfran y canlyniadau a fyddai wedi digwydd beth bynnag heb y cymorth.

# 3. Trosolwg o gynnal yr FBIS a'r RBISF

## Cefndir a rhesymeg y cynlluniau

### Y sector bwyd a diod yng Nghymru

3.1 Y diwydiant bwyd a diod yw un o sectorau busnes mwyaf Cymru, gyda 170,000 o bobl yn cyfrannu at werthiannau gros o £17.3bn[8] a thros 223,100 o bobl yn cael eu cyflogi yng nghadwyn gyflenwi gyfan bwyd a diod.[9] Oherwydd hyn, mae Bwyd a Diod wedi'i nodi i fod yn sector economaidd â blaenoriaeth yng Nghymru ac, am y rheswm hwnnw, mae wedi cael cryn gymorth a chefnogaeth polisi. Cynhaliom adolygiad cynhwysfawr o'r polisi perthnasol yn rhan o werthusiad Cam 1, a dyma brif ganfyddiadau'r adolygiad hwnnw.

- Y prif ddogfennau allweddol sy'n nodi'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu strategol yw papur strategaeth 'Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010–2020' a chynllun gweithredu 'Tuag at Dwf Cynaliadwy 2014 i 20'. Roedd yr olaf yn cynnwys ffocws mawr ar sicrhau twf economaidd yn y sector, gan gynnwys targed uchelgeisiol i gynyddu gwerthiant 30% erbyn 2020.[10]
- Mae llawer o bwyslais wedi bod ar greu gwell llwybr at dwf ar gyfer busnesau micro a bach nad ydynt wedi gallu mynd y tu hwnt i farchnadoedd lleol. Mae hwn yn golofn allweddol yn y strategaeth ehangach ar gyfer twf, gan gydnabod bod y sector yng Nghymru yn cael ei ddominyddu gan ficrofentrau bach iawn, a phrinder cwmnïau bach a chanolig eu maint. Yn unol â hynny, mae llawer o'r ffocws wedi bod ar gefnogi microfentrau i fod yn fwy proffesiynol a chynyddu eu gweithrediadau.
- Elfen arall y strategaeth ar gyfer twf yw datblygu'r marchnadoedd allforio a domestig. O ran yr olaf, mae Tuag at Dwf Cynaliadwy yn canolbwyntio ar gael cynhyrchion domestig i gymryd lle cynhyrchion a fewnforir trwy sicrhau deialog barhaus yn y gadwyn gyflenwi a chael cynlluniau cymorth i adeiladu cadwyni cyflenwi mwy integredig, gan weithio gyda'r marchnadoedd manwerthu a lletygarwch domestig. Yn ogystal, cydnabuwyd bod cyflenwi'r sector cyhoeddus yn gyfle allweddol arall. Yn wir, mae caffael yn y sector cyhoeddus wedi bod yn fater cynyddol bwysig i Lywodraeth Cymru, gan fod caffael gan fusnesau 'lleol'

---

[8] Sut gallwn ni helpu (Busnes Cymru: Bwyd a Diod)
[9] Addysg, Sgiliau a Hyfforddiant (Busnes Cymru: Bwyd a Diod)
[10] Llywodraeth Cymru, Y diwydiant bwyd a diod: cynllun gweithredu

yn cynnal cyflogaeth ac yn gallu lleihau taith bwyd yn sylweddol. Mae hyn yn cysylltu ag agenda polisi allweddol arall Llywodraeth Cymru wrth geisio cefnogi'r economi sylfaenol,[11] sy'n ymgorffori ffocws ar 'le' (h.y. ar ardaloedd daearyddol). Mae'n ceisio targedu buddsoddiad yn yr economi sylfaenol i greu amodau cyflogaeth da, lleihau'r arian sy'n cael ei golli o gymunedau lleol, a mynd i'r afael â chost amgylcheddol cadwyni cyflenwi estynedig.

- Yn ogystal â chysyniad traddodiadol o sicrhau twf, mae'r strategaeth a'r cynllun gweithredu yn rhoi pwyslais newydd ar ddatblygu cynaliadwy ym mholisïau bwyd a diod, gyda llawer o ffocws ar agweddau amgylcheddol cynhyrchu a phrynu/defnyddio. Mae hyn yn cyd-fynd â'r cyfeiriad polisi ehangach yng Nghymru sy'n ceisio integreiddio amcanion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol o dan yr uchelgais o ddatblygu economi gynaliadwy, neu 'dwf cynhwysol' (h.y. y cysyniad o sicrhau bod twf economaidd yn cael ei ddosbarthu'n deg ar draws cymdeithas ac yn creu cyfleoedd i bawb).
- Mae'r weledigaeth strategol newydd ar gyfer y sector yn canolbwyntio ar themâu tebyg i rai'r strategaeth flaenorol, gan fynegi rôl y sector Bwyd a Diod wrth greu ffyniant economaidd drwy hybu twf a chynhyrchiant, ynghyd â phwyslais cymdeithasol ac amgylcheddol cryf.[12] Fel rhan o hyn, mae'r strategaeth 'Adeiladu ar ein llwyddiant' yn ymgorffori uchelgais i'r sector dyfu'n gyflymach nag yng ngweddill y DU ac i o leiaf £8.5bn erbyn 2025; i'r sector gyrraedd y lefelau uchaf o gynaliadwyedd amgylcheddol; i symud tuag at waith mwy deniadol a thecach i bobl;[13] ac i sefydlu'r enw gorau a'r safonau uchaf trwy achrediad, ennill gwobrau, a chyrraedd y safonau hylendid bwyd uchaf. Mae ennill achrediadau hefyd yn cael ei ystyried yn ddangosydd defnyddiol ar gyfer nodi busnesau sydd fwyaf difrifol ynghylch tyfu.

[11] Yr economi sylfaenol yw darparu nwyddau a gwasanaethau sylfaenol y mae pob dinesydd yn dibynnu arnynt, a'r rheiny yn cynnwys gwasanaethau gofal ac iechyd, bwyd, tai, ynni, adeiladu, twristiaeth, manwerthu, ac ati.
[12] [Bwyd a Diod Cymru, Gweledigaeth ar gyfer y diwydiant Bwyd a Diod o 2021 (Busnes Cymru: Bwyd a Diod)]
[13] Yn sail i hyn mae targed lle bydd cyfran y gweithwyr yn y sector Bwyd a Diod sy'n derbyn o leiaf Cyflog Byw Cymru yn cynyddu bob blwyddyn i gyrraedd 80% erbyn 2025.

### Y sail resymegol y tu ôl i'r FBIS a'r RBISF

3.2 Caiff y buddsoddiadau a wneir drwy'r FBIS a'r RBISF eu hystyried yn ymyrraeth flaenllaw gan Lywodraeth Cymru i gyflawni eu hamcanion polisi i gynhyrchu twf yn y sector ac i gynyddu cynaliadwyedd a sicrwydd bwyd drwy adeiladu a hyrwyddo asedau cyfalaf. Mae'r cynlluniau'n cefnogi proseswyr yn uniongyrchol i gynyddu eu capasiti, gan arwain at gynyddu eu cynhyrchiant a'u hincwm. Cefnoga'r FBIS fusnesau eraill hefyd, yn enwedig cynhyrchwyr cynradd, i arallgyfeirio drwy ddatblygu elfen brosesu i'w busnes, a thrwy hynny ychwanegu gwerth at eu gweithrediadau. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth i ffermwyr fynd ati i chwilio am gyfleoedd arallgyfeirio yn dilyn Brexit.

3.3 Mae'r RBISF ychydig yn wahanol gan ei fod wedi'i gynllunio i gefnogi prosiectau nad ydynt yn gymwys o dan yr FBIS ac, felly, nid yw wedi canolbwyntio ar weithgarwch arallgyfeirio. Yn hytrach, mae'r RBISF wedi canolbwyntio'n bennaf ar gefnogi busnesau bwyd a diod eraill nad ydynt yn ymwneud â phrosesu cynhyrchion amaethyddol cynradd.

3.4 Cynlluniwyd yr FBIS i fod o fudd anuniongyrchol i gynhyrchwyr cynradd trwy wella gweithrediadau'r proseswyr y maent yn cyflenwi iddynt. Y ddamcaniaeth yw y bydd y cynnydd yng nghynhyrchiant proseswyr yn arwain at fwy o alw am ddeunyddiau crai gan gynhyrchwyr lleol. Drwy hyn, ceir ffocws ehangach ar y gadwyn gyflenwi yn y cynllun.

3.5 Dangosodd yr ymgynghoriad cwmpasu bod angen buddsoddiad cyfalaf i helpu busnesau i ddatblygu eu hadeiladau a chefnogi prynu offer, ac eto heb gymorth, ni fyddai llawer o'r buddsoddiad cyfalaf yn cael ei wneud. Mae hwn yn ddiwydiant isel ei elw ac, felly, mae'r gallu i fuddsoddi yn gyfyngedig. Yn ogystal, mae'r buddsoddiadau sydd eu hangen yn aml yn ddrud. Er enghraifft, bydd buddsoddi mewn datblygu ffatri fwyd yn aml yn costio mwy na gwerth yr eiddo yn y pen draw. Gall fod yn anodd i rai busnesau yn eu camau cyntaf a busnesau llai o faint gael gafael ar fuddsoddiad gan fenthycwyr masnachol.

### Model cyflawni cynlluniau'r FBIS a'r RBISF

3.6 Mae pedair elfen i gyflawni'r cynlluniau grant:

- hyrwyddo'r cynlluniau i ddarpar ymgeiswyr
- cynnal y broses ymgeisio a gwerthuso

- dosbarthu'r cymorth grant
- monitro'r effaith.

3.7 Amlinellir elfennau allweddol y model cyflawni isod i roi cyd-destun ar gyfer yr adroddiad (ceir rhagor o wybodaeth am y model cyflawni yn nodiadau canllaw'r FBIS a'r RBIS).[14]

- Âi ymgeiswyr trwy broses ymgeisio oedd â dau gam iddi yn y ddau gynllun, a'r broses honno yn cynnwys Datganiad o Ddiddordeb ar ôl i'r cyfnod ymgeisio agor (roedd naw ffenestr ar gyfer yr FBIS a saith ar gyfer yr RBISF), a dilynwyd hyn gan gais llawn ar gyfer y rhai a fu'n llwyddiannus yn y cam cyntaf. Y tîm yn Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru oedd yn gyfrifol am arfarnu cyflwyniadau'r Datganiad o Ddiddordeb, gyda Taliadau Gwledig Cymru (RPW) yn gyfrifol am sgorio a gwerthuso'r ceisiadau llawn. Aseswyd pob cais yn ôl ei werth am arian (yn seiliedig ar y cynnydd a ragwelid mewn trosiant wedi'i rannu â gwerth y grant), gallu'r ymgeisydd i gyflawni, gwerth posibl i'r economi, i ba raddau y byddai'r buddsoddiad yn cefnogi'r sector, a chynaliadwyedd y farchnad ac/neu'r busnes yn y tymor hwy.
- Roedd paramedrau tebyg gan y ddau gynllun o ran cymorth grant a chymhwysedd. Dim ond hyd at 40% o'r buddsoddiad y gallai'r grantiau ei roi. Roedd yr FBIS yn agored i fusnesau bach a chanolig a busnesau mawr, tra bod yr RBISF wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer microfentrau a busnesau bychain.
- Gallai cymorth o dan y cynlluniau hyn gynnwys asedau diriaethol megis tir, adeiladau, peiriannau ac offer yn ogystal ag asedau anniriaethol megis meddalwedd cyfrifiadurol, ffioedd ymgynghori, ac ati. Gellid defnyddio'r grantiau i wella cyfleusterau prosesu, e.e. i godi adeiladau newydd (yn benodol ar gyfer prosesu), adnewyddu hen adeiladau, a phrynu offer cymwys. Un gwahaniaeth allweddol rhwng y cynlluniau yw na ellid defnyddio'r FBIS ond i gefnogi prosiectau lle mae mewnbynnau'r gweithgaredd prosesu yn gynnyrch amaethyddol cymwys sydd ag o leiaf 90% yn dod o'r UE, tra nad yw'r RBISF yn cynnwys y cyfyngiad hwnnw. Yn wir, roedd hwn yn rheswm allweddol dros gyflwyno'r RBISF – dileu cyfyngiad sylweddol yng nghynllun yr FBIS (a

[14] Dyma'r nodiadau cyfarwyddyd diweddaraf ar gyfer yr Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd: canllawiau a'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig (Bwyd): canllawiau

orchmynnwyd drwy reoliadau ariannu'r RDP), a thrwy hynny sicrhau bod mwy o fusnesau yn y sector yn gallu cael cymorth cyfalaf.

- Mae'r FBIS yn gynllun llawer mwy o faint ac iddo gyfanswm cyllideb o £65m ac uchafswm cynnig grant o £5m (lleiafswm £2.4k), o'i gymharu â chyfanswm cyllideb yr RBISF o £3.5m ac uchafswm cynnig grant o £150k (lleiafswm £5k). Cafwyd rhai newidiadau yn nhri o naw ffenestr yr FBIS – gostyngwyd uchafswm y grant o £5m i £75k yn Ffenestr 3 ac i £150k yn Ffenestr 4 er mwyn targedu busnesau llai o faint. Agorwyd ffenestr 6 yn benodol i annog lladd-dai i fuddsoddi mewn teledu cylch cyfyng ac offer cysylltiedig er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cydymffurfio â deddfwriaeth newydd ar y pryd.
- Monitrwyd cynnydd ar gyfer y ddau gynllun trwy ddiweddariadau cynnydd rheolaidd ac adroddiad terfynol dri mis ar ôl ei gwblhau (pan gaiff perfformiad y prosiect ei werthuso yn erbyn yr amcanion a'r targedau a osodwyd). Os yw prosiect wedi methu â chyrraedd y targedau hyn ac na fyddai wedi bod yn gymwys ar gyfer cymorth grant o dan y cynllun ar sail y gwir gynnydd a wnaed, yna gellir cymryd camau i adennill y grant a dalwyd. Taliadau Gwledig Cymru (RPW) sy'n gyfrifol am sicrhau bod y prosiectau'n cael eu cyflawni yn ôl y bwriad, gydag aelod o'u tîm technegol yn cynnal arolygiad unwaith y gwneir 80% o'r hawliadau er mwyn adolygu'r anfonebau ac ati.

## Allbwn o ran y cyflawni

### Maint y cynllun

3.8 Gyda'i gilydd, gwnaeth busnesau 520 o geisiadau i'r FBIS, gyda 127 yn llwyddiannus, sef cyfradd llwyddiant o 24%. Fel y dengys Tabl 3.1 isod, roedd gordanysgrifio ar gyfer pob ffenestr, gyda 63% o geisiadau yn aflwyddiannus ar y cam Datganiad o Ddiddordeb, a hyn yn dangos y galw am y cyllid a natur hynod gystadleuol y broses.

3.9 Yn gyfan gwbl, gwnaeth 469 o fusnesau gais am gymorth grant yr FBIS, gyda 119 ohonynt yn llwyddiannus (25%), gan gynnwys wyth busnes a fu'n llwyddiannus ar ddau achlysur gwahanol. Yn ogystal, roedd gan 19 o'r busnesau hynny ymdrechion aflwyddiannus ochr yn ochr â'r ceisiadau y dyfarnwyd cyllid iddynt. O'r 350 o fusnesau a fu'n aflwyddiannus, roedd 15 ohonynt wedi bod yn aflwyddiannus â nifer o geisiadau.

**Tabl 3.1: Adolygu data o geisiadau grant yr FBIS**

| | Nifer y ceisiadau | | | | | Gwerth y grantiau | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffenest | Cyfanswm ceisiadau | Llwyddiant cyffredinol | Aflwyddiannus yn y cam Datganiad o Ddiddordeb | Aflwyddiannus / tynnu'n ôl yng Ngham 2 | Cyfradd llwyddiant cyffredinol | Cyfanswm a ddyfarnwyd | Cyfartaledd (cymedr) a ddyfarnwyd | Cyfanswm a hawliwyd | Canran a hawliwyd |
| 1 | 82 | 16 | 60 | 6 | 20% | £10,474,236 | £654,640 | £9,169,978 | 88% |
| 2 | 64 | 15 | 44 | 5 | 23% | £19,998,753 | £1,333,250 | £18,165,087 | 91% |
| 3* | 50 | 24 | 4 | 22 | 48% | £1,323,387 | £55,141 | £1,229,106 | 93% |
| 4* | 51 | 18 | 27 | 6 | 35% | £1,854,879 | £103,049 | £1,568,989 | 85% |
| 5 | 69 | 10 | 53 | 6 | 14% | £1,909,080 | £190,908 | £1,896,988 | 99% |
| 6 | 15 | 4 | 6 | 5 | 27% | £414,719 | £103,680 | £31,347 | 8% |
| 7 | 51 | 9 | 41 | 1 | 18% | £7,644,217 | £849,357 | £3,403,265 | 45% |
| 8 | 45 | 9 | 33 | 3 | 20% | £1,808,493 | £200,944 | £366,835 | 20% |
| 9 | 93 | 22 | 62 | 9 | 24% | £14,317,071 | £650,776 | £3,691,350 | 26% |
| Cyfanswm | 520 | 127 | 330 | 63 | 24% | £59,744,835 | £470,432 | £39,522,946 | 66% |

Ffynhonnell: Dadansoddi data gwybodaeth reoli a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru hyd at fis Mawrth 2023

*Sylwer: Gostyngwyd uchafswm y grant £5m i £75k yn Ffenestr 3 ac i £150k yn Ffenestr 4 i dargedu busnesau llai.

3.10 Yn gyfan gwbl, dyfarnwyd ychydig o dan £60m o arian grant drwy'r FBIS a hynny ar gyfartaledd o ychydig o dan £470k ar gyfer y 127 o brosiectau, sy'n dangos graddfa fawr y gweithgarwch a gyflawnwyd. Yn wir, er bod amrywiaeth sylweddol ym maint y grantiau a ddyfarnwyd drwy'r FBIS, gan amrywio o £2,459 i £5m, roedd y rhan fwyaf yn sylweddol, gyda 54% wedi cael mwy na £100k (gan gynnwys 11% y dyfarnwyd mwy na £1m iddynt).

3.11 Mae cyfanswm y cyllid a ddyfarnwyd yn cynrychioli 92% o'r gyllideb, gan ddangos felly fod y cynllun wedi llwyddo i ddyfarnu'r mwyafrif helaeth o'r cyllid a oedd ar gael. Dyma brif ddangosydd llwyddiant unrhyw gynllun grant cyfalaf. Yn yr un modd, mae'r data hefyd yn datgelu mai dim ond dwy ran o dair o'r grantiau a ddyfarnwyd, sy'n cyfateb i tua £39.5m, sydd wedi'i wario neu ei hawlio hyd yma. Mae hyn yn bennaf oherwydd mai dyddiad cwblhau ariannol 41% o brosiectau a ariannwyd o Ffenestr 6 ymlaen (18/44) oedd mis Mawrth neu fis Mehefin 2023 ac, felly, ni fyddant wedi hawlio'u dyfarniad grant yn llawn eto. Hawliwyd 90% o'r cyllid a ddyfarnwyd yn Ffenestri 1 i 5 o gymharu â dim ond 31% o'r grantiau a ddyfarnwyd yn Ffenestri 6 i 9. Os tybiwn y bydd cyfran debyg o'r grantiau a ddyfarnwyd yn y ffenestri hynny yn cael eu hawlio yn y pen draw (h.y. 90% ar draws pob ffenestr), byddai hynny'n cyfateb i £53,813,777 yn cael ei wario erbyn diwedd y broses, sef 83% o'r gyllideb.

3.12 Roedd amrywiaeth sylweddol o ffenestr i ffenestr o ran nifer y ceisiadau a dderbyniwyd, cyfradd llwyddiant, a maint cyfartalog y grant a ddyfarnwyd. Mae hyn yn rhannol oherwydd y newidiadau a wnaed i rai o'r ffenestri, gyda Ffenestri 3 a 4 yn cynnwys uchafswm grant llawer is (a thrwy hynny egluro'r nifer llai o geisiadau grant a gafwyd a'r nifer uwch o Ddatganiadau o Ddiddordeb y gellid eu symud ymlaen i gais llawn), tra bod Ffenestr 6 wedi'i thargedu at ladd-dai ar gyfer buddsoddi mewn teledu cylch cyfyng (sydd eto'n egluro nifer llai y grantiau y gwnaed cais amdanynt yn ogystal â nifer is y ceisiadau a dderbyniwyd). Roedd pwrpas targedu Ffenestr 6 yn benodol at ladd-dai wedi'i ysgogi gan Swyddfa'r Prif Filfeddyg (OCVO) yn Llywodraeth Cymru, gan eu bod am annog a chefnogi lladd-dai i osod camerâu cylch-cyfyng i baratoi ar gyfer y ddeddfwriaeth orfodol arfaethedig i bob lladd-dy gael teledu cylch cyfyng at ddibenion monitro lles anifeiliaid.

3.13 Mae Tabl 3.1 hefyd yn dangos rhywfaint o ostyngiad yn nifer y ceisiadau yng Ngham 2, gyda thua thraean (33%; 63/190) o'r holl geisiadau a aeth ymlaen i Gam

2 naill ai'n aflwyddiannus yn y pen draw neu wedi tynnu'n ôl. Mae'r olaf yn gysylltiedig â rhai o'r problemau a gafwyd yn ystod y broses ymgeisio ac arfarnu, gydag oedi hir yn arwain at ymgeiswyr yn tynnu'n ôl o'r broses. Roedd yr oedi hwn yn arbennig o broblematig o'i gyfuno â lefelau chwyddiant uchel, gan arwain at fusnesau'n gorfod talu mwy na'r disgwyl am eu prosiectau, ac wedi'i waethygu gan y ffaith na allai'r cynllun ymrwymo mwy o gyllid i roi cyfrif am gostau cynyddol (dim ond y swm y cytunwyd arno yn ystod y cam Datganiad o Ddiddordeb y gellid ei roi). Cyfeiriodd nifer o fusnesau at rwystredigaethau ynghylch hyn, a byddwn yn eu trafod yn fanylach yn y bennod nesaf.

3.14 Gwnaed penderfyniad i gau'r RBISF yn gynt na'r bwriad a chyn y gellid defnyddio'r gyllideb oherwydd cyfyngiadau yn yr adnoddau yn Llywodraeth Cymru. Eglurodd aelodau'r tîm cyflawni fod yn rhaid iddynt flaenoriaethu'r FBIS, fel y prif gynllun, ac ailgyfeirio'r adnoddau a oedd ar gael tuag ato. Yn unol â hynny, mae Tabl 3.2 isod yn dangos mai dim ond 28 o brosiectau y dyfarnwyd cyllid iddynt, sef cyfanswm o tua £811k, sef 23% yn unig o'r gyllideb a oedd ar gael ar gyfer y cynllun. Mae pob un o'r prosiectau hyn bellach wedi'u cwblhau, gydag 88% o'r swm a ddyfarnwyd wedi'i hawlio a'i wario, sy'n golygu bod £714,971 o arian grant wedi'i weinyddu drwy'r cynllun yn y pen draw. Mae hyn yn debyg i'r gymhareb a ragwelir ar gyfer yr FBIS, lle disgwylir y bydd 90% o'r cyllid a ddyfarnwyd yn cael ei wario.

3.15 Mae'r data hefyd yn datgelu bod 13% o'r ymgeiswyr a aeth ymlaen i Gam 2 (8/64) wedi penderfynu tynnu'n ôl o'r broses, yn ôl pob tebyg oherwydd yr oedi a nodwyd yn flaenorol, a hynny wedi cyfrannu at danwariant o tua £129k.

**Tabl 3.2: Adolygu data o geisiadau grant yr RBISF**

| | Nifer y ceisiadau | | | | | Gwerth y grantiau a ddyfarnwyd | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ffenest** | **Cyfanswm ceisiadau** | **Llwyddiant cyffredinol** | **Aflwyddiannus yn y cam Datganiad o Ddiddordeb** | **Aflwyddiannus / tynnu'n ôl yng Ngham 2** | **Cyfradd llwyddiant cyffredinol** | **Cyfanswm a ddyfarnwyd** | **Cyfartaledd (cymedr) a ddyfarnwyd** | **Cyfanswm a hawliwyd** | **Canran a hawliwyd** |
| 1 | 17 | 6 | 8 | 3 | 35% | £190,706 | £38,141 | amherthnasol | amherthnasol |
| 2 | 19 | 5 | 10 | 4 | 26% | £102,066 | £20,413 | amherthnasol | amherthnasol |
| 3 | 17 | 2 | 6 | 9 | 12% | £55,144 | £27,572 | amherthnasol | amherthnasol |
| 4 | 8 | 4 | 1 | 3 | 50% | £112,340 | £28,085 | amherthnasol | amherthnasol |
| 5 | 9 | 4 | 0 | 5 | 44% | £79,270 | £19,818 | amherthnasol | amherthnasol |
| 6 | 4 | 2 | 1 | 1 | 50% | £71,229 | £35,615 | amherthnasol | amherthnasol |
| 7 | 21 | 5 | 5 | 11 | 24% | £178,234 | £35,647 | amherthnasol | amherthnasol |
| Cyfanswm | 95 | 28 | 31 | 36 | 29% | £811,153 | £28,970 | £714,971 | 88% |

Ffynhonnell: Dadansoddi data gwybodaeth reoli a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru hyd at fis Mawrth 2023

3.16 Mae'r data yn adlewyrchu'r gwahaniaethau yn y cynlluniau grant, gan fod maint y grant cyfartalog (cymedrig) a ddyfarnwyd drwy'r RBISF ychydig o dan £29k o gymharu â thua £470k ar gyfer yr FBIS. Wedi dweud hynny, mae ceisiadau grant mwy o faint wedi bod yn fwy llwyddiannus yn y ddau gynllun. Roedd maint grant cyfartalog ymgeiswyr aflwyddiannus yn llai na £26k ar gyfer yr RBISF a thua £344k ar gyfer yr FBIS, y ddau yn llai na cheisiadau llwyddiannus ar gyfartaledd.

**Proffil buddiolwyr**

3.17 Yn gyffredinol, sefydliadau bychain iawn yw buddiolwyr yr FBIS; mae dadansoddi data'r wybodaeth reoli yn datgelu bod 66% yn ficrofentrau (sef llai na 10 o gyflogeion) ar adeg gwneud y cais am gymorth, tra bod 20% arall yn perthyn i'r categori busnes 'bach' (sef 10 i 49 o gyflogeion). Fodd bynnag, mae'r cynllun wedi cefnogi busnesau mawr hefyd – roedd gan 2% ohonynt fwy na 250 o gyflogeion, tra bod 13% yn fusnesau canolig eu maint (50 i 249 o gyflogeion). Oherwydd y gofynion cymhwysedd, roedd holl fuddiolwyr yr RBISF yn ficrofentrau (93%) neu'n fusnesau bach (7%).

3.18 Roedd proffil y buddiolwyr yn gwyro tuag at fusnesau mwy o faint; er enghraifft, dim ond 24% o ficrofentrau a gafodd gais llwyddiannus drwy'r FBIS o'i gymharu â 32% o fusnesau bach a 38% o fusnesau canolig eu maint. Mae hyn o bosibl yn gysylltiedig ag adnoddau a meddu ar yr arbenigedd i ysgrifennu ceisiadau llwyddiannus mewn proses yr oedd llawer wedi'i disgrifio i fod yn gymhleth a llafurus (fel y trafodir yn y bennod nesaf).

3.19 Busnesau newydd oedd lleiafrif amlwg o'r buddiolwyr ar adeg gwneud y cais am gymorth, gan gynnwys 20% o fuddiolwyr yr FBIS ac 19% o fuddiolwyr yr RBISF (ffynhonnell: data gwybodaeth reoli). Ar yr un pryd, roedd busnesau newydd yn llai tebygol o fod yn llwyddiannus, gyda chyfradd llwyddiant o ddim ond 19% ar gyfer yr FBIS ac 16% ar gyfer yr RBISF (y ddau yn is na'r cyfartaledd cyffredinol). Efallai ei bod yn syndod nad yw cyfradd llwyddiant busnesau newydd yr RBISF yn uwch nag ar gyfer yr FBIS o ystyried bod y cyntaf wedi'i gynllunio ar gyfer busnesau llai o faint, gan gynnwys busnesau newydd.

3.20 Roedd mwyafrif helaeth y busnesau a gafodd gymorth eisoes â gweithrediad prosesu neu weithgynhyrchu bwyd ar waith, gyda 75% o fuddiolwyr yr FBIS (39/52) a 91% o fuddiolwyr yr RBISF (10/11) yn nodi hyn yn yr arolwg i fuddiolwyr. Roedd cyfran fawr o fuddiolwyr yr FBIS yn fusnesau fferm hefyd, a chwarter (13/52)

ohonynt yn nodi nad oedd ganddynt unrhyw weithrediadau prosesu blaenorol (ac felly am ddefnyddio'r FBIS i arallgyfeirio eu gweithrediadau), tra bod 15% arall (8/52) yn ceisio gwella gweithrediad prosesu ar eu fferm. Roedd llai o fusnesau fferm wedi ymgysylltu â'r RBISF (dim ond 2/11) a dim ond un oedd wedi cael cymorth heb fod â gweithrediad prosesu cyn hynny. Mae hyn oherwydd bod y cynllun wedi'i gynllunio i gefnogi busnesau nad oeddent yn gymwys o dan yr FBIS (sef yn bennaf busnesau nad oeddent yn prosesu cynhyrchion amaethyddol cynradd). Felly, gan fod gweithgaredd arallgyfeirio ar ffermydd yn cael ei gefnogi o dan yr FBIS, yn gyffredinol ni châi ei gefnogi o dan yr RBISF.

3.21 Ni thargedwyd unrhyw is-sector yn benodol; fodd bynnag, mae pum is-sector wedi bod yn arbennig o gyffredin ym mhroffil buddiolwyr yr FBIS, ac fe'u dangosir yn Nhabl A2 yn Atodiad G a'u crynhoi isod.

- Yn gyntaf, roedd mwy o fuddiolwyr prosesu wyau nag unrhyw is-sector arall, gan gyfrif am 35% o'r buddiolwyr. Er bod y buddiolwyr hynny fel arfer wedi derbyn grantiau llai na'r cyfartaledd, mae'r segment hwn yn dal i gyfrif am tua £5.5m neu 9% o'r holl gyllid a ddyfarnwyd. Yr is-sector hwn hefyd oedd â'r gyfradd llwyddiant ail uchaf, gyda 38% o'r holl geisiadau Datganiad o Ddiddordeb yn symud ymlaen i gyllid grant. Roedd rhai swyddogion polisi yn Llywodraeth Cymru yn cwestiynu gwerth strategol buddsoddi cymaint mewn prosesu wyau, gan na chaiff ei ystyried yn faes twf arbennig o uchel (dychwelwn at hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad).
- Yn ail, mae busnesau llaeth yn cyfrif am 21% o'r holl fuddiolwyr. Yn gyffredinol cawsant rai o'r grantiau mwy o faint ac, fel y cyfryw, yr is-sector hwn o bell ffordd yw cyfran uchaf yr arian grant (41% neu tua £24.5m).
- Yn drydydd, mae cynhyrchion cig yn cyfrif am 15% o'r buddiolwyr a 22% o'r cyllid grant (tua £13.3m).
- Yn bedwerydd, mae 11% o fuddiolwyr yn gweithredu yn yr is-sector alcohol (bragdai yn bennaf), er bod y rhain yn grantiau llai o faint na'r cyfartaledd, gyda'r segment yn cyfrif am 3% yn unig o gyfanswm y grant a ddyfarnwyd (tua £1.7m).
- Yn bumed, er ei fod yn cynrychioli dim ond 2% o fuddiolwyr, mae'r is-sector garddwriaethol yn cyfrif am £12m neu 20% o'r holl arian grant.

3.22 Gyda'i gilydd, mae'r pum is-sector hyn yn cynrychioli 84% o'r buddiolwyr a 95% o'r cyllid (roedd buddiolwyr o 11 is-sector yn gyfan gwbl ac ymgeiswyr o 19 is-sector —

gweler Tabl A2 yn Atodiad G). Mae'n bwysig nodi eto bod y proffil hwn o fuddiolwyr yn adlewyrchu dyluniad y cynllun, h.y. ei fod yn agored yn unig i fuddiolwyr a oedd yn prosesu cynnyrch amaethyddol sylfaenol, gyda 90% o'r cynnyrch hwnnw i ddod o'r tu mewn i'r UE.

3.23 Llaeth, cig ac alcohol hefyd oedd rhai o'r is-sectorau mwyaf cyffredin a gefnogid gan yr RBISF, er bod y cymorth wedi'i ddosbarthu dros ystod ehangach o is-sectorau (yn cynnwys te/coffi, pobyddiaeth, melysfwyd, diodydd, a jamiau). Dengys hyn fod y cynllun wedi'i gynllunio i gefnogi busnesau nad oeddent yn gymwys i gael cymorth yr FBIS; felly, gellir gweld cyfansoddiad sectoraidd mwy amrywiol.

3.24 Roedd cyfran fawr o fuddiolwyr yr FBIS mewn sefyllfa dda ar gyfer twf cyn derbyn y cymorth. Canfu ein harolwg fod gan 56% o fuddiolwyr o leiaf un achrediad, roedd 45% eisoes yn cyflenwi manwerthwyr/cyfanwerthwyr cenedlaethol, a 10% yn allforio. Dim ond 16% o fuddiolwyr oedd yn dibynnu'n gyfan gwbl ar lwybrau lleol ar raddfa lai i'r farchnad, megis siopau a mannau gwerthu lleol/annibynnol, marchnadoedd ffermwyr, siopau fferm, a gwyliau/digwyddiadau.

3.25 Unwaith eto, gellir gweld y gwahaniaeth ym mhroffil y busnesau yn nata'r RBISF, gyda hanner y buddiolwyr a holwyd (5/10) yn dibynnu ar y llwybrau lleol ar raddfa lai i'r farchnad a grybwyllwyd uchod, tra mai dim ond tri o 11 oedd yn cyflenwi i fanwerthwyr/cyfanwerthwyr cenedlaethol, dau yn unig oedd ag unrhyw achrediad, ac nid oedd yr un ohonynt yn allforio.

**Cymhellion dros chwilio am gymorth**

3.26 Roedd mwyafrif helaeth y buddiolwyr ar draws y ddau gynllun wrthi'n tyfu neu'n cynllunio ar gyfer twf cyn mynd ar ofyn y cymorth (88% yn gyfan gwbl). Wrth ddisgrifio eu cymhellion yn ymgeisio am y cymorth a rôl y cynlluniau hyn yn eu cynlluniau twf, esboniodd buddiolwyr nad oeddent yn gallu ateb y galw am eu cynnyrch a bod angen iddynt gynyddu eu capasiti cynhyrchu (soniodd 42% am hyn). Roedd eu busnes wedi cyrraedd pen uchaf eu potensial i dyfu, meddent, a bod angen chwistrelliad cyfalaf arnynt cyn y gallent gymryd y cam nesaf:

> "Roeddwn wedi bod yn masnachu ers tua thair blynedd ac wedi cyrraedd pwynt lle na allwn gynhyrchu digon i fodloni galw cwsmeriaid. Roedd angen i mi uwchraddio'r offer prosesu i fod yn fwy cynhyrchiol a chynyddu capasiti fel y gallwn werthu'n fwy lleol ond hefyd ddechrau bodloni'r galw cynyddol ar-lein." (Arolwg i fuddiolwyr)

3.27 Soniodd eraill am yr angen i broffesiynoli eu prosesau cynhyrchu, e.e. drwy ddatblygu uned fodern, bwrpasol ar y safle, symud i safle newydd (yn aml y tu allan i’w cartref domestig), neu wella eu prosesau (dyfynnwyd gan 38%):

> “Mae’r ddistyllfa gin yn cael ei rhedeg yn ein tŷ ni ar hyn o bryd. Ond mae’n rhaid i ni ddod yn warws bond ac ar gyfer hynny mae angen eiddo ar wahân sydd hefyd yn ddiogel. Bydd hyn hefyd yn ein galluogi i gynyddu capasiti cynhyrchu, cynyddu pŵer prynu.” (Arolwg i fuddiolwyr)

3.28 Disgrifiodd dau fuddiolwr sut yr oeddent yn arfer gorfod rhoi eu cynhyrchu i bobl eraill ar gontract allanol, a hynny’n cyfyngu ar eu huchelgeisiau i dyfu:

> “Roedd y busnes yn wynebu cynnydd yn y galw. Roedd yn rhaid i ni anfon ein coffi at brosesydd arall i gael ei rostio ac roedd hyn yn arafu ein lefelau cynhyrchu ac yn taro ein helw. Roeddem hefyd yn bwriadu gwerthu ar-lein trwy fanwerthwyr mawr ar-lein ond roedd angen cynnydd mawr yn ein lefelau cynhyrchu i wneud hyn a chreu ein cyfleuster rhostio coffi mewnol ein hunain.” (Arolwg i fuddiolwyr)


3.29 I eraill, roedd y cymorth a’r awydd i gynyddu cynhyrchiant yn elfennau allweddol o’u strategaeth i gyflenwi manwerthwyr a chyfanwerthwyr cenedlaethol (28%): “Yn y bôn, roeddem yn ceisio cael ein stocio ym mhob manwerthwr yn y DU.” Cyfeiriodd eraill at yr angen i amrywio’r cynnyrch a gynigid ganddynt (26%). Ar gyfer y garfan o fusnesau oedd wrthi’n dechrau, sef tua un rhan o bump o’r buddiolwyr, roedd y grant yn rhan allweddol o alluogi’r busnesau i sefydlu eu gweithrediadau prosesu:

> “Roeddem wedi datblygu [...] atchwanegiadau bwyd yn seiliedig ar ffibr ond roeddem eisiau mynd ag ef i’r cam nesaf o ran cynhyrchu samplau y gellid eu defnyddio wedyn i ennill contractau gyda chynhyrchwyr bwyd. I wneud hyn roedd angen i ni brynu offer cynhyrchu bwyd a oedd yn bodloni safonau cynhyrchu bwyd ac yn dangos hyfywedd y cynnyrch.” (Arolwg i fuddiolwyr)

3.30 Roedd busnesau fferm yn cael eu hysgogi gan amlaf gan yr angen i arallgyfeirio er mwyn cynnal eu fferm deuluol a chynhyrchu incwm a allai gynnal y genhedlaeth nesaf ac/neu deuluoedd lluosog (dywedodd 26% o’r holl ymatebwyr hyn) (gweler astudiaeth achos Fferm Cerrigroes yn Atodiad I).

3.31 Pan ofynnom gwestiwn caeedig[15] ar y prif rwystrau sy'n atal buddiolwyr rhag cyflawni eu cynlluniau twf cyn derbyn y grant, cyfeiriodd 68% at gael gafael ar gyllid, ac yna 54% yn nodi diffyg capasiti cynhyrchu a 48% yn nodi adeiladau ac eiddo fel ffactor sy'n cyfyngu arnynt. Gofynnwyd cwestiwn caeedig i fuddiolwyr hefyd am eu rhesymau dros gael cymorth grant, sy'n dangos ymhellach sut yr oedd yn cyd-fynd ag uchelgeisiau twf busnesau (gweler Ffigur 3.1 drosodd).

**Ffigur 3.1: Rhesymau'r buddiolwyr dros ymgeisio am y cymorth grant**




Ffynhonnell: yr arolwg i fuddiolwyr (n=61 yn gyfan gwbl, n=48 FBIS, a n=11 RBISF)

**Casgliadau**

3.32 I grynhoi, roedd y cynlluniau grant yn bennaf yn cefnogi busnesau bach a microfusnesau a oedd am gymryd y cam nesaf i dyfu eu busnesau drwy wella a phroffesiynoli eu prosesau cynhyrchu. Yn ogystal, cefnogwyd nifer fach o fusnesau

[15] Mae cwestiwn caeedig yn cynnwys cynnig dewisiadau atebion penodol i'r ymatebwr ddewis o'u plith, tra bod cwestiwn penagored yn gofyn i'r ymatebwr roi adborth yn ei eiriau ei hun.

canolig i fawr eu maint hefyd i gynyddu eu hallbwn economaidd ymhellach, tra bod busnesau fferm gan amlaf yn cael eu cefnogi i helpu i gynnal eu gweithrediadau, olyniaeth busnes, a sicrhau hyfywedd ar gyfer sawl teulu. Roedd llawer o'r busnesau hyn eisoes wedi'u hachredu a gallent fynegi eu cynllun ar gyfer twf. Yn unol â hynny, ymddengys bod y garfan o fusnesau a gefnogid yn cyd-fynd yn agos ag amcanion strategol craidd Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ran creu llwybr gwell at dwf. Yn yr un modd, awgrymodd rhai swyddogion polisi Llywodraeth Cymru y byddai dull wedi'i dargedu wedi bod yn well, yn enwedig o ran is-sectorau, gan y byddai'n cynyddu gwerth strategol y cynlluniau ymhellach. Rydym yn archwilio'r thema hon ymhellach yn y penodau sy'n dilyn.

**Adolygu data'r gwariant cyffredinol**

3.33 Ynghyd â darparu arian grant, roedd costau eraill yn gysylltiedig â gweinyddu'r cynlluniau oherwydd yr amser yr oedd yn rhaid i Taliadau Gwledig Cymru (RPW) ei dreulio ar y cynlluniau. Er nad yw RPW wedi cofnodi'r amser penodol a gymerai staff i gwblhau'r holl brosesau gweinyddol, y gwiriadau a'r rheolaethau sy'n ofynnol ar gyfer sicrhau bod cynlluniau yn cydymffurfio ag RDP 2014 i 2020, mae'r tîm wedi cynnig amcangyfrif a gafodd ei gyfrifo'n ôl-weithredol drwy ddefnyddio data a gasglwyd am y ceisiadau a'r broses hawlio, y cyllid a ddyfarnwyd o dan Gymorth Technegol, a gwybodaeth weithredol.

3.34 Ar y sail hon, cyfrifwyd bod cost weinyddol yr FBIS oddeutu £3.29m. Os ychwanegwn hyn at gyfanswm y cyllid grant a ddyrannwyd ac a wariwyd hyd yma (gweler Tabl 3.1 uchod), yr amcangyfrif gorau a geir yw tua £63m o gyllid wedi'i ymrwymo a thua £43m wedi'i wario hyd yma. Mae hwn yn debygol o fod yn amcangyfrif rhy isel, gan nad yw, er enghraifft, yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â'r amser a dreulir gan swyddogion polisi Llywodraeth Cymru. Serch hynny, byddwn yn defnyddio'r ffigur hwn yn sail ar gyfer cyfrifo Adenillion ar Fuddsoddiad y cynllun.

# 4. Canfyddiadau Allweddol ar y Dylunio a'r Cyflenwi

4.1 Mae'r bennod hon yn archwilio rhai o'r prif wersi a ddysgwyd o ran dyluniad a chynnal cynlluniau'r FBIS a'r RBISF.

**Dyluniad a pharamedrau'r grant**

4.2 Mae elfennau dylunio'r ddau gynllun wedi cael derbyniad da gan fuddiolwyr a'r rhai nad ydynt yn fuddiolwyr, ac mae canfyddiadau allweddol yr arolwg fel a ganlyn:

- Rhoddodd buddiolwyr sgôr uchel (89%) wrth gytuno â'r cwestiwn bod maint y grant yn briodol i'w hanghenion, gyda'r rhan fwyaf yn rhoi'r sgôr uchaf.[16]
- Roedd y mwyafrif (84)% yn fodlon â maint yr ymyrraeth, er bod y rhan fwyaf o fuddiolwyr wedi dewis 'Bodlon', yn hytrach na 'Bodlon iawn', sydd efallai'n arwydd o'r anawsterau o orfod cyfrannu 60% o'r cyllid ar gyfer buddsoddiadau sylweddol iawn yn aml.
- Roedd llawer (79%) yn fodlon â'r gweithgareddau a'r costau cymwys, er bod buddiolwyr eto'n fwy tebygol o ddewis 'Bodlon' na 'Bodlon iawn'.

4.3 Er bod y ffigurau uchod yn ymwneud â'r sampl cyfan, nid oedd llawer o wahaniaeth yn yr ymateb gan fuddiolwyr yr FBIS a'r RBISF, gyda'r ddwy garfan yn fodlon ar y cyfan â'r elfennau dylunio amrywiol.

4.4 Cryfder yn y cynlluniau yw maint y grantiau a gynigir oherwydd y gallu i ddarparu ar gyfer prosiectau a busnesau o bob maint, o fuddsoddiad bach sy'n llai na £5k i fuddsoddiadau gwerth sawl miliwn. Cododd un swyddog o Lywodraeth Cymru y cwestiwn a oedd angen darparu grantiau o gyn lleied â £2.5k, yn enwedig o ystyried yr adnoddau sydd eu hangen i wneud y cais a'r amser a gymerir i gael cymeradwyaeth, gan nodi y byddai busnesau'n llawer cyflymach ac yn well eu byd yn ariannu hyn drwy gredyd: "[Roedd] nifer o achosion o geisiadau am grantiau o dan £10k, felly ni symudodd llawer o'r [mathau] hyn o geisiadau hynny ymlaen i gael eu cymeradwyo dim ond oherwydd bod busnesau wedi rhoi'r gorau i'r cais." Yn unol â hynny, cadarnhawyd y bydd gan y cynllun diweddaraf isafswm trothwy o £20k.

4.5 Efallai mai'r prif ffactor a gyfyngai ar ddyluniad yr FBIS oedd bod y cynllun ond yn agored i fuddiolwyr a oedd yn prosesu cynnyrch amaethyddol sylfaenol, gyda 90%

---

[16] Gofynnwyd y cwestiwn hwn gan ddefnyddio sgôr rhwng 1 a 5 (lle roedd 1 yn 'Ddim o gwbl' a 5 yn 'I raddau helaeth').

yn dod o'r UE. Mae hyn yn esbonio cyfansoddiad yr is-sectorau y cyfeiriwyd atynt yn y bennod flaenorol, a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar laeth, cynhyrchu wyau, a chig. Mae busnesau sy'n cynhyrchu diodydd meddal a rhai mathau o felysfwyd a nwyddau wedi'u pobi i gyd yn enghreifftiau o brosiectau na ellid eu hariannu o dan yr FBIS. Bydd hyn wedi effeithio ar allu'r cynllun i dargedu'r cymorth at feysydd twf, fel yr awgrymwyd gan un o swyddogion polisi Llywodraeth Cymru.


4.6 Cynlluniwyd yr RBISF i fynd i'r afael â'r cyfyngiad hwn oherwydd gellid ei ddefnyddio i gefnogi'r is-sectorau eraill hynny. Adlewyrchir hyn yn y data o'r wybodaeth reoli, lle mae cynnyrch llaeth a chig yn gyfran lawer llai o fuddsoddiad yr RBISF, gyda'r cyllid wedi'i wasgaru'n llawer mwy cyfartal ac ar draws ystod ehangach o sectorau (gweler y tablau yn Atodiad G). Fodd bynnag, roedd y cynllun ei hun yn gyfyngedig gan mai dim ond busnesau bach a microfentrau oedd yn gymwys, ac ar gyfer grantiau llawer llai o faint, a rhai llai trawsnewidiol. Yn yr un modd, daeth y cynllun i ben yn gynnar, gyda llai na thraean o'r gyllideb wedi'i dyfarnu. Yn unol â hynny, roedd y cyfle i fuddsoddi mewn gwahanol is-sectorau a'u blaenoriaethu yn parhau i fod yn gyfyngedig.

4.7 Er bod rhai enghreifftiau o dargedu carfannau penodol yn y sector (h.y. y ffenestri yn agored yn benodol ar gyfer busnesau bach a lladd-dai), yn gyffredinol cynlluniwyd y cynllun i fod yn agored iawn. Cymysg oedd y farn ynghylch hyn ymysg y tîm cyflawni. Roedd rhai yn hoffi'r syniad o gael pwrpas strategol cliriach a thargedu'r cynllun yn unol â hynny, e.e. rhoi'r offer sydd eu hangen ar ladd-dai i fodloni'r gofynion a nodir mewn deddfwriaeth newydd. Awgrymodd eraill y dylid buddsoddi mewn meysydd twf er mwyn alinio'n well â'r amcanion polisi (e.e. drwy nodi pa is-sectorau sydd fwyaf tebygol o gynhyrchu twf i economi Cymru). Teimlai swyddogion eraill o Lywodraeth Cymru ei bod yn fwy priodol cadw'r cynllun yn agored er mwyn sicrhau bod y ffocws yn gyfan gwbl ar gefnogi'r prosiectau gorau.

### Y prosesau gwneud cais ac arfarnu


4.8 Mae dwy thema glir yn yr adborth gan fuddiolwyr ynghylch y broses ymgeisio, fel y dangoswn yn Ffigurau 4.1 a 4.2 isod. Yn gyntaf, roedd buddiolwyr yn llawer hapusach â phroses Datganiad o Ddiddordeb yng Ngham 1 nag yr oeddent â phroses y cais llawn yng Ngham 2. Yn ail, roedd buddiolwyr yr RBISF yn fwy bodlon â'u profiad nag oedd y busnesau a gymerodd ran yn yr FBIS.

**Ffigur 4.1: Bodlonrwydd buddiolwyr â Cham 1 – Datganiad o Ddiddordeb**




Ffynhonnell: yr arolwg i fuddiolwyr (n=64 yn gyfan gwbl, n=52 FBIS, a n=10 RBISF)

**Ffigur 4.2: Bodlonrwydd buddiolwyr â Cham 2 – Cais llawn**




Ffynhonnell: yr arolwg i fuddiolwyr (n=64 yn gyfan gwbl, n=52 FBIS, a n=10 RBISF)

4.9 Ymddengys bod proses cais llawn Cam 2 wedi bod yn fwy problematig i fuddiolwyr yr FBIS, gyda dim ond 43% yn dweud eu bod naill ai'n fodlon neu'n fodlon iawn, a 27% yn mynegi anfodlonrwydd â'r broses. Mae'r bodlonrwydd is a gofnodwyd ar gyfer Cam 2 yn debygol o fod yn gysylltiedig â diffyg adnoddau yn nhîm Taliadau Gwledig Cymru (RPW) sy'n gyfrifol am gam hwn yr FBIS. Yn wir, yn yr ymatebion gan fuddiolwyr a'r rhai nad ydynt yn fuddiolwyr cafwyd nifer o sylwadau'n cyfeirio at anfodlonrwydd â'r ymateb araf a diffyg cyfathrebu, er ein bod yn nodi bod 61% o fuddiolwyr wedi dweud eu bod yn fodlon ar yr amserlenni ar gyfer cymeradwyo grantiau pan ymatebent i gwestiwn caeedig ar hyn. Yn ogystal, mae'n bwysig nodi ei bod yn ymddangos bod hwn yn fater ehangach gyda gweinyddu cyllid yr RDP yng Nghymru, yn hytrach na phroblem benodol â gweinyddiaeth yr FBIS.

4.10 Mae lefel uwch y bodlonrwydd â'r RBISF o bosibl oherwydd bod tîm Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am y broses gyfan ac, yn ôl un o swyddogion Llywodraeth Cymru, wedi gallu ei symleiddio. Yn wir, cymhlethdod y broses ymgeisio oedd y brif thema a nodwyd pan ofynnwyd i fuddiolwyr am yr heriau. Wedi dweud hynny, cydnabu'r tîm cyflawni fod rhai busnesau'n dal i weld proses yr RBISF yn anodd a bod "lefel eithaf uchel yn tynnu'n ôl oherwydd ei fod yn ormod o waith, yn enwedig ar gyfer y grantiau isafswm".

4.11 Roedd y rhai nad oeddent yn fuddiolwyr yn fwy beirniadol o'r broses, fel y byddem yn ei ddisgwyl wrth ystyried na ddyfarnwyd cyllid iddynt. Mae graddfa'r anfodlonrwydd yn haeddu sylw, gyda 62% (13/21) yn nodi eu bod yn anfodlon â Cham 2 a dim ond 14% (3/21) yn adrodd eu bod yn fodlon â'r broses. Yn ogystal, dywedodd 15% o'r rhai nad oeddent yn fuddiolwyr a holwyd gennym (8/53) eu bod wedi penderfynu tynnu'n ôl o'r cynlluniau oherwydd yr oedi neu oherwydd bod y broses ymgeisio yn rhy anodd neu'n cymryd llawer o amser:

> "Fe dreulion ni amser hir iawn ar y broses ymgeisio. Roedd yr FBIS yn hir iawn yn cadarnhau bod y cais yn llwyddiannus. Yr amod oedd bod yn rhaid i'r prosiect fod yn barod i fynd nawr, felly fe ddechreuon ni brynu offer y dywedodd ein cynghorydd grant y gallem ei hawlio'n ôl. Roedd ail ran y broses ymgeisio fisoedd a misoedd i ffwrdd, ond roedd y cyfanwerthwr eisiau cynnyrch i'w werthu a gwerthwyd yr uned ddiwydiannol yr oeddem wedi meddwl amdani i rywun arall, felly bu'n rhaid i ni dynnu'n ôl o'r broses. Roeddem wedi methu ein ffenestr i ddechrau'r cynnyrch gan nad oedd yr uned ddiwydiannol bellach ar gael a hefyd colli'r cyfle â'r cyfanwerthwr a oedd am werthu'r cynnyrch." (Arolwg i'r rheiny nad oeddent yn fuddiolwyr)

> "Roedd y cais yn rhy hirwyntog a doedden ni ddim yn gallu fforddio treulio mwy o amser yn llenwi'r ffurflen." (Arolwg i'r rheiny nad oeddent yn fuddiolwyr)

4.12 Teimlai'r tîm cyflawni fod y broses wedi gweithio'n weddol dda, gan nodi bod yna "fanteision ac anfanteision", gyda'r cynllun yn gallu darparu lefel ddigonol o graffu ar yr un pryd â chydnabod ei fod yn "hirwyntog". Dywedodd un aelod tîm mai gwendid y broses oedd yr amser a gymerai i arfarnu ceisiadau llawn yng Ngham 2, sy'n gyson â'r canfyddiadau a amlinellwyd uchod. Yn ogystal, soniwyd bod y system PPIMS (system TG) a ddefnyddiwyd yng Ngham 2 yn rhwystr arall, gydag aelod o'r tîm cyflawni yn egluro ei fod wedi'i gynllunio at ddiben gwahanol a'i fod yn rhy feichus i fuddiolwyr, gan arwain at ragor o rwystredigaethau.

4.13 Er bod oedi yn amlwg wedi bod yn broblem, nododd y mwyafrif helaeth o fuddiolwyr (82%) heriau hefyd wrth lenwi'r ffurflenni. Mae dwy thema allweddol yn codi'n gryf yn yr ymatebion, gyda 45% yn dweud bod y cais yn rhy gymhleth ac yn gofyn am ormod o wybodaeth, tra, yn gysylltiedig â hyn, nododd 38% ei fod yn cymryd gormod o amser. Cyfeiriodd rhai at y straen a'r pwysau yr oedd yn ei roi arnynt wrth geisio cydbwyso eu hymrwymiadau i redeg eu busnes ochr yn ochr â'r amser a gymerodd i gwblhau'r cais:

> "Roedd y cais yn gymhleth iawn ac yn agored i'w ddehongli mewn ffyrdd gwahanol. Yn y diwedd bu'n rhaid i mi ddod ag ymgynghorydd i mewn i gwblhau'r cais, gan ei fod yn cymryd gymaint o amser ac angen rhywun â phrofiad o lenwi'r mathau hyn o ddogfennau." (Arolwg i fuddiolwyr)

4.14 Mae busnesau bach yn arbennig o debygol o gael eu digalonni gan yr ymrwymiad amser a'r cymhlethdod, a all esbonio pam fod cyfradd llwyddiant busnesau llai o faint yn is na'r rhai mwy o faint. Yn wir, soniodd chwech o ymatebwyr (9%) am yr her benodol i fusnesau bach, fel y dangosir isod:

> "Mae'n llawer o waith i'w wneud ac yn gymhleth i fusnes bach. Ni wnaeth llawer o bobl rwy'n eu hadnabod gais am y rheswm hwnnw. Mae'n cymryd gymaint o amser." (Arolwg i fuddiolwyr)

4.15 Oherwydd y rhesymau hyn, teimlai 58% o fuddiolwyr eu bod yn cael eu gorfodi i gael cymorth gan ddarparwyr allanol, gan gynnwys 38% yn talu am wasanaethau ymgynghorwyr annibynnol, gan waethygu'r her i fusnesau llai.

4.16 Roedd 20% o fuddiolwyr wedi cael cymorth gan wasanaethau eraill a ariennir gan Lywodraeth Cymru i'w helpu i ddatblygu eu cais, gan gynnwys wyth yn sôn am Busnes Cymru, tri yn nodi Cyswllt Ffermio, dau yn cyfeirio at Cywain, ac un yn cyfeirio at y Canolfannau Arloesi Bwyd. Ar y naill law, mae hyn yn arwydd o gydweithio da ac yn dangos cydweddiad naturiol yn y dirwedd cymorth ehangach, e.e. lle mae buddiolwr sy'n cael cymorth datblygu busnes cyffredinol trwy Busnes Cymru neu Cywain yn nodi cyfle ar gyfer twf ac yna'n cael ei gefnogi gan y gwasanaeth i gael grant gan yr FBIS neu'r RBISF. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y cymorth hwn wedi'i ddarparu yn ad-hoc, yn hytrach nag mewn modd strwythuredig, systematig (e.e. os oedd ymgeiswyr yn digwydd bod yn cael cymorth gan ddarparwr arall ar y pryd ac wedi crybwyll hyn wrthynt). Felly, mae'n tanseilio ymhellach natur deg y cymorth.

4.17 Dim ond wyth buddiolwr (12%) a ddywedodd eu bod wedi cael cymorth gan aelodau o'r tîm cyflawni, sydd efallai'n dangos y cyfyngiadau llym ar yr hyn y gallent ei wneud; er enghraifft, roedd rhai buddiolwyr wedi talu ymgynghorydd i ddatblygu'r cais ar eu cyfer – yn amlwg, ni allai Llywodraeth Cymru gynnig cefnogaeth ar y lefel honno.

4.18 Roedd cyfanswm o 73% o fuddiolwyr wedi cael cymorth gan ddarparwr i lywio drwy'r broses ymgeisio. Mewn cymhariaeth, dim ond 37% o'r rhai nad oeddent yn fuddiolwyr oedd wedi cyrchu cymorth a dim ond 15% oedd wedi talu am ymgynghorydd annibynnol (o gymharu â 38% o fuddiolwyr a oedd wedi talu am ymgynghorwyr annibynnol). Byddai hyn yn awgrymu bod y cymorth a roddir gan ddarparwyr allanol, yn enwedig ymgynghorwyr annibynnol, wedi cael effaith ar ansawdd y ceisiadau a, thrwy hynny, y prosiectau a oedd yn llwyddiannus:

> "Teimlaf fod gwgu wedi bod ar y ffaith i ni gwblhau'r cais ein hunain a pheidio defnyddio ymgynghorydd." (Arolwg i'r rheiny nad oeddent yn fuddiolwyr)

4.19 Yn wir, dywedodd 72% o fuddiolwyr fod y cymorth a gawsant gan ddarparwyr gwahanol i lywio drwy'r broses ymgeisio wedi bod yn 'ddefnyddiol iawn' a dywedodd 17% arall ei fod wedi bod yn 'ddefnyddiol' (ar draws pob ffynhonnell).

4.20 Soniwyd hefyd am ddylanwad ymgynghorwyr annibynnol gan y tîm cyflawni:

> "Roedd yr angen i'r Datganiad o Ddiddordeb fod yn gystadleuol a hynny'n golygu bod yna ddawn benodol ar gyfer ei gwblhau ac roedd gan rai asiantiaid y ddawn i wneud hynny. Nid prosiectau cryf o reidrwydd a sgoriai'n dda – ond yn hytrach y rhai a wyddai'r dechneg sut i gael sgoriau i'r cais oherwydd y broses sgorio." (Cyfweliad ag aelod o'r tîm cyflawni)

4.21 Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn y maes prosesu wyau sydd efallai yn esbonio lefel uchel y ceisiadau a'r gyfradd llwyddiant uchel yn yr is-sector hwnnw, gydag aelodau'r tîm cyflawni yn adrodd bod ymgynghorwyr yn annog ffermwyr i arallgyfeirio i brosesu wyau ac yn argymell cymorth yr FBIS fel ffordd o wneud hynny. Nododd y tîm cyflawni ymhellach fod mwyafrif y prosiectau wyau (ynghyd â phrosiectau arallgyfeirio eraill ffermydd) wedi elwa ar gymorth Cyswllt Ffermio, lle'r oedd cynghorwyr yn cefnogi datblygu eu ceisiadau. Nid oedd y cymorth hwn gan Cyswllt Ffermio ar gael i fusnesau bwyd a diod y tu allan i'r sector amaethyddol.

4.22 Oherwydd hyn, mae'r cynllun grant newydd wedi mynd ati'n wahanol o ran y model sgorio "er mwyn iddo ymwneud yn fwy â gwerth cymharol y prosiect ei hun, yn

hytrach na rhywfaint o naratif, i wneud yn siŵr bod pwyntiau'n cael eu sgorio oherwydd bod eich busnes yn cynnwys maes penodol" (yn ôl aelod o'r tîm cyflawni).

4.23 Y gwelliant posibl arall y soniodd aelodau'r tîm cyflawni amdano yw cynnig lefel gyson o gefnogaeth i'r holl ymgeiswyr i'w wneud mor hygyrch â phosibl, sicrhau chwarae teg, a dileu'r angen i gomisiynu ymgynghorwyr allanol. Awgrymodd un aelod o'r tîm cyflawni y dylai'r cynllun symleiddio'r broses a bod yn fodlon derbyn y bydd angen aberthu rhywfaint o graffu o ganlyniad.

**Arfarnu a dewis prosiectau**

4.24 Fel y nodwyd eisoes, un testun cynnen yw'r ddadl ynghylch y ffordd orau o sicrhau bod y buddsoddiadau yn strategol gadarn. Er bod y broses ymgeisio yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr nodi sut y byddent yn sicrhau buddion strategol o ran twf, manteision i'r gadwyn gyflenwi, cynaliadwyedd, a gwaith teg, nid oedd unrhyw fecanwaith ar gyfer monitro gwireddu'r uchelgeisiau hynny a sicrhau bod buddiolwyr wedi cyflawni'r hyn a nodwyd ganddynt yn y cais. Deallwn y bydd hyn yn newid yn y cynllun grant newydd, gydag ymgeiswyr yn gorfod arwyddo 'contract economaidd' cyn derbyn cyllid.

4.25 Teimlai un swyddog polisi yn Llywodraeth Cymru yn gryf y dylai cynlluniau yn y dyfodol fod yn fwy strategol ac wedi'u targedu at fathau penodol o fusnesau i gael cymorth i sicrhau bod y buddsoddiad yn cael ei optimeiddio i gyflawni eu nodau polisi, h.y. cefnogi'r rhai sydd yn y sefyllfa orau i sicrhau twf, cynaliadwyedd, a gwaith teg. Awgrymwyd na fu digon o gysylltu'n ôl ag amcanion polisi'r ddau gynllun grant hyn, a dyna pam mae'r cysyniad hwn o arwyddo 'contract economaidd' wedi'i ymgorffori yn y cynllun olynol. Cwestiynwyd maint y buddsoddi mewn is-sectorau megis micro-fragdai a chynhyrchwyr wyau, gyda'r swyddog yn galw am ddull mwy strategol o dargedu meysydd twf, yn hytrach na buddsoddi yn yr hyn sydd o bosibl yn farchnadoedd eisoes yn ddirlawn, ac sydd efallai mewn perygl o ddisodli gweithgaredd economaidd cynhyrchwyr eraill Cymru. Aeth y swyddog ymlaen i ddweud "mae angen i ni ganolbwyntio llawer mwy ar gefnogi enillwyr – nid lledaenu'r jam yn rhy denau yw'r ffordd ymlaen". Yn ôl y swyddog, un ffordd weddol syml o nodi busnesau sydd o ddifrif am dyfu yw targedu'r rhai sydd eisoes wedi ennill achrediadau, neu sy'n dyheu am gael rhai, ac y gellid ymgorffori hyn yn faen prawf cymhwysedd mewn cynlluniau cymorth yn y dyfodol. Wedi dweud hynny, byddai ein dadansoddiad proffil buddiolwyr yn awgrymu bod y cynlluniau yn gyffredinol wedi cefnogi busnesau sy'n cael eu hysgogi gan dwf ac sydd â chynllun

clir ar gyfer hynny, ac sydd yn aml eisoes wedi'u hachredu, gan alinio felly ag un o'r amcanion strategol allweddol.

4.26 Gwnaed dau bwynt arall ynghylch priodoldeb y busnesau a gefnogwyd ac, felly, effeithiolrwydd y dewis o brosiectau. Yn gyntaf, teimlai un aelod o'r tîm cyflawni fod gormod o fusnesau canolig a mawr wedi cael cymorth grant, gan gyfyngu ar y cyllid a oedd ar gael i eraill. Yn wir, mae ein dadansoddiad yn datgelu bod y busnesau hyn wedi sicrhau 56% o'r cyllid grant er mai dim ond 13% o'r holl fuddiolwyr oeddynt. Yn ogystal, un o amcanion polisi allweddol Llywodraeth Cymru yw cynyddu sylfaen cwmnïau canolig eu maint yn y sector drwy gefnogi microfusnesau a busnesau bach i gymryd y cam nesaf, sy'n awgrymu ymhellach nad yw dosbarthiad y cyllid grant wedi cadw at yr amcanion strategol hynny. Ar y naill law, mae'r defnydd cyfartalog uwch o gyllid grant gan fusnesau mawr i'w ddisgwyl, gan mai mater o raddfa yn unig ydyw. Fodd bynnag, mae hynny'n cyfyngu ar faint o gyllid sydd ar gael i fusnesau bach. Un ateb posibl fyddai lleihau terfyn uchaf y grant i sicrhau nad yw cyfran mor uchel o gyllid yn cael ei defnyddio gan y busnesau mwyaf.

4.27 Yn ail, tynnodd aelodau'r tîm cyflawni sylw at y ffaith bod y ceisiadau am brosiectau llai eu gwerth yn fwy tebygol o gael eu tynnu'n ôl o ganlyniad i'r oedi o ran amser a heriau eraill, gan ddangos eto bod angen trothwy isaf sy'n uwch.

**Cyfnodau amser cymeradwyo grant**

4.28 Er gwaethaf yr heriau y soniodd y tîm cyflawni amdanynt, roedd y rhan fwyaf o fuddiolwyr yn fodlon ar yr amserlenni ar gyfer cymeradwyo grantiau, gyda 29% yn dewis 'bodlon iawn' a 32% yn dewis 'bodlon'. Fodd bynnag, nododd 17% o'r buddiolwyr eu bod yn anfodlon ac mae'n amlwg o'r ymatebion ansoddol ei fod wedi achosi problem sylweddol i'r rhai yr effeithiwyd arnynt:

> "Fe gymerodd hi ormod o amser i gael y cyllid ac felly cynnydd mawr yng nghost yr offer rhwng y cais cychwynnol a phan gawsom y cyllid." (Arolwg i fuddiolwyr)

4.29 Pan ofynnwyd am welliannau i'r cynlluniau ar ddiwedd yr arolwg, cododd dau fuddiolwr y mater hwn:

> "Ar adeg gwneud y cais roedd y ffigyrau'n gywir. Fodd bynnag, oherwydd yr argyfwng costau byw a chwyddiant, mae'r ffigurau hyn wedi mynd yn hen a phrisiau popeth wedi cynyddu'n aruthrol a does dim darpariaeth ar gyfer hyn. Felly, os oes cynllun arall, dylid ystyried costau chwyddiant rhwng yr adeg

gwneud cais a chymeradwyo, gan ei fod yn cymryd cymaint o amser.” (Arolwg i fuddiolwyr)

4.30 Dywedodd aelodau’r tîm cyflawni fod heriau mewnol eraill hefyd wedi effeithio ar gyflymder y cymeradwyo, a hynny wedi gwaethygu’r heriau o ran adnoddau. Yn gyntaf, eglurwyd bod y system PPIMS yn achosi rhwystredigaeth i’r rhai sy’n gweinyddu’r cynllun yn ogystal â’r buddiolwyr ac wedi arafu’r ddarpariaeth. Yn ail, dywedodd cyfwelai arall nad oedd newidiadau i’r broses arfarnu wedi helpu’r sefyllfa, sef bod tri phanel ar wahân wedi’u ffurfio i brosesu’r ceisiadau – y panel buddsoddi, y panel is-fuddsoddi, a phanel caffael: “Roedd hi fel petai’n fater o fiwrocratiaeth er mwyn cael biwrocratiaeth a hyn eto wedi arafu’r broses gyfan […] bu’n rhaid i weinyddwyr fynd yn ôl a datrys ymholiadau.”

**Prosesau ymgysylltu a defnyddio’r cymorth**

4.31 Roedd yr elfen ymgysylltu â busnesau yn cynnwys yr ymgysylltu cychwynnol i wneud y diwydiant yn ymwybodol o’r cymorth yn ogystal â’r cyfathrebu â buddiolwyr yn ystod y prosesau ymgeisio a monitro.

**Yr ymgysylltu cychwynnol**

4.32 Ymddengys bod y cynlluniau wedi’u hyrwyddo'n dda, gyda phob ffenestr yn orlawn, ac ymddengys bod lefel dda o ymwybyddiaeth yn y sector. Yn wir, rhoddodd 59% o fuddiolwyr sgôr uchel pan ofynnwyd iddynt i ba raddau yr oeddent yn credu bod y cynlluniau’n adnabyddus ymhlith busnesau bwyd a diod.

4.33 Roedd dau brif lwybr ar gyfer hyrwyddo’r cynlluniau: yn gyntaf, drwy sianeli arferol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys gwefannau amrywiol (Is-adran Fwyd, Busnes Cymru, a gwefan Datblygu Gwledig) a chyhoeddiadau cysylltiedig, gan gynnwys cylchlythyr Gwlad gyda’i chylchrediad o tua 13,000, a chyhoeddiadau’r diwydiant manwerthu. Yn ail, rhoddwyd cyfarwyddyd i brosiectau cymorth eraill Llywodraeth Cymru megis Cywain ac Arloesi Bwyd Cymru i roi gwybod i’r cannoedd o fusnesau yr oeddent yn eu cefnogi. Teimlai un aelod o’r tîm cyflawni mai’r llwybr olaf hwn oedd y mwyaf effeithiol, gan fod staff mewn cynlluniau eraill eisoes yn deall anghenion y busnesau ac y gallent wneud yr atgyfeiriadau yn unol â hynny.

4.34 Adlewyrchir pwysigrwydd y ddau lwybr hynny yn yr ymatebion i’r arolwg, gyda 47 y % o fuddiolwyr yn dod yn ymwybodol o’r cymorth drwy wefannau Llywodraeth Cymru a chyhoeddiadau cysylltiedig, ac yna 25% yn cael eu cyfeirio gan brosiectau a chynlluniau eraill, tra bod 23% wedi dod i wybod drwy fod rhywun wedi dweud

wrthynt. Yn amlwg, swm cyfyngedig o gyllideb ac adnoddau oedd gan y cynlluniau ar gyfer rheoli ceisiadau; felly, ymddengys bod swm y diddordeb a ysgogwyd yn briodol ac yn awgrymu bod y dull marchnata wedi bod yn effeithiol. Rydym yn nodi, fodd bynnag, bod y ddibyniaeth ar gynlluniau eraill a sianeli arferol Llywodraeth Cymru (yn hytrach na dull marchnata ehangach) mewn perygl o gyrraedd busnesau sydd eisoes yn rhan o'r cynnig cymorth ehangach. Roedd 75% o'r buddiolwyr hefyd wedi cael cymorth gan ddarparwyr eraill yn y gorffennol (sef Cyswllt Ffermio, Cywain, Busnes Cymru, a Phrosiect Helix yn bennaf).

**Prosesau ymgysylltu, hawlio a monitro cyson**

4.35 Cadarnhaodd y tîm cyflawni mai ychydig iawn o gymorth oedd ar gael i fuddiolwyr yn dilyn y cam ymgeisio, a chadarnhawyd hyn yn yr arolwg i fuddiolwyr, lle dywedodd dim ond pedwar ymatebydd (6%) eu bod wedi cael unrhyw gymorth gan Lywodraeth Cymru. Roedd y gefnogaeth yn canolbwyntio ar ddehongli'r rheolau, cyngor, a "dim ond cael rhywun ar ochr arall y ffôn".

4.36 Er y gallai'r tîm busnes yn yr Is-adran Fwyd gynorthwyo buddiolwyr pe byddent yn cysylltu â hwy, roedd y broses yn cael ei rheoli gan Taliadau Gwledig Cymru (RPW), ac nid oedd gan hwnnw yr adnoddau i gefnogi'r busnesau. Rhoddwyd rhif atgyfeirio cwsmer i bob buddiolwr gan RPW i brosesu eu hawliad a gwneud ymholiadau ynghylch eu prosiect; fodd bynnag, roedd y diffyg cyfathrebu yn amlwg yn adborth y buddiolwyr:

> "Mae hi wedi bod yn anodd o ran popeth go iawn – mae llywio trwy system WEFO wedi bod yn dechnegol anodd a chawson ni ddim cefnogaeth gan WEFO (er i mi anfon e-bost atynt)." (Arolwg i fuddiolwyr)

4.37 Cymysg iawn oedd yr ymateb pan ofynnwyd i fuddiolwyr am y broses hawlio a monitro, gyda dim ond 54% yn dweud eu bod yn fodlon, 17% yn dweud eu bod yn anfodlon, a'r 29% arall yn dewis yr opsiwn niwtral. Gan ymhelaethu ar hyn, soniwyd am ystod eang o heriau, yn cynnwys problemau yn ymwneud ag amserlenni, e.e. oedi cyn derbyn taliad (naw ymateb, 14%), anawsterau gyda'r system TG (naw ymateb, 14%), diffyg eglurder ynghylch y wybodaeth sydd ei hangen (wyth ymateb, 13%), diffyg cymorth (saith ymateb, 11%), a'i fod yn rhy hir (pum ymateb, 8%). Mae hyn yn gyson â sylwadau blaenorol ar y system TG ac yn dangos pam y byddai'r cynlluniau wedi elwa'n fawr o gael mwy o adnoddau i gefnogi'r buddiolwyr drwy gydol y broses:

“Roedd y broses dalu wedi cymryd rhy hir. Cafodd y taliad terfynol ei ohirio a chroesi blynyddoedd ariannol, a hynny wedi effeithio ar ein mantolen a chael effaith negyddol ar ein statws credyd.” (Arolwg i fuddiolwyr)

4.38 Roedd problem benodol yn ymwneud â darparu gwybodaeth ychwanegol ar gyfer caffael, roedd yn rhaid ei ôl-ddyddio ac fe’i disgrifiwyd i fod yn “hynod feichus” gan y tîm cyflawni. Arweiniodd hyn at lawer o’r oedi:

“Treuliais oriau ac oriau yn cael gafael ar wybodaeth ac yn cyfiawnhau’r hyn yr oeddem wedi’i wneud. Roeddent eisiau tri dyfynbris o waith a wnaed chwe blynedd yn ôl.” (Arolwg i fuddiolwyr)

4.39 Soniodd aelodau’r tîm cyflawni fod angen i hyn fod yn gyflymach ac yn fwy effeithiol yn y dyfodol. Awgrymodd dau aelod o’r tîm y byddai’n fwy effeithiol i’r Is-adran Fwyd redeg y broses gyfan er mwyn ei gwneud yn fwy cyson. Fodd bynnag, ymddengys mai’r mater pennaf yw diffyg adnoddau, boed hynny yn yr Is-adran Fwyd neu yn RPW, ynghyd â phrosesau “beichus” (fel y’i disgrifiwyd gan nifer o fuddiolwyr).

#### Monitro cynnydd

4.40 Ni ymddengys fod system gynhwysfawr ar waith i fonitro cynnydd y prosiectau unigol na’r hyn a gyflawnwyd yn erbyn amcanion ehangach y cynlluniau. Cynhaliwyd ymweliadau i sicrhau bod y cyllid yn cael ei wario’n briodol; fodd bynnag, deallwn i’r rhain gael eu gohirio yn ystod y pandemig. Yn ôl y tîm cyflawni, bydd yr anallu hwn i ymweld â buddiolwyr a monitro eu cynnydd yn debygol o effeithio ar gyfran y cyllid a fydd wedi’i hawlio erbyn diwedd cyfnod y cynllun.

### Bodlonrwydd yn gyffredinol

4.41 Yn olaf, gofynnwyd i fuddiolwyr pa mor fodlon oeddynt yn gyffredinol â’u profiad o gael cymorth gan y cynlluniau grant. Er gwaethaf rhai o’r materion a drafodwyd yn y bennod hon, roedd yr ymateb yn gadarnhaol iawn, gyda 73% o ymatebwyr yr FBIS yn dweud eu bod wedi bod yn fodlon iawn neu’n fodlon (dewisodd 40% yr opsiwn mwyaf cadarnhaol) a 91% o ymatebwyr yr RBISF (10/11) yn adrodd yr un peth.

# 5. Prif ganfyddiadau am y canlyniadau a'r effeithiau

### Cyflwyniad

5.1 Prif nod y cynlluniau yn ôl yr ymgynghoriad cwmpasu oedd sicrhau effeithiau economaidd ac amgylcheddol drwy gael sector prosesu sy'n ehangu ac yn ffynnu, a hynny'n arwain at dwf a mwy o gynaliadwyedd yn y sector bwyd a diod yn ehangach.

5.2 O ran effeithiau amgylcheddol, roedd disgwyl i'r prosiectau a ddatblygwyd drwy'r cynlluniau hyn leihau taith bwyd drwy annog proseswyr i gael mwy o fewnbynnau gan gynhyrchwyr lleol, a thrwy gael mwy o effeithlonrwydd yn sgil y buddsoddiad cyfalaf newydd. Roedd disgwyl i offer a chyfleusterau newydd wella ôl troed carbon busnesau trwy leihau'r defnydd o ynni a dŵr, defnyddio ynni adnewyddadwy, lleihau gwastraff, neu ychwanegu gwerth at wastraff neu sgil-gynhyrchion.

5.3 O ran yr effeithiau economaidd, y nod oedd cynyddu allbwn proseswyr presennol drwy gael offer gwell, mwy arloesol a mwy modern iddynt, yn ogystal â gwell cyfleusterau a phrosesau. Bwriad hyn oedd cynhyrchu enillion economaidd cadarnhaol yn uniongyrchol i fuddiolwyr, tra ystyrid bod unrhyw gynnydd mewn allbwn hefyd yn ffordd o gynyddu'r galw am gyflenwyr lleol. Nod y cynlluniau yn ogystal oedd annog arallgyfeirio, gyda ffermwyr yn datblygu eu gallu prosesu eu hunain.

5.4 Mae'r gadwyn resymeg ar gyfer y canlyniadau y dyluniwyd y cynlluniau i esgor arnynt wedi'i nodi'n fanylach yn y Theori Newid sydd i'w gweld yn Atodiad F.

### Cyflawni yn erbyn targedau DPA

5.5 Dechreuwn ein hasesiad o'r canlyniadau a'r effeithiau drwy amlinellu'r hyn y mae'r cynlluniau wedi'i gyflawni hyd yma yn erbyn y dangosyddion perfformio allweddol (DPA) ffurfiol. Y peth cyntaf i'w nodi yw bod dyddiad cwblhau ariannol 17% (22/127) o brosiectau'r FBIS rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2023; felly, gallwn ddisgwyl cynnydd yn ffigurau cyflawni'r DPA ar ôl i'r holl brosiectau gael eu cwblhau.

5.6 Wedi dweud hynny, mae Tabl 5.1 yn dangos bod yr FBIS wedi bod yn llwyddiannus iawn, ar ôl cyflawni pedwar o'r pum targed DPA eisoes. Mae'r rhain yn canolbwyntio'n bennaf ar ganlyniadau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu effeithiau economaidd cadarnhaol, megis datblygu cynnyrch, creu swyddi, a chael mynediad i farchnadoedd newydd. Dengys y data fod yr FBIS wedi cael effaith arbennig o

arwyddocaol ar swyddi gros, gyda'r cymorth yn arwain at greu dros 1,000 o swyddi gros a diogelu mwy na 2,000 o rai eraill – mae cyflawni'r olaf bron i 2.5 gwaith yn fwy na'r targed, sydd o bosibl yn codi'r cwestiwn a oedd y targed gwreiddiol yn ddigon uchelgeisiol. Serch hynny, bydd y cyflawniadau hyn wedi cael effaith ar economi Cymru, fel yr archwilir yn fanylach maes o law yn y bennod hon wrth i ni drafod yr effeithiau net ychwanegol ar swyddi (h.y. drwy roi cyfrif am yr effeithiau a fyddai wedi digwydd beth bynnag).

**Tabl 5.1: Cyflawniadau'r FBIS yn erbyn targedau DPA**

| DPA | Targed | Cyfanswm a gyflawnwyd hyd yn hyn | % a gyflawnwyd |
|---|---|---|---|
| Nifer y gweithrediadau a gefnogwyd | 120 | 207 | 173% |
| Nifer y cynnyrch newydd | 375 | 597 | 159% |
| Nifer y swyddi a grëwyd | 1,129 | 1,184.8 | 105% |
| Nifer y swyddi a ddiogelwyd | 807.5 | 2,014 | 249% |
| Nifer y marchnadoedd newydd a gafwyd | 287 | 214 | 75% |

Ffynhonnell: Data cyflawni a thargedau DPA wedi'u darparu gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2023

5.7 Gwelir thema debyg yn nata cyflawni DPA yr RBISF, gyda'r cynllun yn rhagori o gryn dipyn ar ei dargedau ar gyfer swyddi a gafodd eu creu a'u diogelu. Wedi dweud hynny, mae yna gwestiwn ynghylch graddfa wreiddiol yr uchelgais o ran y targed ar gyfer swyddi a grëwyd. Sicrhaodd yr RBISF £3.5m o gyllid, felly mewn asesiad cost-effeithiolrwydd (cymharol amrwd) mae hyn yn cyfateb i £43,750 mewn gwariant fesul swydd gros a grëwyd. Roedd y ffigwr cyfatebol ar gyfer yr FBIS yn uwch fyth ar £53,144 mewn gwariant fesul swydd a grëwyd. Mae'r rhain yn ffigurau meincnod uchel (y gost gyfartalog ganolrifol fesul swydd a grëwyd ar gyfer rhaglen ERDF 2014 i 2020 oedd £27k) ac yn awgrymu y gallai targedau creu swyddi mwy uchelgeisiol fod wedi'u rhoi i'r rhaglen.

**Tabl 5.2: Cyflawniadau'r RBISF yn erbyn targedau DPA**

| DPA | Targed | Cyfanswm a gyflawnwyd hyd yn hyn | % a gyflawnwyd |
|---|---|---|---|
| Nifer y gweithrediadau a gefnogwyd | 80 | 80 | 100% |
| Nifer y swyddi a grëwyd | 80 | 246 | 308% |
| Nifer y swyddi a ddiogelwyd | 60 | 92.5 | 154% |
| Cyflogeion a gefnogwyd (menywod) | amherthnasol | 121 | amherthnasol |
| Cyflogeion a gefnogwyd (siaradwyr Cymraeg) | amherthnasol | 48.5 | amherthnasol |
| Cyflogeion a gefnogwyd (pobl ifanc) | amherthnasol | 36.25 | amherthnasol |


Ffynhonnell: Data cyflawni a thargedau DPA wedi'u darparu gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2023

**Gwelliant i'r prosesau**

5.8 Y canlyniad mwyaf uniongyrchol yn y Theori Newid yw bod proseswyr yn gwella eu galluoedd a bod yn fwy effeithlon drwy fod â gwell offer a chyfleusterau (gweler Atodiad F). Mae dadansoddi ymatebion yr arolwg i fuddiolwyr yn dangos bod hyn wedi'i gyflawni ar gyfer y rhan fwyaf o ymatebwyr. Yn wir, gellir gweld hyn mewn ymatebion i sawl cwestiwn yn yr arolwg i fuddiolwyr.

5.9 Mewn ymateb i gwestiwn caeedig a holai am y canlyniadau a nodwyd yn ein Theori Newid, dywedodd 65% o fusnesau (40/62) fod y buddsoddiad wedi gwella eu gallu drwy offer a chyfleusterau gwell, tra bod 53% (33/62) wedi cyfeirio at gynhyrchiant gwell naill ai drwy gynyddu allbwn neu leihau costau (gweler Ffigur 5.1 isod).

**Ffigur 5.1: Cyfran yr ymatebwyr a nododd ganlyniadau mewn ymateb i'r cwestiwn canlynol: 'A yw buddsoddiad yr FBIS/RBISF wedi arwain at unrhyw un o'r newidiadau neu fuddion canlynol i'ch busnes?'**




Ffynhonnell: yr arolwg i fuddiolwyr (n=62)

5.10 Gofynnwyd i fusnesau i ba raddau yr oeddent wedi cyflawni yn erbyn y prif resymau pam yr oeddent wedi mynd i chwilio am y cymorth yn y lle cyntaf (fel y nodir yn Ffigur 3.1 yn gynharach yn yr adroddiad). Nododd 49% o fusnesau (30/61) ddymuniad i gynyddu capasiti ac allbwn busnes i ateb y galw, tra nododd 26% (16/61) awydd i gynhyrchu arbedion effeithlonrwydd yn eu prosesau. Awgrymodd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr eu bod wedi cyflawni yn erbyn y ddau nod hyn. I'r rhai a nododd awydd i gynyddu capasiti busnes, rhoddodd 96% (27/28) bedwar neu bump allan o bump ar gyfer mwy o gapasiti; i'r rheiny a oedd yn ceisio sicrhau

arbedion effeithlonrwydd, rhoddodd 100% ohonynt sgôr uchel ar gyfer effeithlonrwydd.[17]

5.11 Mae tystiolaeth ansoddol helaeth yn yr arolwg mewn perthynas â'r gwelliannau hyn. Soniodd y buddiolwyr amlaf am gynnydd yn eu capasiti pan ofynnwyd iddynt gwestiwn penagored ar yr hyn yr oedd y cynlluniau wedi caniatáu iddynt ei gyflawni (soniwyd am hyn gan 41% o'r holl ymatebwyr). Yn ogystal, llwyddodd 25% i ehangu eu hadeiladau o ganlyniad i'r cymorth, tra soniodd 15% am arbedion effeithlonrwydd. Mae'r astudiaethau achos yn Atodiad I yn rhoi sawl enghraifft dda o'r gwelliannau i gapasiti cynhyrchu buddiolwyr, yn arbennig y cyfleuster gweithgynhyrchu hufen iâ pwrpasol a alluogodd Red Boat Ice Cream Parlour i gynyddu eu cynhyrchu yn sylweddol, yr estyniad i'r gegin fasnachol a weithredir gan Terry's Patisserie, a'r llinell gynhyrchu sleisio a phacio cig moch awtomataidd a gyflwynwyd ar gyfer The Welsh Sausage Company (a gynyddodd eu capasiti o 2.5 i 18 tunnell yr wythnos).

**Dadansoddiad gwrthffeithiol**

5.12 Mae sawl elfen i'n hasesiad o'r sefyllfa wrthffeithiol, wrth ddefnyddio tystiolaeth gan rai nad ydynt yn fuddiolwyr yn ogystal â chanfyddiadau'r buddiolwyr eu hunain. Er eu bod yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol, mae cyfyngiadau perthnasol y mae angen eu cydnabod yn yr amcangyfrifon o effeithiau economaidd y cynllun a gyflwynir yn yr adrannau dilynol.

5.13 Yn gyntaf, gofynnwyd i fuddiolwyr i ba raddau roedd y newidiadau a wnaed i'w busnes (fel yr adroddwyd uchod) wedi digwydd o ganlyniad i'r cymorth a gafwyd gan y cynlluniau grant. Mewn ymateb, dewisodd 41% '5 – i raddau helaeth', tra rhoddodd 33% arall sgôr o 4, sy'n dangos bod y mwyafrif helaeth (73% gyda'i gilydd) yn credu y gellid priodoli'r canlyniadau i'r cymorth.[18]

5.14 Yna fe wnaethom ofyn yn benodol ynghylch y buddsoddiad a wnaed a beth fyddai wedi digwydd pe na bai'r grant ar gael. Dim ond un ymatebwr (2%) a ddywedodd y byddent wedi gallu gwneud yn union yr un buddsoddiad ar union yr un pryd heb y cymorth, a dywedodd 29% fod yr effaith wedi bod yn gwbl ychwanegol ac na

---

[17] Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: 'Yn gynharach, mi wnaethoch chi ddweud eich bod eisiau cymorth gan yr FBIS/RBISF er mwyn [ailadroddwch eu cymhelliant]. Ar raddfa o 1 i 5, lle mae 1 yn 'ddim o gwbl' a 5 yn 'i raddau helaeth', i ba raddau ydych chi'n credu eich bod wedi cyflawni'r amcanion hynny?

[18] Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 2, mae hwn yn ganlyniad sydd wedi'i hunanbriodoli gan yr atebydd. Felly, dylid bod yn ofalus wrth adolygu'r canlyniadau hyn, oherwydd efallai na fyddent wedi gallu gwahanu effeithiau ffactorau eraill.

fyddent wedi gallu gwneud buddsoddiad o gwbl heb y cymorth. Nododd y rhan fwyaf o fusnesau effaith ychwanegedd rhannol,[19] gyda 54% yn awgrymu y byddent wedi gorfod aros yn hirach i wneud y buddsoddiad, a 35% yn dweud y byddent wedi gwneud buddsoddiad gwahanol neu lai o faint. Dengys hyn fod yr FBIS a'r RBISF wedi esgor ar effaith cyflymu a hwyluso buddsoddiadau oedd yn well neu'n fwy priodol. Mynegwyd rhai o'r teimladau hyn pan holwyd busnesau am rôl y cynlluniau grant yn eu cynlluniau twf:

> "Roedd cyllid yr FBIS yn hanfodol, gan mai dyma'r unig ffordd y gallem brynu'r offer cynhyrchu newydd hwn a chynyddu ein capasiti storio. Heb hyn ni allem dyfu'r busnes a chyflogi mwy o bobl." (Arolwg i fuddiolwyr)

> "Fydden ni ddim wedi gallu wedi ehangu'r safle i'r raddfa honno heb arian yr FBIS. Heb y cyllid byddem wedi ehangu'n llawer mwy graddol dros gyfnod hirach o amser gydag offer llai effeithlon a llai cynhyrchiol." (Arolwg i fuddiolwyr)

5.15 Gofynnwyd cwestiwn dilynol am y buddsoddiad cyffredinol a wnaed (gan gynnwys eu harian cyfatebol) a'r hyn y credent y byddent wedi'i fuddsoddi heb y cymorth. O'r 68 o ymatebwyr, roeddem wedi gallu cynhyrchu cyfrifiadau ar gyfer 52 ohonynt i amcangyfrif y swm cyfartalog a fyddai wedi'i fuddsoddi waeth beth fo'r cymorth a roddwyd. Yna tynnwyd y ffigur hwn o werth gwirioneddol y grant i gyfrifo'r cyfartaleddau a briodolir i'r cymorth yn ôl maint y grant. Gellir cael ffigur gros wedyn fesul bandiau maint y grant i'r boblogaeth gyfan i gynhyrchu amcangyfrif. Yn seiliedig ar y dull hwn a'r cyfrifiad hwn, rydym yn cynhyrchu amcangyfrif sy'n awgrymu bod yr FBIS wedi sicrhau ychydig dros £45m o fuddsoddiad na fyddai wedi digwydd pe na bai'r cynllun yn bodoli, tra bod yr RBISF wedi sicrhau ychydig dros £682k.

5.16 Holwyd ymhellach ynghylch gallu buddiolwyr i fuddsoddi yn yr offer newydd heb gymorth. Mewn ymateb, dywedodd 94% o fuddiolwyr (61/65) y byddai cyfyngiadau ariannol wedi eu hatal rhag gwneud y buddsoddiad heb gymorth grant. Pan ofynnwyd iddynt egluro, dywedodd buddiolwyr nad oedd ganddynt yr arian i wneud y buddsoddiad ar eu pen eu hunain (dywedodd 56% hyn) a nododd llawer nad oedd opsiynau benthyciad ar gael (25%). Roedd 38% o fuddiolwyr wedi chwilio am opsiynau cyllid eraill, benthyciadau banc yn bennaf; fodd bynnag, canfu 40%

[19] Ychwanegedd (additionality) yw'r graddau y mae gweithgaredd yn digwydd, naill ai o gwbl, ar raddfa fwy, yn gyflymach neu o fewn ardal neu grŵp targed dynodedig penodol, o ganlyniad i'r ymyrraeth.

(10/25) o'r buddiolwyr hyn nad oedd banciau'n fodlon rhoi benthyg iddynt, yn aml oherwydd maint y cyllid oedd ei angen, natur arloesol eu cynllun neu faint eu busnes presennol. Yn wir, dywedodd buddiolwyr yn gyffredinol eu bod wedi dewis y cynlluniau grant hyn oherwydd yr elfen nad oes angen ei ad-dalu a'r risg a deimlwyd sy'n gysylltiedig â chael benthyciadau:

> "Nid oedd banciau yn fodlon benthyg arian heb gyfraddau llog uchel ac ad-daliadau mawr a chael sicrwydd ein heiddo yn erbyn y benthyciadau." (Arolwg i fuddiolwyr)

5.17 Canfu'r arolwg hefyd mai dim ond 16% (10/63) o fuddiolwyr a oedd wedi cael cyllid i'w ad-dalu yn flaenorol. Yn unol â hynny, byddai hyn yn awgrymu ymhellach ei bod yn well gan yr ymgeiswyr gael cyllid cyhoeddus neu fod ei angen arnynt er mwyn i'r buddsoddiad fynd rhagddo.

5.18 Dywedodd hanner y rhai nad oeddent yn fuddiolwyr (26/52) nad oeddent wedi gallu gwneud unrhyw fuddsoddiad cyfalaf ers tynnu'n ôl neu fod yn aflwyddiannus gyda'u cais, tra mai dim ond chwarter (13/52) aeth ymlaen i brynu'r un eitemau cyfalaf yr oeddent wedi gobeithio defnyddio'r arian grant ar ei gyfer. Yn yr achosion hynny pan oeddent wedi gallu prynu'r un eitemau, esboniodd y rhan fwyaf (9/13) ei bod wedi cymryd mwy o amser iddynt wneud hynny. Gorfodwyd y chwarter arall i brynu eitemau gwahanol a rhai oedd yn gyffredinol yn llai drud (12/13) ac felly yn llai defnyddiol ac/neu'n llai effeithiol (10/13). Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson â'r senario gwrthffeithiol a gyflwynwyd gan fuddiolwyr.

5.19 Ymhellach, dim ond 18% o'r rhai nad oeddent yn fuddiolwyr a roddodd sgôr uchel pan ofynnwyd i ba raddau yr oeddent yn gallu cyflawni eu hamcanion heb y cymorth grant.[20] Y rhesymau am hyn gan amlaf oedd nad oeddent wedi gallu cynyddu cynhyrchiant fel y cynlluniwyd ac, o'r herwydd, roedd eu cynnydd yn arafach:

> "Byddem wedi cael gweithrediad prosesu mewnol, sy'n golygu y byddem wedi cael gallu ychwanegol ar y fferm. Heb y cyllid ni allem fforddio sefydlu'r broses hon ein hunain, felly nid oes dim wedi digwydd." (Arolwg i'r rheiny nad oeddent yn fuddiolwyr)

[20] Mewn ymateb i'r cwestiwn 'Gan feddwl am y rhesymau yr oeddech eisiau cyllid i fuddsoddi mewn eitemau cyfalaf, i ba raddau yr ydych wedi gallu cyflawni'r amcanion hynny heb y cymorth?', rhoddodd 56% sgôr o 1 (dim o gwbl) neu 2, rhoddodd 26% sgôr o 3, a rhoddodd 18% sgôr o 4 neu 5 (i raddau helaeth).

5.20 I grynhoi, awgryma'r data hyn fod y cymorth gan yr FBIS/RBISF wedi bod yn hynod effeithiol o ran ysgogi buddsoddiad na fyddai wedi digwydd fel arall, gan greu ychwanegedd cadarnhaol. Mae hyn yn gyson â sylwadau gan aelodau'r tîm cyflawni a esboniodd fod elfen benodol yn y broses arfarnu i asesu a oedd modd i'r prosiectau fwrw ymlaen heb arian grant. Awgryma'r dystiolaeth a gyflwynir uchod fod y broses werthuso yn effeithiol wrth leihau maint y buddsoddiadau a wnaed mewn busnesau a fyddai wedi cynnal gweithgarwch y prosiect beth bynnag.

**Twf busnes ac effaith economaidd**

5.21 Yn dilyn y prosesau gwell, mae ail ran y Theori Newid yn ystyried sut yr oedd y newidiadau a'r canlyniadau uniongyrchol hynny wedi trosi'n dwf busnes a chael effeithiau eraill.

5.22 Prif gymhelliant buddiolwyr wrth geisio cael cymorth oedd er mwyn tyfu neu gyflymu twf eu busnes, fel y dangosir yn Ffigur 3.1 yn gynharach yn yr adroddiad. Mae data'r arolwg yn dangos bod 60% o'r busnesau a nododd yr ysgogwyr hynny (27/45) wedi cyflawni'r uchelgeisiau hynny 'i raddau helaeth', tra bod 29% arall (13/45) wedi rhoi sgôr uchel. Ymhellach, mae'n ymddangos bod 90% (18/20) o'r rhai sy'n dyheu am fynd i farchnadoedd newydd wedi cyflawni eu hamcanion, ynghyd â'r holl fuddiolwyr a fynegodd fwriad i gyflenwi cwsmeriaid gwahanol/mwy o faint, e.e. archfarchnadoedd (17 o ymatebwyr), a thyfu marchnadoedd presennol (15 o ymatebwyr). Ceir nifer o enghreifftiau da o'r twf hwn yn yr astudiaethau achos yn Atodiad I. Er enghraifft, roedd Terry's Patisserie wedi gweld cynnydd pum gwaith yn fwy yn eu trosiant ers cael y cymorth ac maent wedi gallu ehangu eu marchnad ddaearyddol a maint yr allfeydd y maent yn eu cyflenwi o ganlyniad i'r cynnydd yn eu gallu cynhyrchu.

5.23 Canfu cwestiynau pellach ar hyn fod 60% o fuddiolwyr wedi gallu arallgyfeirio a mynd i mewn i farchnadoedd newydd, bod 57% wedi tyfu eu marchnadoedd presennol, a bod y cymorth wedi hwyluso datblygu cynnyrch ar gyfer 48% o'r buddiolwyr. Cefnogwyd datblygu cynnyrch newydd trwy alluogi'r busnesau i gael gofod pwrpasol i arbrofi â chynhyrchion newydd (e.e. gweler astudiaeth achos Terry's Patisserie).

5.24 Y brif effaith ar grŵp llai o fuddiolwyr (a nodwyd gan 18%) oedd sicrhau bod ganddynt fusnes cynaliadwy neu gefnogi olyniaeth eu busnes. Ceir sawl enghraifft o

fusnesau fferm yn defnyddio'r cymorth i ehangu eu potensial incwm er mwyn cynnal eu teulu wrth iddo dyfu (gweler astudiaeth achos Cerrigroes yn Atodiad I).

**Llwybrau i farchnad**

5.25 Un o'r ymatebion mwyaf cyffredin pan ofynnwyd iddynt am y newidiadau i'w busnes oedd y gallent bellach gyflenwi contractau mwy o faint (nodwyd hyn gan 10 o ymatebwyr):


> "Fe wnaethon ni brynu'r ffatri a symud i'r lefel gynhyrchu nesaf. Roedd hyn wedi rhoi modd i ni gael achrediad y BRC, a hynny yn ei dro yn ein galluogi i fynd at gwsmeriaid manwerthu mwy o faint sydd â disgwyliadau uchel iawn o ran achrediadau ac ansawdd y gwaith." (Arolwg i fuddiolwyr)

> "Mae popeth wedi newid. Rydym wedi symud ffatri eto ac erbyn hyn mae gennym 50,000 troedfedd sgwâr ac yn cyflogi 61 o bobl. Mae wedi newid yn anhygoel – mae wedi trawsnewid pethau'n llwyr." (Arolwg i fuddiolwyr)

5.26 Mae'r sylwadau hyn yn dangos maint yr effaith ar lawer o fuddiolwyr, gan fod y buddsoddiadau wedi cyflymu eu twf yn sylweddol. Mae hyn yn amlwg yn y data sydd ar gael ar gyflogaeth a gwerthiant, fel y dangoswn yn yr adrannau nesaf.

5.27 Ymhellach, mae'r newidiadau yn amlwg yn y cwestiynau ar lwybrau buddiolwyr i'r farchnad cyn ac ar ôl y cymorth (gweler Ffigur 5.2 trosodd). Mae hyn yn dangos bod mwy o fuddiolwyr wedi dewis bron bob llwybr i'r farchnad ar ôl cael y cymorth, sy'n dangos yr arallgyfeirio a'r llwyddiant wrth ymuno â marchnadoedd newydd. Yn benodol, ac yn gysylltiedig â'r sylwadau blaenorol, roedd y gyfran a nododd eu bod yn cyflenwi manwerthwyr a chyfanwerthwyr cenedlaethol wedi cynyddu 50% (o 42% i 63%), tra dyblodd y gyfran allforio o wyth i 16%.

**Ffigur 5.2: Newidiadau i lwybrau buddiolwyr at y farchnad**




Ffynhonnell: yr arolwg i fuddiolwyr (n=64 yn gyfan gwbl, n=52 FBIS, ac n=11 RBISF)

**Effaith ar gyflogaeth**

5.28 Roedd yr arolwg i fuddiolwyr yn cynnwys adran fanwl yn archwilio twf busnes mewn perthynas â throsiant a chyflogaeth cyfwerth ag amser llawn (FTE), ynghyd â data arall a ddefnyddiwyd i fod yn sail i asesiad o'r effaith economaidd (AEA). Er bod Tablau 5.1 a 5.2 yn rhoi'r ffigurau ffurfiol ar gyfer swyddi uniongyrchol a grëwyd fel y'u cofnodwyd yn fewnol gan y prosiect (yn unol â'u cytundebau cytundebol), aethom ati i gynnal dadansoddiad ar wahân i archwilio'r effaith ar swyddi FTE drwy'r data a gasglwyd gan y gwerthusiad allanol. Roedd hyn wedi ein galluogi i ddilysu'r ffigurau mewnol, ar yr un pryd â chynnal archwiliad manylach o'r effaith wrthffeithiol.

5.29 Roedd y rhan fwyaf o fuddiolwyr y ddau gynllun wedi cynyddu eu gweithlu (ar sail FTE) ers derbyn y cymorth (76% i'r FBIS a 91% i'r RBISF), gydag ychydig iawn yn nodi gostyngiad (16% ar gyfer yr FBIS a 9% ar gyfer yr RBISF) dros y cyfnodau amser yr adroddwyd amdanynt.

5.30 O ran priodoli'r newidiadau hyn, gofynnwyd wedyn i fusnesau am effaith y cynlluniau ar lefel eu cyflogaeth, gyda 48% yn dweud y byddai ganddynt lai o weithwyr heb ymyrraeth yr FBIS a 55% yn adrodd yr un peth ar gyfer yr RBISF. Dywedodd eraill gan mwyaf nad oedd unrhyw effaith neu nid oeddent yn gwybod.

5.31 Ar gyfartaledd, amcangyfrifodd buddiolwyr yr FBIS y byddai ganddynt 8.6 yn llai o gyflogeion pe na bai cymorth yr FBIS ar gael, a'r ffigur hwn yn 2.7 ar gyfer yr RBISF. Trwy gyfrifo cyfartaledd yn seiliedig ar faint y busnesau a'i gynyddu yn gymesur â'r holl fusnesau a gefnogwyd,[21] gallwn amcangyfrif bod yr FBIS wedi creu neu ddiogelu cyfanswm o 761 o swyddi FTE (effaith net, h.y. ar ôl rhoi cyfrif am ddifuddiant[22]), sy'n cyfateb i tua £51,900 mewn buddsoddiad grant ar gyfer pob swydd FTE a grëwyd neu a ddiogelwyd. Gan ddefnyddio'r un dull, amcangyfrifwn fod yr RBISF wedi creu neu ddiogelu 65 o swyddi FTE (net), sy'n cyfateb i ganlyniad swydd FTE am bob £12,425 o arian grant a wariwyd. Rydym yn nodi bod amcangyfrif yr FBIS rywfaint yn is na'r data DPA ffurfiol ar swyddi a grëwyd, a honnodd ychydig o dan 1,200. Gallai'r canfyddiadau hyn felly herio dilysrwydd y dystiolaeth canlyniad swyddi a gynhyrchwyd drwy weithgarwch monitro'r cynlluniau, yn ogystal â chodi amheuaeth ynghylch cywirdeb y ffigurau uchel iawn ar gyfer swyddi a ddiogelwyd. Yn yr un modd, mae hefyd yn adlewyrchu'r gwahaniaeth yn y ffigurau a adroddwyd, gyda'r data DPA yn cyfeirio at amcangyfrifon swyddi uniongyrchol gros, tra bod y ffigurau hyn yn ymwneud ag effeithiau swyddi FTE net ar ôl cyfrif am ddifuddiant.

5.32 Dull arall o asesu'r effaith net ar gyflogaeth yw drwy fynd ati i gymharu'r cynnydd gwirioneddol yn y grŵp ymyrraeth (h.y. buddiolwyr yr FBIS[23]) â grŵp cymharu (h.y. y rhai nad ydynt yn fuddiolwyr a wnaeth gais am gymorth yr FBIS), gan gydnabod y cyfyngiadau o ran cymharu'r cyfryw grwpiau yma. Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos twf yn y grŵp cymharu hefyd, er ar gyfradd lawer is – dim ond 39% o'r rhai nad oeddent yn fuddiolwyr yr FBIS oedd wedi tyfu (o'i gymharu â 76% o'r buddiolwyr) ar gyfartaledd o 1.7 o weithwyr ychwanegol fesul busnes (yn erbyn cynnydd cyfartalog o 8.9 ar gyfer buddiolwyr). Os ydym yn cymhwyso'r gwahaniaeth yn y cyfartaleddau i'r sampl cyfan, byddai hyn yn awgrymu bod yr FBIS wedi creu

[21] Er bod mesur maint busnesau yn helpu i reoli dylanwad cwmnïau mwy o faint, dylid gochel y dehongliadau hunangofnodedig o swyddi a ddiogelir gan unigolion wrth iddynt edrych yn ôl.
[22] Y 'difuddiant' (deadweight) yw cyfran y canlyniadau a fyddai wedi digwydd beth bynnag heb y cymorth.
[23] Nid ydym wedi cynnwys ymatebwyr yr RBISF yn y dadansoddiad hwn oherwydd bod y sampl o bum ymatebwr yn rhy fach.

cyfanswm o 861 o swyddi FTE net. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad wedi'i gyfyngu gan y ffaith nad yw'n rheoli ar gyfer ffactorau eraill o fewn y ddau sampl (e.e. maint busnesau a llwybrau twf cyn cyrchu'r cymorth yn ogystal â gwahaniaethau posibl eraill rhwng y grwpiau). Byddai hyn yn gofyn am ddadansoddiad paru sgorau tueddiad (PSM)[24] i gael asesiad mwy cadarn. Wedi dweud hynny, mae'n darparu rhywfaint o dystiolaeth awgrymiadol bellach o'r effaith ychwanegol net a gynhyrchir gan y cynllun ac, yn seiliedig ar y ddau ddadansoddiad gwahanol ynghyd â data'r DPA, gallwn amcangyfrif bod yr FBIS wedi creu neu ddiogelu o leiaf 761 o swyddi FTE (effaith net). Ymddengys fod cyfran sylweddol o'r effeithiau ar swyddi, yn enwedig wrth edrych ar y data DPA, yn ymwneud â diogelu, sydd efallai'n adlewyrchu'r amodau economaidd cyffredinol yng nghyfnod olaf y rhaglen, gyda'r pandemig yn dylanwadu'n fawr ar gynlluniau cyflogaeth busnesau.

5.33 Ynghyd â dadansoddi'r twf a gofnodwyd mewn cyflogaeth uniongyrchol, roedd yr arolwg hefyd yn cynnwys rhai cwestiynau ynghylch ansawdd y cyfleoedd cyflogaeth a ddarparwyd. Datgelwyd fod cyfran uwch o staff wedi cael y Cyflog Byw Gwirioneddol yn dilyn y cymorth mewn 29% o fusnesau buddiolwyr yr FBIS (10/34) a 55% o rai'r RBISF (6/11), gyda chynnydd o 41% yn cael y Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfartaledd cyn y cymorth i 57% wedyn.[25] Er na allwn briodoli'r newid hwn yn uniongyrchol i'r cynllun, gallwn dybio bod y twf a gafodd busnesau wedi cael rhywfaint o effaith wrth drosi i'r cyfraddau cyflog gwell a ddisgrifir yma. Ychydig o dystiolaeth sydd o unrhyw effeithiau ar ddiogelu swyddi. Holwyd ynghylch cyfran y gweithwyr a gyflogir ar gontractau dim oriau; fodd bynnag, dywedodd 92% o'r buddiolwyr (55/60) nad oedd ganddynt unrhyw weithwyr contract o'r fath ar y cychwyn. O'r herwydd, roedd y newid a adroddwyd ar ôl y cymorth yn fach iawn.

**Effaith ar drosiant**

5.34 Mae dadansoddi data trosiant yn rhoi tystiolaeth gref o'r twf a gynhyrchwyd gan gymorth cynllun yr FBIS yn benodol. Mae ein dadansoddiad yn dangos bod 89% o fuddiolwyr yr FBIS (40/45) wedi cynyddu eu trosiant ers derbyn y cymorth grant, tra bod 80% o fuddiolwyr yr RBISF hefyd wedi nodi cynnydd (gweler Tabl 5.3 drosodd).


---

[24] Mae paru sgorau tueddiad (propensity score matching) yn ddull lled-arbrofol lle mae'r ymchwilydd yn defnyddio technegau ystadegol i adeiladu grŵp rheoli artiffisial trwy baru pob uned sydd wedi bod yn rhan o'r cynllun ag uned heb gysylltiad sydd â nodweddion tebyg.

[25] Sylwer bod meintiau'r sampl yn llai yma oherwydd nid oedd yr holl ymatebwyr yn gallu neu'n fodlon darparu gwybodaeth am gyflogau staff.

5.35 Yna gofynnwyd i fuddiolwyr amcangyfrif cyfran eu trosiant diweddaraf, ar ôl eithrio'r incwm a gynhyrchwyd o'r grant ei hun, sef trosiant a gynhyrchwyd o ganlyniad i'r cymorth. Roedd lefelau priodoli'n amrywio, fel y gwelir yn Ffigur 5.3, er bod ychydig dros hanner buddiolwyr yr FBIS (21/41) wedi amcangyfrif y gellid priodoli o leiaf chwarter eu trosiant i'r cymorth.

**Ffigur 5.3: Cyfran y trosiant diweddaraf y gellir ei briodoli i'r cymorth grant**




Ffynhonnell: yr arolwg i fuddiolwyr (n=53 yn gyfan gwbl, n=41 FBIS, ac n=10 RBISF)

5.36 Drwy gymhwyso'r canrannau hyn i drosiant pob busnes, amcangyfrifwn, ar gyfartaledd, fod buddiolwyr yr FBIS yn credu bod eu trosiant wedi bod tua £2.58m yn uwch o ganlyniad i'r cymorth. Gan wneud addasiadau ar gyfer effeithiau parhaus, o gofio bod rhai busnesau wedi derbyn eu grant o'r ymyrraeth bron i saith mlynedd cyn gwaith maes y gwerthusiad (gweler Pennod 2 ar y fethodoleg), gallwn newid maint y cyfartaleddau yn ôl segment maint y grant i'w cael i fod yn gymesur â'r boblogaeth gyfan (gweler Tabl 5.3 isod). Ar draws y 119 o fuddiolwyr, rydym yn amcangyfrif bod yr FBIS yn gyfrifol am gynnydd o tua £272m mewn trosiant ar gyfer buddiolwyr. Mae'r un dadansoddiad ar gyfer yr RBISF yn cynhyrchu amcangyfrif o tua £3.5m mewn trosiant, er y byddem yn cymryd gofal oherwydd maint bach y sampl. Wrth gwrs, rhaid cydnabod cyfyngiadau defnyddio dull fel hwn.


**Tabl 5.3: Priodoli trosiant**

| | FBIS | | RBISF | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Maint y grant ar adeg y cais** | **Trosiant cyfartalog a briodolir i'r cymorth** | **Gros** | **Trosiant cyfartalog a briodolir i'r cymorth** | **Gros** | |
| Hyd at £20k | £8,583 | £120,167 | £50,130 | £350,910 | £471,077 |
| £20–50k | £121,750 | £1,948,000 | £106,103 | £1,909,845 | £3,857,845 |
| £50–100k | £3,903,333 | £101,486,667 | £618,750 | £1,237,500 | £102,724,167 |
| £100–500k | £1,740,377 | £78,316,945 | amherthnasol | | £78,316,945 |
| £500k–£1m | £515,000 | £4,120,000 | amherthnasol | | £4,120,000 |
| Mwy na £1m | £8,586,157 | £85,861,569 | amherthnasol | £489,500 | £85,861,569 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad yn seiliedig ar ddata o'r arolwg i fuddiolwyr (n=48 yn gyfan gwbl, n=38 FBIS, ac n=8 RBISF)

5.37 Dengys Ffigur 5.4 mai amrywio'n sylweddol y mae canran y trosiant y priodola buddiolwyr i'r cymorth a dderbyniwyd, gyda'r pedwar busnes yn adrodd y lefel uchaf o drosiant y gellir ei briodoli i'r cymorth grant (pob un yn adrodd mwy na £10m) a hynny'n gyfrifol am 75% o'r effaith trosiant a adroddwyd gan y sampl.

**Ffigur 5.4: Trosiant y gellir ei briodoli i'r cymorth grant**




Ffynhonnell: ymatebwyr yr arolwg i fuddiolwyr sydd wedi'u cynnwys yn yr AEA (n=53 yn gyfan gwbl)

5.38 Cynhaliom ddadansoddiad adenillion ar fuddsoddiad (ROI) syml i ddangos effeithiau posibl buddsoddiadau'r FBIS a'r RBISF wrth hefyd ystyried yr arian cyfatebol angenrheidiol. Yr adenillion ar fuddsoddiad cyffredinol yn y trosiant ychwanegol a briodolwyd i'r cynlluniau yw £148m ar gyfer yr FBIS, ac £1.8m ar gyfer yr RBISF.

5.39 Mae segmentu'r dadansoddiad hwn fesul is-sector (wyau, llaeth, cig ac alcohol) yn rhoi rhywfaint o ddealltwriaeth ddangosol ychwanegol i'r rhannau lle cafwyd yr enillion mwyaf, er y dylid trin y canfyddiadau'n ofalus, o ystyried maint y sampl (gweler Tabl 5.4 isod). Awgryma'r dadansoddiad fod y prosiectau llaeth wedi cynhyrchu adenillion arbennig o dda ar fuddsoddiad, wedi'i ddilyn gan brosiectau cig. Yn ogystal, er gwaethaf rhai o'r amheuon ynghylch nifer y prosiectau a gefnogai'r sector wyau, cofnodwyd adenillion da ar fuddsoddiad ynddynt, er ei fod yn is na'r cyfartaledd, tra bod prosiectau yn yr is-sector alcohol wedi cofnodi adenillion llawer is ar fuddsoddiad. Mae'n bosibl bod y gwahaniaethau hyn yn cefnogi'r cysyniad o dargedu buddsoddiad yn ôl is-sector blaenoriaeth.

**Tabl 5.4 Cynnydd mewn trosiant ac ROI cyfartalog (am bob punt sterling a wariwyd) yn ôl is-sector**

| | Nifer yr ymatebion | Trosiant yn cael ei briodoli ar gyfartaledd | ROI cyfartalog fesul punt sterling a wariwyd |
|---|---|---|---|
| Wyau | 12 | £398,152 | 3.63 |
| Llaeth | 10 | £4,582,192 | 5.27 |
| Cig | 7 | £2,307,721 | 3.78 |
| Alcohol | 5 | £272,000 | 1.19 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad yn seiliedig ar ddata o'r arolwg i fuddiolwyr

5.40 Er bod meintiau'r samplau'n fach, mae'r dadansoddiad yn ôl maint y busnes yn dangos bod buddsoddi mewn busnesau llai o faint wedi creu adenillion gwell ar fuddsoddiad (fodd bynnag, nid yw'r gwahaniaethau rhwng canlyniadau yn ystadegol arwyddocaol). Mae hwn yn bwynt allweddol sy'n cyd-fynd â phrif flaenoriaeth Llywodraeth Cymru o gefnogi'r busnesau llai yn y sector bwyd a diod iddynt drosglwyddo yn fusnesau mwy o faint, er ein bod unwaith eto'n nodi'n ofalus oherwydd meintiau bach y samplau.

**Tabl 5.5: Cynnydd mewn trosiant ac ROI cyfartalog yn ôl maint busnes**

| | Nifer yr ymatebion | Trosiant yn cael ei briodoli ar gyfartaledd | ROI cyfartalog fesul punt sterling a wariwyd |
|---|---|---|---|
| Micro | 34 | £710,581.74 | £8.81 |
| Bach | 9 | £1,770,433.33 | £7.24 |
| Canolig | 8 | £8,465,058.85 | £5.80 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad yn seiliedig ar ddata o'r arolwg i fuddiolwyr

5.41 Yn yr holl ddadansoddiadau ar yr is-sampl hwn, mae'r meintiau sampl isel yn gosod cyfyngiadau sylweddol ar gadernid yr amcangyfrifon a gynhyrchwyd. Am y rheswm hwn, dylid bod yn ofalus wrth drin y ffigurau hyn a dylent roi syniad yn unig o'r prif garfannau sy'n elwa o'r cymorth.

5.42 Yn olaf, defnyddiom hefyd ddata am y rheiny nad ydynt yn fuddiolwyr i archwilio ymhellach effeithiau'r FBIS, er mai dim ond ar gyfer 22 o ymatebwyr yr oedd data trosiant ar gael, gan gyfyngu ymhellach ar gryfder y sampl. Nid yw ffactorau amseru wedi'u hystyried ychwaith ond byddent yn debygol o effeithio ar y canlyniadau pe bai peidio â chael grant yn gohirio buddsoddiad, gan greu gwahaniaeth arall rhyngddynt a'r buddiolwyr. Fodd bynnag, yn ddangosol, mae cymharu â'r sampl nad ydynt yn fuddiolwyr yn awgrymu bod twf wedi'i gynhyrchu gan y cynllun, gan ddatgelu bod y busnesau hynny nad oedd wedi derbyn grant wedi cael twf llawer mwy cymedrol (o £887k ar gyfartaledd o gymharu ag ychydig o dan £5m ar gyfer buddiolwyr). O gymhwyso'r gwahaniaeth yn y cyfartaleddau i'r sampl cyfan, byddai

hyn yn awgrymu bod yr FBIS wedi cynhyrchu dros £482m mewn twf economaidd i fusnesau (er bod cyfyngiadau mewn cyfrifiadau o'r fath).

**Potensial i'r dyfodol**

5.43 Mae'r amcangyfrifon a ddarperir uchod ond yn seiliedig ar yr effaith a gyflawnwyd hyd yma. Wrth ystyried bod 35% o'r prosiectau yn dal yn weithredol yn swyddogol (ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn), mae'n amlwg bod posibilrwydd cryf o effaith gudd y tu hwnt i'r gwerthusiad hwn a hyd yn oed y tu hwnt i ddiwedd y cynllun ei hun. Mae'n debygol y bydd effaith bosibl yn y dyfodol gan fusnesau sydd eisoes wedi cwblhau eu prosiectau hefyd, er y bydd rhywfaint o adael cyn gorffen dros amser. Yn unol â hynny, aethom ati i brofi'r potensial ar gyfer y dyfodol, a hyn wedi datgelu fod dwy ran o dair o fuddiolwyr yr FBIS (34/51) wedi disgwyl i gymorth y cynllun gael effaith ar eu twf (trosiant a chyflogaeth) dros y flwyddyn nesaf. Roedd llawer llai o fuddiolwyr yr RBISF yn disgwyl hyn (dim ond 2/11), sydd ddim yn syndod o ystyried bod y cynllun wedi gorffen yn gynt na'r FBIS.

5.44 Roedd 31% o ymatebwyr yr FBIS (16/51) wedi disgwyl i'w cyflogaeth gynyddu dros y flwyddyn nesaf, gyda phob ymatebwr yn rhoi ffigur o faint o swyddi newydd yr oeddent yn disgwyl eu creu. Roedd pob un namyn un wedi priodoli o leiaf rhywfaint o'r twf disgwyliedig mewn cyflogaeth i effaith cymorth yr FBIS (a roddir fel canrannau). Yn seiliedig ar y rhagamcanion hyn, fel cyfrifiad sylfaenol, pe baem yn tybio bod y sampl yn gynrychioliadol o'r grŵp buddiolwyr ehangach, gallai cynyddu'r canlyniadau hyn i fod yn gymesur â'r boblogaeth gyfan yn ôl maint y busnesau awgrymu y gallai'r FBIS o bosibl arwain at greu 83 o swyddi pellach dros y 12 mis nesaf. Rhagamcanion wedi'u hunanbriodoli ar gyfer y dyfodol yw'r rhain ac, felly, dylid bod yn ofalus iawn gyda'r niferoedd hyn.

5.45 Roedd buddiolwyr hyd yn oed yn fwy hyderus ynghylch eu rhagamcanion trosiant, gyda 49% (25/51) yn disgwyl cynnydd dros y flwyddyn nesaf, gan unwaith eto roi gwerth i'r hyn a ddisgwylid. Priodolodd y rhan fwyaf o fuddiolwyr (18/20) o leiaf rywfaint o'r cynnydd hwn i gymorth yr FBIS gan roi amcangyfrif canrannol. Yn seiliedig ar y rhagamcanion trosiant hyn a'r hyn a briodolwyd gan fuddiolwyr, mae ein hamcangyfrifon sylfaenol yn awgrymu y gallai fod gan yr FBIS y potensial i gynhyrchu tua £88m mewn trosiant uwch dros y flwyddyn nesaf. Byddem yn rhybuddio, fodd bynnag, bod yr amcangyfrifon hyn yn ddamcaniaethol ac yn agored

i ragfarn optimistiaeth,[26] felly dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r canlyniadau hyn. Serch hynny, mae'n anochel y bydd mwy o effaith ar drosiant busnesau i'r dyfodol.

**Mapio'r gadwyn gyflenwi**

5.46 Rhan o'r uchelgais y tu ôl i'r cynllun oedd cadw mwy o werth y gadwyn gyflenwi yng Nghymru drwy gymryd cyfran o'r farchnad oddi wrth gyflenwyr nad ydynt yn dod o Gymru. Dengys yr arolwg rywfaint o dystiolaeth o hyn yn digwydd, er ar raddfa gyfyngedig. Yn gyntaf, dywedodd 19% (12/62) o fuddiolwyr fod y cymorth wedi arwain at gwtogi ar eu cadwyn gyflenwi drwy brynu mwy o ddeunyddiau crai gan gynhyrchwyr lleol, tra bod nifer fach o fusnesau fferm (7% o'r sampl [4/62]) wedi dweud ei fod wedi lleihau faint o brosesu a wneir ar eu cynhyrchion y tu allan i Gymru.

5.47 Yna aethom ati i fapio dosbarthiad daearyddol gwariant cadwyn gyflenwi'r buddiolwyr drwy ofyn pa gyfran o'u pryniant oedd wedi digwydd yng Nghymru ac mewn ardaloedd daearyddol eraill nawr a chyn cael iddynt gael y cymorth.[27] Mae hyn yn dangos rhywfaint o wahaniaeth wrth i fusnesau, ar gyfartaledd, brynu cyfran uwch o Gymru yn dilyn y cymorth, gan gymryd oddi ar rywfaint o'r gweithgaredd o rywle arall yn y DU ac, efallai nad yw'n syndod, o'r UE.

**Tabl 5.6: Newid i ddosbarthiad daearyddol y gwariant ar gadwyni cyflenwi[28]**

| | Yng Nghymru | Rywle arall yn y DU | Yn yr UE | Y tu allan i'r UE |
|---|---|---|---|---|
| Nawr | 52.4% | 37.7% | 6.7% | 3.2% |
| Cyn y cymorth | 47.1% | 40.9% | 10.1% | 1.9% |
| Y gwahaniaeth | 5.4% | -3.2% | -3.4% | 1.3% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad yn seiliedig ar ddata o'r arolwg i fuddiolwyr (n=53)

5.48 Dywedodd 21% o'r ymatebwyr (11/53) fod cyfran uwch o'u gwariant wedi'i gwneud yng Nghymru yn dilyn y cymorth, nododd 11% (6/53) lefel is, tra bod y mwyafrif (68% neu 36/53) yn adrodd yr un lefel. Aethom ati wedyn i ofyn i ba raddau roedd y gwahaniaethau o ganlyniad i'r cymorth a dderbyniwyd drwy'r FBIS a'r RBISF. O'r rhai a ddywedodd fod mwy o weithgarwch yn y gadwyn gyflenwi yng Nghymru, teimlai 45% (5/11) fod y cynlluniau wedi cael rhywfaint o effaith ar hyn. Nodwn fod y niferoedd isel a adroddir yma yn dangos mai effaith gyfyngedig a gafodd y

[26] Mae hyn yn cyfeirio at y duedd i oramcangyfrif y tebygolrwydd o ddigwyddiadau cadarnhaol a thanamcangyfrif y tebygolrwydd o ddigwyddiadau negyddol.
[27] Sylwer i hyn gael ei archwilio trwy gyfres wahanol o gwestiynau oedd â chyfradd ymateb is.
[28] Mae'r dadansoddiad yn y tabl hwn yn seiliedig ar gyfran cyfartalog y gwariant ar gadwyn gyflenwi a adroddwyd gan fuddiolwyr ym mhob ardal ddaearyddol. Nid yw'n seiliedig ar gyfanswm gwariant ym mhob ardal oherwydd cyfyngiadau yn y data sydd ar gael ar gyfer y dadansoddiad.

cynlluniau ar greu cadwyni cyflenwi byrrach, sydd, gyda llaw, yn gyson â chanfyddiadau'r tîm cyflawni.

5.49 Gofynnwyd yr un gyfres o gwestiynau am ddosbarthiad daearyddol gwerthiannau buddiolwyr. Yn yr achos hwn, roedd gennym fwy o ddiddordeb mewn gweld a yw buddiolwyr wedi gallu ehangu eu marchnadoedd y tu hwnt i Gymru – byddai disgwyl i hyn gefnogi adenillion o'r cynlluniau ar lefel Cymru gan y byddent yn llai tebygol o ddisodli cyfran y farchnad o gystadleuwyr Cymru. Mae'r data'n dangos, yn gyffredinol, y cafwyd cynnydd yng nghyfran y gwerthiannau o'r tu allan i Gymru ac mae hyn yn seiliedig yn bennaf ar gynnydd mewn gwerthiannau i weddill y DU. Yn wir, mae enghreifftiau da o hyn yn yr astudiaethau achos, e.e. cynhyrchodd Terry's Patisserie 40% o'u gwerthiannau drwy gwsmeriaid yng ngweddill y DU yn dilyn y cymorth, ar ôl bod yn gwbl ddibynnol ar y farchnad Gymreig cyn hynny, tra bod cyfran y gwerthiannau o weddill y DU wedi cynyddu o 30 i 85% ar gyfer The Welsh Sausage Company.

**Tabl 5.7: Newid i ddosbarthiad daearyddol gwerthiannau buddiolwyr**

| | Yng Nghymru | Rywle arall yn y DU | Yn yr UE | Y tu allan i'r UE |
|---|---|---|---|---|
| Nawr | 54.9% | 40.6% | 3.6% | 1.0% |
| Cyn y cymorth | 57.7% | 34.7% | 5.4% | 2.2% |
| Gwahaniaeth | -2.8% | 5.9% | -1.9% | -1.2% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad yn seiliedig ar ddata o'r arolwg i fuddiolwyr (n=54)

5.50 Yn gyfan gwbl, nododd 33% o fuddiolwyr (18/54) gyfran uwch o werthiannau o'r tu allan i Gymru o gymharu â chyn y cymorth, a dim ond 13% (7/54) a nododd gyfran is. Yn yr achosion pan adroddwyd cynnydd, dywedodd 61% (11/18) fod hyn oherwydd dylanwad uniongyrchol y cymorth a gafwyd. Yn sgil hynny, ymddengys bod yr effaith ar leoliad daearyddol y marchnadoedd y ceir mynediad iddynt yn llawer mwy arwyddocaol na'r effaith ar wariant yn y gadwyn gyflenwi.

### Asesiad o effaith economaidd

5.51 Mae ein hasesiad o'r effaith economaidd yn seiliedig ar y cynnydd mewn trosiant a adroddwyd gan fuddiolwyr ac yna cymhwyso'r pum ffactor ychwaneged y dylid eu hystyried ar gyfer asesiadau o'r fath, fel y nodir yng nghanllawiau Llywodraeth y DU.[29] Rydym am gyflwyno darlun ac asesiad bras o rai o'r ffactorau hyn yma, gydag amcangyfrifon yn amodol ar rai cyfyngiadau pwysig a sensitifrwydd rhagdybiaethau

[29] Y Llyfr Gwyrdd, Trysorlys EF, 2022.

– dylid ystyried casglu data ychwanegol er mwyn gwella'r sail ar gyfer amcangyfrif effeithiau mewn unrhyw gynlluniau yn y dyfodol. Dyma'r ffactorau i'w hystyried:

- Difuddiant – cyfran y canlyniadau a fyddai wedi digwydd beth bynnag heb y cymorth. Rhoddwyd cyfrif am hyn eisoes yn yr adran flaenorol, lle gofynnwyd i fuddiolwyr pa gyfran o'r cynnydd mewn trosiant y byddent yn ei briodoli i'r cymorth, gan arwain at amcangyfrif o £272m ar gyfer yr FBIS, £3.5m ar gyfer yr RBISF, a £275m ar gyfer y ddau gynllun. Er bod rhywfaint o ddilysu'r ymatebion hunanbriodoli hyn wedi'u cynnal drwy adolygu ymatebion ansoddol ac mai hwn oedd y dull mwyaf priodol (o ystyried yr amgylchiadau), nid yw'r canfyddiadau'n seiliedig ar asesiadau gwrthffeithiol ac, felly, dylid cymryd gofal. Rydym hefyd yn didynnu'r elfen arian cyfatebol er mwyn nodi'r budd i fusnesau y tu hwnt i'r buddsoddiad a wnaethant eu hunain. At ei gilydd, roedd buddiolwyr yr FBIS i fod i fuddsoddi £124m ac roedd buddiolwyr RBISF i fuddsoddi £1.7m drwy eu harian eu hunain. O dynnu hwn o'r effaith, mae'n arwain at amcangyfrif trosiant priodoledig ychwanegol o £148m ar gyfer yr FBIS ac £1.8m ar gyfer yr RBISF.
- Colledion – (leakage) cyfran y canlyniadau sydd o fudd i'r rheini y tu allan i ardal neu grŵp targed yr ymyrraeth. Roedd y busnesau buddiolwyr wedi'u lleoli yng Nghymru, gyda chyfartaledd o 52% o'u gwariant cadwyn gyflenwi o fewn y wlad. Gan ystyried elw, gwariant ar gyflogau staff, treth, a chostau eraill nad ydynt yn ymwneud â chyflenwyr, rhagdybiwyd cyfradd colledion o 25% yn mynd o Gymru i ganiatáu ar gyfer gwariant y gadwyn gyflenwi a fydd yn digwydd y tu allan i Gymru o ganlyniad i gynnydd yn y trosiant. Mae hyn yn lleihau'r effaith net i £111m ar gyfer yr FBIS ac £1.4m ar gyfer yr RBISF yng Nghymru, neu £113m yn gyffredinol rhwng y ddau.
- Dadleoli – cyfran y canlyniadau y cyfrifir amdanynt oherwydd canlyniadau llai mewn mannau eraill yn yr ardal darged. Mae tystiolaeth o hyn yn yr arolwg, gyda buddiolwyr yr FBIS yn adrodd bod 27% o'u cystadleuwyr, ar gyfartaledd, wedi'u lleoli yng Nghymru, tra bod y ffigur yn 28% ar gyfer ymatebwyr yr RBISF. Rydym felly wedi cymhwyso'r cyfrannau hyn fel ffactor disgownt i'r AEA i gyfrif am y posibilrwydd cryf y bydd y twf a gynhyrchir ar gyfer buddiolwyr yn disodli neu ddadleoli rhyw lefel o dwf mewn busnesau Cymreig eraill. Dylid cydnabod, fodd bynnag, mai rhagdybiaeth fras yw hon (o ystyried y data sydd ar gael). Mae cymhwyso'r ffactor disgownt tybiedig hwn wedi arwain at amcangyfrif tua £81m

ar gyfer yr FBIS, £992k ar gyfer yr RBISF, ac £82m yn gyffredinol oherwydd dadleoli (ar lefel Cymru).

- Cyfnewid (substitution) – pan fo cwmni yn cyfnewid un gweithgaredd am un tebyg er mwyn manteisio ar gymorth y sector cyhoeddus. Fe wnaethom gynnwys y cwestiwn canlynol yn yr arolwg i brofi hyn: 'A yw grantiau'r FBIS/RBISF wedi'u defnyddio i gyfnewid un gweithgaredd economaidd am un arall?' Fodd bynnag, ni chafwyd tystiolaeth o effaith cyfnewid ac, felly, nid oes unrhyw ostyngiad yn ymwneud â dirprwyo wedi'i gymhwyso i'r amcangyfrif.
- Mae angen i ni hefyd roi cyfrif am effeithiau lluosydd economaidd posibl (h.y. gweithgarwch economaidd pellach [swyddi, gwariant neu incwm] sy'n gysylltiedig ag incwm lleol ychwanegol) yn sgil cynhyrchu'r trosiant hwn. Nid oes unrhyw luosyddion cyfoes ar gyfer Cymru wedi'u cyhoeddi ac, felly, rydym yn defnyddio ffigurau Math II yr Alban fel cyfrifwyr parod, o ystyried y byddai lluosyddion ar gyfer y DU gyfan yn rhy uchel, gan ddal llawer mwy o elfennau o'r gadwyn gyflenwi. Er ei bod yn dybiaeth gredadwy, dylid nodi bod gan yr Alban a Chymru strwythurau economaidd gwahanol, ac felly angen y cafeat priodol gyda'r canfyddiadau dilynol. Defnyddiwyd lluosydd cyfartalog o'r is-sectorau bwyd a diod ar 1.56.[30] Mae hyn wedi'i gymhwyso i'n hamcangyfrif, gan arwain at amcangyfrif AEA newydd o tua £127m ar gyfer yr FBIS a thua £1.5m ar gyfer yr RBISF, neu tua £129m rhwng y ddau yn gyffredinol (gan ystyried yr effaith lluosydd).

5.52 Y cam olaf yw amcangyfrif y newid mewn gwerth ychwanegol gros (GVA) a gynhyrchwyd gan raglenni'r FBIS a RBISF drwy fusnesau'r buddiolwyr. Oherwydd y diffyg data sydd ar gael i gyfrifo GVA ar sail buddiolwyr unigol, gall trosi'r cynnydd a gafwyd mewn trosiant i GVA drwy gymhwyso cymhareb trosiant-i-GVA y SYG roi ffigur dangosol (er y cydnabyddir ei fod yn gyfyngedig wrth ragdybio bod cynhyrchiant pob busnes a fydd yn cael cymorth yr un fath â chynhyrchiant cyfartalog y sector cyfan[31]). Daw'r gymhareb o ddata'r Arolwg Busnes Blynyddol sy'n datgelu mai'r gymhareb trosiant-GVA diweddaraf (2020) ar gyfer 'Gweithgynhyrchu cynhyrchion bwyd' (SIC 10) yng Nghymru oedd 0.6.[32] Ar y sail hon, amcangyfrifwn fod yr FBIS wedi cynhyrchu tua £76m, mae'r RBISF wedi

[30] Tablau Mewnbwn-Allbwn yr Alban / Scottish Input–Output Tables, 2019.
[31] Mae'n bwysig nodi arwyddocâd y cyfyngiad hwn, o ystyried natur cyfansoddiad y buddiolwyr o'i gymharu â strwythur y sector yn fwy cyffredinol.
[32] Arolwg Busnes Blynyddol (SYG), Mehefin 2022.

cynhyrchu tua £928k, a, gyda'i gilydd, mae'r ddau gynllun wedi cynhyrchu tua £77m mewn effaith GVA ychwanegol net. Nid yw hyn yn cynnwys yr effaith bosibl yn y dyfodol, a fydd yn anochel yn arwain at dwf pellach er y byddai angen rhagdybiaethau cynyddol annelwig i gyfrifo'r rheiny.

5.53 Yn amlwg, mae pob un o'r camau hyn yn cynnwys rhai rhagdybiaethau pwysig a symleiddio – a byddai newid y rhain yn cael effeithiau sylweddol posibl ar yr amcangyfrifon a gynhyrchir drwy gyfrifiadau enghreifftiol o'r fath. Efallai y bydd gwaith yn y dyfodol yn ceisio rhoi mwy o wybodaeth am rywfaint o'r data angenrheidiol sy'n sail i'r rhagdybiaethau a hefyd ymgorffori rhywfaint o ddadansoddiad sensitifrwydd. Gallai hyn hefyd edrych i gynnwys metrigau perfformiad eraill o ddata monitro a ffynonellau data gwirioneddol eraill.

5.54 Dull arall o amcangyfrif effeithiau GVA yw cymhwyso ffigurau ar gyfer GVA fesul swydd FTE at y gyflogaeth a grëwyd ac a ddiogelwyd. Yr amcangyfrifon ar gyfer GVA fesul swydd FTE yw £62,500 ar gyfer y sector 'Gweithgynhyrchu cynhyrchion bwyd' (SIC 10), gellir cymhwyso'r amcangyfrifon hyn i'r amcangyfrifon swyddi a amlinellir uchod (mae'n bwysig eto nodi'r cyfyngiad sylweddol i'r dull hwn, o gofio ei fod yn dibynnu ar gyfartaledd sector cyfan a gwyddom fod natur y buddiolwyr yn wahanol i strwythur y sector yn fwy cyffredinol). Gan fod 761 o swyddi FTE wedi'u creu neu eu diogelu ymhlith busnesau a dderbyniodd gyllid yr FBIS, mae amcangyfrif o £47.5m mewn GVA hefyd wedi'i greu neu ei ddiogelu. Ar gyfer cynllun yr RBISF y ffigur yw £4m mewn GVA, sy'n golygu bod y cyfanswm ar draws y rhaglen yn £51.5m. Mae'r amcangyfrifon hyn eto'n amodol ar gyfyngiadau pwysig a dylid eu trin yn ofalus, gan eu bod eto'n dibynnu ar gymhwyso cyfartaleddau'r diwydiant ac yn dibynnu ar hunanasesiad a hunanbriodoli effeithiau cyflogaeth.

5.55 Yn seiliedig yn unig ar yr effaith ariannol a gynhyrchwyd hyd yma o gymarebau trosiant, amcangyfrifir bod yr FBIS wedi cynhyrchu adenillion cadarnhaol (£1.28 o effaith GVA am bob £1 o arian grant a ddyrannwyd). Ar gyfer cynllun yr RBISF rydym yn amcangyfrif nad yw'r grantiau wedi darparu enillion eto mewn effeithiau ariannol yn unig (£0.98 o effaith GVA am bob £1 o arian grant a wariwyd). Mae sail a chyfyngiadau'r amcangyfrifon hyn wedi'u nodi yn y testun ac maent yn cynnig gwybodaeth gyd-destunol bwysig ynghylch y ffigurau a gyflwynwyd.

### Effaith amgylcheddol

5.56 Mae effeithiau amgylcheddol clir yn gysylltiedig â rhai o’r canlyniadau a drafodwyd eisoes yn y bennod hon. Er enghraifft, mae gwella prosesau yn aml wedi golygu mwy o effeithlonrwydd. Yn ogystal, dywedodd 11% o fuddiolwyr (7/61) mai un o’u cymhellion y tu ôl i fynd ar ofyn y cymorth oedd er mwyn newid i dechnolegau carbon is, a dywedodd chwech o’r saith eu bod wedi llwyddo i gyflawni’r nodau hynny.

5.57 Mae rhywfaint o’r dystiolaeth yn y cwestiynau ynghylch mapio’r gadwyn gyflenwi yn awgrymu y gallai fod effeithiau amgylcheddol cadarnhaol, gyda 19% yn byrhau eu cadwyn gyflenwi a 7% yn dweud eu bod wedi symud prosesu yn fewnol, a oedd yn digwydd y tu allan i Gymru yn flaenorol. Ymhellach, byddai newidiadau yn nosbarthiad daearyddol gwariant y gadwyn gyflenwi (gyda mwy yn cael ei gadw yng Nghymru) yn awgrymu rhywfaint o effaith ar ostwng taith bwyd, er bod hyn yn cael ei gydbwyso yn erbyn y cynnydd yn nhaith bwyd yn sgil ehangu marchnadoedd ledled y DU. Dywedodd tua thraean o’r buddiolwyr (20/62) eu bod wedi gallu lleihau eu hôl troed carbon o ganlyniad i’r cymorth.

5.58 Dywedodd cyfanswm o 41% o’r buddiolwyr (26/64) fod eu prosiectau wedi creu effeithiau amgylcheddol cadarnhaol. Wrth ymhelaethu ar hyn, dywedodd 17% (11/64) fod y cynlluniau wedi arwain at effeithlonrwydd ynni yn eu prosesau, soniodd 11% (7/64) am gyflwyno ynni adnewyddadwy, a nododd 9% (6/54) welliannau i’w prosesau ailgylchu (gan gynnwys enghreifftiau o drosi ynni o brosesau eraill) a gwell rheolaeth ar wastraff:

> “Rydym wedi gallu cyflwyno system gwresogi biomas pelenni pren i leihau ôl troed carbon er mwyn gallu cynhyrchu ein bara heb garbon.” (Arolwg i fuddiolwyr)

> “Mae ein proses yn defnyddio deunyddiau gwastraff o brosesau gweithgynhyrchu bwyd eraill, felly mae’n lleihau faint o gynnyrch gwastraff sydd yna.” (Arolwg i fuddiolwyr)

> “Mae’r incwm a gynhyrchwyd wedi ein galluogi i fuddsoddi mewn paneli solar a chynaeafu dŵr.” (Arolwg i fuddiolwyr)

> “Llai o daith i’r coffi gan fod y prosesu cyfan ar y coffi bellach yn cael ei wneud ar y safle, ond o’r blaen roedd yn rhaid i ni ei anfon at gwmni arall i’r coffi gael ei rostio.” (Arolwg i fuddiolwyr)

5.59 Mae angen cydbwyso’r manteision cadarnhaol hyn yn erbyn y cynnydd mewn cynhyrchiant. Yn wir, mae rhai enghreifftiau o’r cynlluniau’n cael effaith andwyol ar yr amgylchedd. Er enghraifft, tynnodd y tîm cyflawni sylw at adroddiadau bod y cynnydd mewn cynhyrchu wyau, gyda chrynodiad arbennig o uchel yn y Canolbarth, yn arwain at halogi’r dalgylch afon lleol, a hynny wedi’i gysylltu’n ôl â nifer y ffermydd ieir sydd wedi ymddangos yn yr ardal. Efallai nad yw’n syndod bod yr holl fuddiolwyr wedi honni na fu unrhyw effeithiau amgylcheddol andwyol yn eu prosiectau.

5.60 Mae rhai o’r astudiaethau achos yn darparu enghreifftiau da o effeithiau ar yr amgylchedd. Er enghraifft, mae Wrexham Lager wedi gallu cyflwyno prosesau cynhyrchu mwy ynni-effeithlon a thybir bod yr oeryddion a’r tanciau eplesu/cyflyru yn cynhyrchu arbedion ynni o 21% a 30% yn y drefn honno, tra hefyd yn lleihau’r defnydd o ddŵr a gwastraff yn eu llinell weithgynhyrchu. Yn yr un modd, fodd bynnag, nododd y busnes eu llwyddiant wrth gael mynediad i farchnadoedd allforio am y tro cyntaf, gan gyflenwi gwledydd fel Korea, Canada, yr Unol Daleithiau, a Japan, sydd angen ei gydbwyso yn erbyn yr effeithiau cadarnhaol.

### Asesu’r cyfraniad at amcanion polisi Llywodraeth Cymru a’r UE


#### Cyd-fynd â nodau strategol Llywodraeth Cymru

5.61 Fel y nodwyd gennym yn flaenorol yn yr adroddiad, mae pedwar nod strategol ar gyfer Llywodraeth Cymru fel y’u nodwyd yn y papur gweledigaeth strategol diweddar ‘Adeiladu ar ein llwyddiant’ ar gyfer y sector bwyd a diod: sef twf, cynaliadwyedd, gwaith teg, ac enw da a safonau. Bu aliniad clir â’r cyntaf o’r pedwar nod hynny (h.y. i gyflawni twf), gyda thystiolaeth sylweddol o dwf wedi’i ysgogi gan y cynlluniau. Mae tystiolaeth hefyd o effeithiau amgylcheddol, er eu bod ychydig yn fwy cymysg, sy’n awgrymu rhywfaint o aliniad â’r nod o gyrraedd cynaliadwyedd amgylcheddol ar y lefelau uchaf (sef ail nod yn y papur gweledigaeth). Yn ogystal, ymddengys bod y cynlluniau wedi cael rhywfaint o effaith ar waith teg (y trydydd nod) mewn perthynas â gwobrwyo eu gweithwyr â chyflog gwell, fel y nodwyd gennym yn flaenorol yn yr adroddiad.

5.62 Mae aliniad cryf â phedwerydd nod Llywodraeth Cymru o ran enw da a safonau, gyda’r arolwg i fuddiolwyr yn canfod bod 42% (22/52) o fuddiolwyr wedi sicrhau achrediadau o ganlyniad i’r cymorth, roedd 27% wedi ennill gwobrau diwydiant (13/48), tra dywedodd 26% ei fod wedi eu helpu i godi eu sgôr hylendid bwyd

(12/47). Mae archwiliad pellach o'r achrediadau sydd gan fuddiolwyr yn datgelu bod y gyfran a ddywedodd fod ganddynt o leiaf un math o achrediad wedi cynyddu o 50% (32/64) cyn y cymorth i 72% (46/64) wedi hynny, gyda'r BRC a'r RSPCA Assured yn cynrychioli rhai o'r meysydd twf (gweler Ffigur 5.5 drosodd). Nododd y mwyafrif helaeth o'r rhai a nododd 'Rhywbeth arall' eu bod wedi derbyn achrediad Lion Code, a reolir gan Gyngor Diwydiant Wyau Prydain. Mae'r cynnydd mewn achrediadau yn amcan strategol pwysig i Lywodraeth Cymru ac mae'n cysylltu â gallu buddiolwyr i dyfu a chyflenwi sefydliadau mwy o faint, fel y trafodwyd gennym yn y bennod hon.

**Ffigur 5.5: Achrediadau buddiolwyr cyn ac ar ôl derbyn cymorth**




Ffynhonnell: yr arolwg i fuddiolwyr (n=64 yn gyfan gwbl)

5.63 I grynhoi, cafwyd aliniad da rhwng effeithiau'r cynlluniau hyn a'r amcanion strategol a ddisgrifiwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'n bosibl, fodd bynnag, bod rhai meysydd nad oedd gan y cynlluniau fecanwaith i sicrhau y byddent yn cael eu cyflawni, megis gwaith teg a chynaliadwyedd amgylcheddol. Er bod adrannau wedi'u cynnwys yn y cais lle gofynnwyd i ymgeiswyr egluro sut y byddent yn cyflawni yn erbyn yr amcanion hynny, ychydig iawn o fonitro a wnaed o hynny y tu hwnt i'r adeg ymgeisio ac nid oedd unrhyw ffordd o sicrhau bod buddiolwyr yn

parhau i fod yn ymrwymedig i'r amcanion ehangach hynny. Dylai'r newid a geir yn y cynllun newydd, lle ceir 'contract economaidd' ffurfiol, helpu i fynd i'r afael â'r mater hwnnw.

**Cyd-fynd ag amcanion polisi'r UE**


5.64 Maes Blaenoriaeth a Ffocws yr FBIS oedd 'gwella cystadleurwydd cynhyrchwyr cynradd trwy eu hintegreiddio'n well i'r gadwyn bwyd-amaeth trwy gynlluniau o safon, ychwanegu gwerth at gynhyrchion amaethyddol, hyrwyddo mewn marchnadoedd lleol a chylchoedd cyflenwi byr, grwpiau a sefydliadau cynhyrchwyr a sefydliadau rhyng-gangen'. Mae hyn wedi'i gyflawni i ryw raddau ar ddwy lefel. Yn gyntaf, mae'r busnesau fferm a gefnogwyd (40% o'r sampl) wedi gallu ychwanegu gwerth at eu hallbynnau drwy greu marchnadoedd newydd ar gyfer eu cynnyrch. Yn ail, o fudd i gynhyrchwyr cynradd Cymru sy'n eu cyflenwi, rhaid ystyried twf y busnesau gweithgynhyrchu a phrosesu bwyd (60% o'r sampl) sy'n gweithredu ymhellach lawr ar hyd y gadwyn gyflenwi, sef bron i £2.5m yr un ar gyfartaledd, ynghyd â'r cynnydd ymylol mewn prynu gan gyflenwyr lleol neu Gymreig (cynyddodd hyn 2% ar gyfartaledd). Yr un mor bwysig, fodd bynnag, yw cofio nad dyma fu prif bwyslais y cynlluniau, gan mai'r prif ffocws oedd ar dwf, gyda llawer llai o sylw i integreiddio cadwyni cyflenwi.

5.65 Maes Blaenoriaeth a Ffocws yr RBISF oedd 'hwyluso arallgyfeirio, creu a datblygu mentrau bach yn ogystal â chreu swyddi'. Mae hyn yn amlwg yn cysylltu â'r prif ganlyniadau a adroddwyd gan fusnesau.

**Cyd-fynd â chynlluniau eraill**

5.66 Fel y soniwyd eisoes, cafwyd enghreifftiau da o gysylltiadau rhwng y cynlluniau a'r prosiectau. Mae'r rhain yn cynnwys enghreifftiau o glystyrau Cywain yn cynnal digwyddiadau gwybodaeth am y cynlluniau, a'u hymgynghorwyr yn helpu busnesau i ddeall sut y gallent elwa o gymorth cyfalaf. Yn ogystal, mae'r Canolfannau Arloesi Bwyd wedi cynghori rhai busnesau ynghylch yr offer a'r technolegau mwyaf priodol i fuddsoddi ynddynt, tra bod y rhaglen Parod am Fuddsoddiad wedi cynghori ar y buddsoddiadau cyfalaf arfaethedig. Mae synergeddau clir rhwng y cynlluniau hyn, gyda chymorth datblygu busnes gan eraill yn ategu'r cymorth cyfalaf sydd ar gael. Cyfeiriodd sawl un at gefnogaeth gan Cyswllt Ffermio a Busnes Cymru i'w helpu i lywio drwy'r broses ymgeisio. Roedd 75% o fusnesau hefyd wedi elwa ar y cynlluniau eraill hyn, fel y dangosir yn Ffigur 5.6 trosodd.

**Ffigur 5.6: Gwasanaethau cymorth eraill a ddefnyddiodd buddiolwyr**




Ffynhonnell: yr arolwg i fuddiolwyr (n=65 yn gyfan gwbl)

5.67 Fodd bynnag, achlysurol oedd yr ymgysylltiadau hyn ac nid yw'r cymorth ehangach sy'n gysylltiedig â'r cyllid grant wedi bod yr un mor hygyrch i bob busnes. Oherwydd hynny, efallai y gallai'r cysylltiadau rhwng yr ymyriadau hyn fod yn fwy amlwg er mwyn sicrhau mwy o gysondeb yn y cymorth yn ogystal â gwneud gwell defnydd o'r arbenigedd ar draws y gwasanaethau cymorth.

**Themâu Trawsbynciol**

5.68 Mae'r Rheoliadau sy'n llywodraethu'r rhaglenni Ewropeaidd yn nodi bod yn rhaid i bob prosiect a ariennir drwy'r Fframwaith Strategol Cyffredin integreiddio Themâu Trawsbynciol (CCT) penodol, sef Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw a Datblygu Cynaliadwy, tra bod Mynd i'r Afael â Thlodi ac Allgáu Cymdeithasol hefyd yn thema drawsbynciol orfodol ar gyfer rhaglenni Llywodraeth Cymru.

5.69 Yn ogystal â'r themâu trawsbynciol, mae'r Rheoliad Datblygu Gwledig (1303-2013) yn nodi y dylai rhaglenni ac, felly, cynlluniau o dan yr RDP, gyfrannu at amcanion trawsbynciol yn ymwneud ag arloesi, yr amgylchedd, a lliniaru newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo.

5.70 Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r tîm cyflawni ynghylch pob un o'r rhain, a hwythau'n teimlo bod y cynlluniau wedi cyflawni yn erbyn y themâu a'r amcanion. Yn wir, cawsant eu hymgorffori yn y broses o'r dechrau un, a gofynnwyd i ymgeiswyr nodi sut y byddent yn cyfrannu yn erbyn pob thema ac amcan, gan felly ymgorffori'r arferion a'r amcanion gofynnol yn y prosiectau o'r cychwyn cyntaf.

5.71 Mae'r cyfraniadau a wnaed at lawer o'r themâu a'r amcanion hyn eisoes wedi'u dangos yn yr adroddiad. Er enghraifft:

- mae effeithiau amgylcheddol datblygu prosesau mwy effeithlon sy'n gofyn am lai o ynni a gwastraff, neu alluogi gwell ailgylchu, yn cysylltu'n glir â'r thema Datblygu Cynaliadwy a'r amcan i liniaru newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo.
- mae Trechu Tlodi yn faes amlwg arall lle mae'r cynlluniau wedi cyfrannu drwy greu a diogelu swyddi, yn aml mewn ardaloedd o amddifadedd gwledig uchel, a ninnau wedi tynnu sylw hefyd at sut yr oedd rhai o'r buddiolwyr wedi gwella eu cynnig cyfradd cyflog i staff yn dilyn y cymorth. Ar ben hynny, ceir enghreifftiau o'r cymorth yn arwain at gyfleoedd hyfforddi ac uwchsgilio; er enghraifft, datblygodd Red Boat Ice Cream Parlour gyfleuster i hyfforddi ac uwchsgilio staff mewn technegau a gweithdrefnau newydd (gweler yr astudiaeth achos). Ymhellach, soniodd aelod o'r tîm cyflawni am un enghraifft lle roedd buddiolwr "wedi mynd drwy newid mawr i sicrhau bod tegwch yn y gwaith ac roedd bellach yn cyflogi mwy o brentisiaid a throseddwyr ifanc" yn dilyn eu hymgysylltiad ag un o'r cynlluniau.
- mae'r cynlluniau'n amlwg yn gwneud cyfraniad sylweddol at yr amcan arloesi, gan arwain at lawer mwy o fuddsoddi yn y seilwaith prosesu yng Nghymru, a nododd llawer o fusnesau eu bod wedi gallu datblygu cynhyrchion newydd yn well o ganlyniad i'r offer a brynwyd.
- o bosibl cafwyd llai ar Gyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw, gydag ychydig iawn o enghreifftiau o gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r thema hon yn benodol. Dangosodd y tîm cyflawni waith cryf o ran darparu gwasanaeth Cymraeg, gyda siaradwyr Cymraeg yn rhan o'r tîm cyflawni, a chynigiwyd y cyfle i fuddiolwyr ymgysylltu yn Gymraeg (a gwnaeth rhai hynny). Codwyd enghraifft hefyd o'r cymorth a ddarparwyd i fusnes â hanes cryf yn y Gymraeg a aeth ymlaen i gyflogi siaradwyr Cymraeg a chynnig hyfforddiant dwyieithog i weithwyr.

5.72 I grynhoi, mae’r cynlluniau wedi cyfrannu yn erbyn y rhan fwyaf o’r amcanion a’r themâu trawsbynciol, yn bennaf fel rhan sylfaenol o’r gweithrediadau sy’n arwain at arbedion effeithlonrwydd a chreu swyddi, er bod rhai camau gweithredu penodol hefyd (megis ymgorffori themâu trawsbynciol yn y broses ymgeisio).

**Asesu gwerth am arian**

5.73 Rydym yn cloi’r bennod hon drwy ystyried y Gwerth am Arian a gynhyrchwyd gan y cynllun, sef un o’r wyth cwestiwn gwerthuso allweddol. Mae cynhyrchu gwerth da am arian yn gysylltiedig â chyflawni’r weledigaeth a’r effeithiau yn y Theori Newid a sefydlwyd yn ystod cam cyntaf y gwerthuso. Prif nod Llywodraeth Cymru mewn perthynas â’i hamcanion strategol oedd creu twf a mwy o gydnerthedd yn y sector bwyd a diod. Ar y metrig hwnnw, mae’r cynlluniau wedi esgor ar rywfaint o werth am arian, gyda’r amcangyfrifon hyn yn awgrymu bod degau o filiynau wedi’u creu mewn effaith economaidd yn ogystal ag elw o £1.28 ar bob £1 o arian grant a wariwyd ar gyfer yr FBIS a £0.98 ar gyfer yr RBISF (er bod y cyfrifiadau hyn yn amodol ar gyfyngiadau yn ogystal â sensitifrwydd i’r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd). Prif darged Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector yn ystod cyfnod rhaglen yr RDP (2014 i 20) oedd tyfu’r sector 30% i £7.473bn erbyn 2020. Cyflawnwyd y targed hwnnw ac mae’r cynlluniau hyn wedi cyfrannu at gyrraedd y targed hwnnw. Mae’r effaith GVA ychwanegol net o tua £77m yr amcangyfrifir yma wedi’i chynhyrchu drwy fod y cynlluniau yn cynrychioli 1% o’r holl werth economaidd a gynhyrchwyd gan y sector yn 2020, sy’n dangos maint yr effeithiau a gynhyrchir gan y cynlluniau hyn. Efallai y gwneir rhywfaint o waith pellach yn y dyfodol er mwyn gallu cynhyrchu amcangyfrifon manylach o effeithiau’r cynlluniau.

5.74 Ar y llaw arall, os ydym yn barnu Gwerth am Arian yr FBIS ar sail y prif amcan a osodwyd gan y cyllidwr (yr RDP), h.y. creu cadwyni cyflenwi byrrach a gwella cystadleurwydd cynhyrchwyr cynradd i fod wedi’u hintegreiddio’n well yn y gadwyn bwyd-amaeth, yna mae’r Gwerth am Arian yn dod yn llai cliriach.

# 6. Casgliadau ac Argymhellion

### Effeithiau'r cynllun

6.1 Canfu ein gwerthusiad bod ymyrraeth yr FBIS, yn arbennig, wedi arwain at rai effeithiau busnes cadarnhaol ar gyfer y sector bwyd a diod. Mae wedi cefnogi sawl miliwn o bunnoedd o fuddsoddiad mewn seilwaith prosesu, gan arwain at well offer a chyfleusterau, a thrwy hynny alluogi busnesau i dyfu dros y cyfnod amser dan sylw. Mae'r RBISF wedi cynhyrchu adenillion tebyg ar y buddsoddiad (ROI), er ar raddfa lawer is, gyda llai na £1m o gyllideb y cynllun wedi'i ddyfarnu. Gyda'i gilydd, mae'r ddau gynllun wedi chwarae rhan bwysig wrth helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni eu huchelgeisiau twf ar gyfer y sector.

6.2 Mae'r FBIS wedi rhagori o bell ffordd ar ei dargedau DPA, a'r cynllun wedi llwyddo i roi mwyafrif helaeth y cyllid oedd ar gael (92% o'r gyllideb), sef y dangosydd llwyddiant cyntaf ar gyfer unrhyw gynllun grant cyfalaf. Roedd yn amlwg bod galw mawr am y cymorth, gan fod yr holl ffenestri ariannu wedi'u gordanysgrifio a dim ond tua chwarter yr ymgeiswyr a oedd yn llwyddiannus. Yn ogystal, mae tystiolaeth gref o ychwanegedd uchel, lle na fyddai'r mwyafrif helaeth o brosiectau wedi digwydd heb yr ymyrraeth, neu o leiaf nid i'r un graddau neu mor gyflym. Yn unol â hynny, mae'r cynlluniau hyn wedi dangos gwerth cefnogi busnesau bwyd a diod i fuddsoddi yn eu prosesau cynhyrchu ac i barhau i wneud hynny yn y dyfodol, er y dylid adolygu'r rhesymeg y tu ôl i gymorth ar yr adeg briodol i sicrhau bod hyn yn parhau i fod yn berthnasol.

- Argymhelliad 1**:** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddarparu cymorth cyfalaf priodol i fusnesau bwyd a diod, gan dargedu cymorth yn effeithiol er mwyn sicrhau'r gwerth mwyaf posibl.

6.3 Ymddengys bod y cynlluniau wedi creu effeithiau amgylcheddol cadarnhaol. Yn sicr, mae nifer o enghreifftiau o effeithlonrwydd ynni ym mhrosesau busnesau ynghyd â lleihau gwastraff a gwell ailgylchu, tra bod rhai enghreifftiau hefyd o fuddiolwyr yn canolbwyntio ar gadwyni cyflenwi byrrach yn dilyn y cymorth. Fodd bynnag, rhaid cydbwyso'r olaf yn erbyn twf i farchnadoedd newydd sy'n bellach yn ddaearyddol, tra gellid dweud bod cynyddu cynhyrchiant, hyd yn oed os caiff ei gyflawni'n fwy effeithlon, hefyd yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd. Ni allwn feintioli effeithiau amgylcheddol cadarnhaol a negyddol y cynlluniau, er yr awgryma'r dystiolaeth sydd

ar gael, at ei gilydd, ei bod yn ymddangos bod y cynlluniau wedi cyfrannu'n gadarnhaol.

- Argymhelliad 2: Dylai cynlluniau yn y dyfodol ystyried cyflwyno mecanweithiau i gael gwell monitro a rheoli ar effeithiau amgylcheddol y prosiectau a gefnogir. Gellid hefyd ystyried comisiynu astudiaeth ymchwil ar wahân yn benodol ar effeithiau amgylcheddol cadarnhaol a negyddol y cynlluniau hyn.
- Argymhelliad 3**:** Dylai unrhyw gynlluniau yn y dyfodol sicrhau cael prosesau monitro mwy cadarn (e.e. i gynnwys casglu data ar oedran busnes, data hanesyddol a data trosiant blynyddol) er mwyn galluogi amcangyfrifon mwy manwl o effeithiau economaidd.

**Dyluniad a chyflawni**

6.4 Dengys y dystiolaeth yn yr adroddiad hwn fod y ddau gynllun yn gyffredinol wedi'u cynllunio'n dda o ran paramedrau'r grant. Wedi dweud hynny, roedd peth awgrym y dylai trothwy isaf maint y grant fod wedi bod yn uwch, gan fod gwahaniaeth mawr yng ngraddfa'r prosiectau a ariannwyd, o brosiectau mor fach â £2,459 i rai mor fawr â £5m. Rhannwyd y prosiectau'n weddol gyfartal rhwng y rhai dros £100k a'r rhai llai na £100k. Er nad oes cydberthynas glir bob amser rhwng maint y grant a'r adenillion ar fuddsoddiad, mae ein dadansoddiad yn dangos yr ymddengys bod grantiau o fwy na £100k wedi cynhyrchu gwell elw am bob punt a wariwyd yn gyffredinol. Yn ogystal, mae'r costau ar gyfer busnesau bach wrth wneud cais am gymorth, prosesu hawliadau, etc. o bosibl yn uwch na gwerth y grantiau lleiaf o ychydig dros £2k. Am y rheswm hwnnw, bydd isafswm trothwy o £20k yn y cynllun grant newydd, a hynny i'w weld yn newid rhesymegol i ddyluniad y cynllun.

6.5 Y prif ffactor a oedd yn cyfyngu ar ddyluniad yr FBIS oedd gofyniad yr RDP i gyfyngu ar y cymorth i fusnesau sy'n prosesu cynhyrchion amaethyddol cynradd, a hynny'n atal is-sectorau eraill, efallai mwy priodol, rhag cael mynediad at y cymorth. Roedd hyn oherwydd bod Blaenoriaeth yr RDP a ddefnyddiwyd i ariannu'r cynllun yn canolbwyntio mwy ar ychwanegu gwerth at gynnyrch amaethyddol a chreu cadwyni cyflenwi byrrach. Ymddengys bod mymryn o densiwn wedi bod rhwng yr amcanion strategol hynny a rhai Llywodraeth Cymru, a oedd yn canolbwyntio mwy ar greu twf. Mae'r gwerth a gynhyrchir gan y cynllun yn sicr yn fwy cyson â meysydd ffocws polisi Llywodraeth Cymru nag â meysydd ffocws yr UE.

- Argymhelliad 4: Dylid cael dealltwriaeth fwy cydlynol o'r amcanion strategol yn y cynllun grant cyfalaf nesaf, yn gysylltiedig ag asesiad clir o'r rhesymeg y tu ôl i'r ymyrraeth a oedd yn berthnasol ar y pryd gan adlewyrchu datblygiadau yn y farchnad. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru egluro'r amcanion hynny cyn gynted â phosibl a chyfleu'r amcanion i'r holl bersonél sy'n gyfrifol am weinyddu'r cynllun newydd. Byddai hyn hefyd yn gyfle i gael safbwynt mwy ystyriol ar yr amcanion amgylcheddol a sut mae'r rhain yn cyd-fynd ag amcanion polisi sy'n ymwneud â datblygu economaidd.
- Argymhelliad 5: Os nad yw wedi'i addasu'n barod, dylid dileu o'r cynllun nesaf y cyfyngiad ynghylch cefnogi busnesau sy'n prosesu cynnyrch amaethyddol cynradd yn unig (oni bai bod ychwanegu gwerth at gynhyrchion amaethyddol yn parhau'n flaenoriaeth graidd).

6.6 Yn gyffredinol, dyluniwyd y cynlluniau i fod yn agored i bob busnes cymwys ac nid oeddent yn targedu carfannau penodol o fusnesau. Mae hyn wedi arwain at gryn fuddsoddiad mewn rhai is-sectorau, megis cynhyrchu wyau a micro-fragdai, a rhai swyddogion polisi o'r farn fod hyn yn wendid, gyda phryderon ynghylch buddsoddi mewn sectorau nad ydynt yn darparu'r gwerth strategol a fwriedir. O'r herwydd, mae rhai swyddogion wedi galw am ddull sydd â mwy o dargedu ynddo wrth symud ymlaen, e.e. drwy nodi sectorau twf a thargedu'r cymorth yn unol â hynny. Mae ein dadansoddiad yn cefnogi'r syniad hwnnw i ryw raddau, gan ddatgelu bod buddsoddi mewn micro-fragdai yn arbennig yn ogystal â chynhyrchu wyau i raddau llai wedi cynhyrchu adenillon llai na'r buddsoddiad mewn is-sectorau eraill (er bod y ddau yn dal i ddangos adenillon cadarnhaol, ac roedd y dadansoddiad wedi'i gyfyngu'n ddifrifol gan faint bach y sampl).

- Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio dull wedi'i dargedu'n well yn y cynllun grant nesaf naill ai drwy'r sianeli marchnata a ddefnyddir neu drwy roi mwy o bwysau ar sectorau twf uchel neu fathau o brosiectau yn ystod y broses arfarnu. Dylid ategu hyn ag asesiad o amodau'r farchnad dan arweiniad tystiolaeth yn ogystal â'r posibilrwydd o fwydo i mewn i ddyluniad y cynllun a'r hyn y mae'n ei dargedu.

6.7 Cefnogwyd tri phrif grŵp o fuddiolwyr gan y cynlluniau. Yn gyntaf, roedd y cynlluniau grant yn bennaf wedi cefnogi busnesau bach a microfusnesau a oedd am gymryd y cam nesaf i dyfu eu busnesau drwy wella a phroffesiynoli eu prosesau

cynhyrchu. Yn ail, roedd busnesau mwy o faint wedi cael cymorth i gynyddu eu hallbwn economaidd ymhellach. Yn drydydd, cefnogwyd busnesau fferm yn gyffredinol i helpu i gynnal eu gweithrediadau, olyniaeth busnes, a sicrhau hyfywedd i sawl teulu.

6.8 Roedd gan fusnesau mwy o faint gyfradd llwyddiant uwch yn ystod y broses ymgeisio. Dengys ein dadansoddiad mai dim ond 44% o’r cyllid a fuddsoddwyd mewn microfentrau a busnesau bach, er bod y ddwy garfan hyn yn 87% o’r holl fuddiolwyr. Mae’n ymddangos bod hyn yn cyferbynnu â ffocws polisi allweddol Llywodraeth Cymru ar gynyddu sylfaen cwmnïau canolig eu maint yn y sector drwy gefnogi busnesau micro a bach i gymryd y cam nesaf. Yn ogystal, awgryma ein dadansoddiad fod buddsoddi mewn busnesau llai wedi cynhyrchu gwell adenillion ar fuddsoddiad nag y mae’r cyllid a roddwyd i fusnesau canolig eu maint (er ein bod yn nodi’r cafeat sylweddol yn ein dadansoddiadau ar is-samplau oherwydd y meintiau sampl bach).

- Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno mecanweithiau penodol i sicrhau bod y cymorth yn cael ei dargedu’n fwy at fusnesau micro a bach eu maint. Un dull posibl fyddai clustnodi cyfran o’r cyllid (e.e. 60%) ar gyfer busnesau o’r meintiau hynny. Dull arall fyddai lleihau uchafswm y grant.

6.9 Roedd gan fwyafrif helaeth y buddiolwyr uchelgeisiau twf cryf a chynllun clir ar gyfer tyfu cyn cael y cymorth, tra bod gan gyfran fawr ohonynt achrediad yn barod, gan ddangos felly eu parodrwydd ar gyfer twf. Yn yr ystyr hwnnw, mae’r cynlluniau wedi llwyddo i ymgysylltu â set briodol o fusnesau, sy’n gyson â’r weledigaeth a fynegwyd gan swyddogion polisi Llywodraeth Cymru ynghylch yr angen i “gefnogi’r enillwyr”. Mae’r pwynt ar achrediadau yn allweddol oherwydd yn gyffredinol mae angen i ficrofentrau sydd ag uchelgeisiau difrifol i ddatblygu’n fusnesau mwy o faint gael eu hachredu.

- Argymhelliad 8: Gallai’r cynllun nesaf gynnwys gofyniad i fusnesau naill ai gael eu hachredu neu ymrwymo i ennill achrediad i fod yn gymwys am gymorth fel ffordd o sicrhau bod y buddsoddiad yn cyrraedd y busnesau sydd yn y sefyllfa orau ar gyfer twf.

6.10 Roedd y cynlluniau wedi cael eu hyrwyddo’n dda, fel y tystiwyd gan nifer y ceisiadau a dderbyniwyd. Roedd y problemau mwyaf arwyddocaol yn gysylltiedig â’r prosesau ymgeisio, arfarnu a hawlio yn ogystal ag ymgysylltu cyffredinol â’r

busnesau. Roedd cryn rwystredigaeth â'r prosesau hyn ymhlith rhai buddiolwyr, gyda 27% o ymatebwyr yr FBIS yn mynegi anfodlonrwydd a 29% arall yn rhoi sgôr niwtral (sef dweud nad oeddent yn fodlon nac yn anfodlon). Deilliodd hyn yn bennaf o'r elfennau sydd o dan reolaeth Taliadau Gwledig Cymru (RPW), megis cais llawn Cam 2 yr FBIS, sydd i'w weld yn broblem weinyddol ehangach i'r RDP wedi'i achosi gan ddiffyg adnoddau yn nhîm yr RPW. Arweiniodd hyn at oedi hir a chyfathrebu gwael â busnesau mewn rhai achosion, gan gyfrannu at fusnesau yn tynnu'n ôl yn ystod proses ymgeisio lawn Cam 2, lle nad oedd traean o'r ceisiadau wedi symud ymlaen â'u prosiectau. Arweiniodd yr oedi, ynghyd â chwyddiant uchel, at lawer o fusnesau'n wynebu costau llawer uwch nag yr oeddent wedi cynllunio ar eu cyfer, a hyn oll wedi'i waethygu gan y ffaith na allai'r cynllun ymrwymo mwy o gyllid yn sgil y costau cynyddol.

- Argymhelliad 9: Dylai cynlluniau yn y dyfodol flaenoriaethu camau i osgoi oedi yn y broses gymeradwyo (e.e. drwy adolygu'r broses ymgeisio dau gam ac/neu sicrhau bod mwy o adnoddau i gyflymu'r broses). Gellid hefyd ystyried cael agwedd fwy hyblyg. Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys mecanwaith i gynyddu cyllid grant yn unol â chwyddiant pan fo oedi hir rhwng y Datganiad o Ddiddordeb a phrynu'r eitemau cyfalaf (er na fyddai hyn yn atal rhai o'r problemau eraill sy'n codi yn sgil oedi, megis amodau'r farchnad, cystadleuwyr, ac ati, a all effeithio ar gryfder yr achos busnes).

6.11 Ymddengys bod y problemau sy'n gysylltiedig â'r broses ymgeisio yn ymestyn y tu hwnt i'r ymateb araf a'r diffyg cyfathrebu, gan y dywedwyd bod y ffurflenni'n cymryd llawer o amser ac yn anodd eu llenwi, gan arwain at ragor yn tynnu'n ôl. Yn wir, dyma'r rhwystr a grybwyllwyd amlaf gan ymgeiswyr. Cymaint oedd yr anhawster wrth gwblhau'r broses nes i'r rhan fwyaf o fuddiolwyr fynd ar ofyn cymorth allanol a thalodd 38% am ymgynghorwyr annibynnol. Mae hyn, yn ein barn ni, wedi creu problemau ynghylch natur deg y cynlluniau, gan iddynt dueddu at fusnesau a allai dalu ymgynghorwyr allanol i gwblhau'r ceisiadau drostynt. Yn ogystal, mae'n ymddangos ei fod wedi tanseilio'r broses arfarnu, lle gallai ymgynghorwyr â'r 'wybodaeth' berthnasol 'dicio'r blychau cywir' i gael ceisiadau drwy'r meini prawf sgorio, hyd yn oed os nad nhw oedd y prosiectau mwyaf priodol o reidrwydd. Am y rheswm hwnnw, deallwn fod y cynllun newydd wedi strwythuro'r gwerthusiad yn wahanol i wneud y meini prawf sgorio yn llai seiliedig ar naratif ac yn llai agored i ddylanwad trydydd parti.

- Argymhelliad 10: Dylid ystyried y broses ymgeisio ymhellach er mwyn gallu casglu'r wybodaeth angenrheidiol yn effeithlon ac yn deg i gefnogi asesu ceisiadau yn effeithiol. Dylid naill ai symleiddio'r broses i sicrhau bod busnesau'n gallu ei gwneud ar eu pen eu hunain neu dylai fod lefel gyson o gefnogaeth i bob ymgeisydd i wneud y cynllun mor hygyrch â phosibl a sicrhau chwarae teg. Mae'r ychwanegedd uchel a nodir yn y cynlluniau gwerthuso hyn yn awgrymu bod y broses arfarnu wedi bod yn effeithiol o ran sicrhau nad yw'r busnesau hynny sy'n gallu ariannu'r prosiectau eu hunain yn cael y cymorth. Yn wir, roedd elfen benodol yn y broses arfarnu a oedd yn benodol yn ystyried ychwanegedd.
- Argymhelliad 11: Dylai'r cynllun nesaf gadw arferion tebyg o ran pwyso a mesur a allai prosiectau gael eu cyflawni heb arian cyhoeddus (a gwneud gwelliannau pellach lle bo'n briodol).

6.12 Elfen arall a gyflwynir yn y cynllun nesaf yw ffurfioli'r cysyniad o arwyddo cytundeb economaidd ar adeg gwneud cais am gymorth. Credwn fod hwn yn ychwanegiad synhwyrol a ddylai sicrhau, os caiff ei wneud yn dda, bod buddiolwyr yn cyflawni rhai o'r amcanion strategol ehangach o ran gwaith teg a chynaliadwyedd.

6.13 Canfu ein gwerthusiad broblemau yn ymwneud ag oedi a chyfnodau aros hir, diffyg cymorth ar gael, a diffyg cyfathrebu yn ystod y broses hawlio yn ogystal â'r cam ymgeisio. Yn ogystal, roedd y system TG a ddefnyddiwyd ar gyfer y cynlluniau wedi bod yn ffynhonnell rwystredigaeth arall ac wedi arwain at oedi pellach. Cynigiodd rhai aelodau o'r tîm cyflawni y byddai'r cynlluniau wedi gweithio'n well pe baent yn cael eu gweithredu'n gyfan gwbl o fewn yr Is-adran Fwyd, er yr ymddengys mai'r broblem bennaf yw diffyg adnoddau.

- Argymhelliad 12: Dylid cryfhau'r rheolaeth ar y broses hawlio yn y cynllun nesaf, lle dylai adnoddau ychwanegol fod yn brif flaenoriaeth.

6.14 Mae aliniad da rhwng y cynlluniau grant cyfalaf hyn a darpariaethau cymorth eraill yn y sector sy'n canolbwyntio ar gefnogaeth datblygu busnes, uwchsgilio ac arloesi. Cafodd y rhan fwyaf o fuddiolwyr gymorth gan rai o'r gwasanaethau eraill hynny hefyd oherwydd fod yr hyn maent yn ei gynnig yn cyd-fynd â'i gilydd fel pecyn. Mae gwasanaethau eraill hefyd wedi cael dylanwad uniongyrchol ar gyflenwi, gan weithredu fel llwybr pwysig i wneud busnesau'n ymwybodol o'r cynlluniau, ac roedd un rhan o bump o'r buddiolwyr wedi cael cymorth gan y gwasanaethau eraill hyn i

lywio drwy'r broses ymgeisio. Fodd bynnag, achlysurol oedd y cysylltiadau hyn. Ni chawsant eu cynnig a'u cyflenwi'n gyson, sy'n codi cwestiynau pellach ynghylch natur deg y cynlluniau – mae'n bosibl iawn fod mantais i fusnesau sy'n digwydd ymgysylltu â gwasanaethau eraill.

- Argymhelliad 13: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried integreiddio'r cynlluniau ymhellach i safoni'r math o gymorth y mae busnesau'n ei gael sy'n gysylltiedig â'r cyllid grant. Er enghraifft, un cam syml posibl fyddai rhoi gwybod i bob busnes am y cymorth sydd ar gael gan ddarparwyr eraill yn ystod yr ymgysylltu cychwynnol. Gallai'r tîm hefyd weithio ochr yn ochr â darparwr arall, fel Busnes Cymru neu Cywain, i greu cymorth sy'n bwrpasol ar gyfer pob ymgeisydd pe bai ei angen arnynt.

**Crynodeb**

6.15 Er gwaethaf yr heriau niferus yn ymwneud â gweinyddu'r cyllid grant, mae'r FBIS a'r RBISF wedi cyfrannu'n gadarnhaol at dwf busnesau a gynorthwyir yn y sector bwyd a diod yng Nghymru. Gan fod cynllun grant newydd eisoes wrthi'n cael ei gyflwyno, gallwn ddisgwyl i ddarparu cymorth cyfalaf barhau i fod yn rhan o gefnogi busnesau o'r fath. Wedi dweud hynny, mae llawer o welliannau y gellir eu gwneud i'r cynlluniau ar lefel ymarferol ac, yn bwysicach, o ran egluro'r sefyllfa strategol. Gobeithiwn y bydd y canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn helpu i lywio a gwella'r broses barhaus o ddarparu cymorth i'r sector bwyd a diod.

## Atodiad A: Cwestiynau Cyfweliad i'r Tîm Cyflawni

Perfformiad cynnal y cynlluniau

1. Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi â'r modd y cafodd cynlluniau'r FBIS a'r RBISF eu cynnal?
    a. I ba raddau y mae'r cynlluniau wedi'u cynnal fel y bwriadwyd?
    b. Pa newidiadau a wnaed, os o gwbl?
        i. Pam y gwnaed y newidiadau hyn?
2. Pa ffactorau yn nyluniad y cynllun oedd yn addas neu'n anaddas i gyflawni'r amcanion strategol fel yr oeddent ar y pryd?
    a. Holwch ynghylch maint y grantiau, cyllid a gweithgareddau cymwys, maint yr ymyrraeth
    b. I ba raddau yr oedd y meini prawf asesu yn cyd-fynd â nodau strategol Llywodraeth Cymru fel yr oeddent ar y pryd?
3. A ydych yn meddwl bod digon o farchnata wedi bod ar y cynlluniau i godi ymwybyddiaeth ar draws y sector, gan gynnwys grwpiau anos eu cyrraedd?
    a. Beth oedd y dulliau marchnata mwyaf effeithiol a ddefnyddiwyd?
    b. Ydych chi'n meddwl y dylai'r cynlluniau hyn gael eu hyrwyddo'n wahanol yn y dyfodol?
        i. Os ydych, sut?
4. Pa mor effeithiol y gweithredwyd y prosesau Datganiad o Ddiddordeb, gwneud cais ac arfarnu?
    a. Pa rwystrau, os rhai o gwbl, a effeithiodd ar y prosesau gwneud cais ac arfarnu, e.e. amser byr cyn dechrau, oedi, cymhlethdod?
        i. Pa mor bwysig oedd y problemau hyn?
        ii. Sut ceisiodd y tîm cyflawni ddatrys y problemau hyn?
            - Pa mor effeithiol oedd y dull hwnnw?
        iii. Ydych chi'n meddwl y dylid cynnal y prosesau hyn yn wahanol yn y dyfodol?
            - Os ydych, sut?
    b. I ba raddau yr oedd y cynlluniau wedi ymgysylltu â'r busnesau mwyaf priodol yn eich barn chi?
        i. Ydych chi'n credu y dylai cynlluniau fel y rhain gael eu targedu'n well neu eu gadael yn agored?

    c. I ba raddau y mae'r broses arfarnu wedi sicrhau bod buddiolwyr yn ymrwymo i'r 'contract economaidd', e.e. drwy ymrwymo i'r nodau datblygu cynaliadwy a nodir yn eu Datganiad o Ddiddordeb?

5. Pa mor effeithiol wnaeth y cynlluniau integreiddio ag ymyraethau eraill yn y sector bwyd a diod yng Nghymru?
    a. Holwch: e.e. defnyddio arbenigedd Prosiect Helix neu'r Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy i sicrhau bod y buddsoddiadau yn dechnegol gadarn ac yn ariannol ddarbodus?
6. I ba raddau y mae'r cynlluniau wedi'u rheoli'n effeithiol, e.e. o ran y broses hawlio a'r system gyfathrebu rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru ac ymgeiswyr/buddiolwyr y cynllun?
    a. A fyddech yn newid rheolaeth cynlluniau tebyg yn y dyfodol?
        i. Os byddech, pa newidiadau fyddech chi'n eu gwneud?
    b. A oedd y trefniadau monitro yn briodol o ran casglu data digonol?
        i. Pa mor hawdd ei reoli oedd y broses hon?
7. I ba raddau y rhoddwyd digon o gefnogaeth i fuddiolwyr ar ôl iddynt gael y cymorth?
    a. A fyddech chi'n gwneud unrhyw newidiadau i hyn yn y dyfodol?
        i. Os byddech, pa newidiadau fyddech chi'n eu gwneud?
8. Pa effaith, os o gwbl, y mae ffactorau allanol fel Brexit, COVID-19, a chwyddiant wedi'u cael ar y cyflawni?

Effeithiau

9. I ba raddau y mae'r cynlluniau wedi cyflawni'r prif nodau ac amcanion, h.y.:
    a. datblygu capasiti a'r gallu i brosesu bwyd yng Nghymru?
    b. creu cadwyni cyflenwi byrrach?
    c. cadw mwy o wariant y gadwyn gyflenwi yng Nghymru?
    d. creu twf a datblygu sector mwy cynaliadwy?
10. I ba raddau y mae'r cynlluniau wedi cefnogi buddsoddiadau na fyddai wedi digwydd heb y cymorth?
    a. I ba raddau y mae'r cynlluniau wedi llwyddo i sicrhau bod y buddsoddiadau yn osgoi disodli neu'n dadleoli gweithgarwch a thwf busnesau bwyd a diod eraill Cymru?
11. I ba raddau y mae'r FBIS wedi gwella natur gystadleuol cynhyrchwyr cynradd drwy eu hintegreiddio yn y gadwyn bwyd-amaeth?
12. I ba raddau y mae'r RBISF wedi hwyluso arallgyfeirio, creu a datblygu mentrau bach yn ogystal â chreu swyddi?

13. I ba raddau y mae'r cynlluniau wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus â thair thema drawsbynciol Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw, Datblygu Cynaliadwy, a Mynd i'r Afael â Thlodi ac Allgáu Cymdeithasol?
    a. A allwch roi enghreifftiau da i ni o'r cynlluniau yn cyflawni yn erbyn y themâu hyn?
14. I ba raddau y mae'r cynlluniau wedi cyfrannu at amcanion trawsbynciol yn ymwneud ag arloesi, yr amgylchedd, a lliniaru newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo?
15. I ba raddau y mae'r cynlluniau wedi cefnogi ymrwymiadau strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru sef Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr?
16. I ba raddau y byddech yn dweud bod y cynlluniau'n gyson â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)?

Myfyrdodau i gloi

17 O edrych yn ôl, a ydych chi'n meddwl y dylai'r cynlluniau fod wedi'u dylunio neu eu cynnal yn wahanol? Os ydych, sut?
    a. A fyddech yn gwneud unrhyw newidiadau mewn cynlluniau yn y dyfodol? Os byddech, pa newidiadau fyddech chi'n eu gwneud?
18. Yn seiliedig ar eich profiad o gynnal y cynlluniau hyn, a ydych chi'n meddwl bod rhai mathau o fuddsoddiadau wedi cael mwy o effaith nag eraill (e.e. o ran y math o weithgareddau sy'n cael buddsoddiad, proseswyr yn erbyn cynhyrchwyr cynradd, ac ati)?
19. I ba raddau y mae'r cynlluniau wedi dangos bod sail resymegol gref dros roi grantiau buddsoddi cyfalaf i gefnogi prosesu yn y diwydiant bwyd a diod?
    a. I ba raddau y mae'r cynlluniau hyn yn cynrychioli'r defnydd gorau o fuddsoddiad i gefnogi'r sector?
    b. Sut maen nhw'n cyd-fynd ag amcanion polisi cyfredol fel y nodir yn y weledigaeth strategol?
20. A gredwch chi y dylai'r math hwn o ddarpariaeth fod yn rhan o'r cynnig ar gyfer y sector bwyd a diod y tu hwnt i gyfnod ariannu'r RDP sy'n dod i ben yn 2023?
21. Yn olaf, a oes unrhyw beth nad yw wedi'i gynnwys yn y cyfweliad hwn yr hoffech ei ychwanegu neu unrhyw beth pwysig i sôn amdano ynghylch y gwerthusiad hwn?

## Atodiad B: Cwestiynau Cyfweliad i Randdeiliaid Allanol

Eich prosiect

1. A allwch roi trosolwg o'r prosiect yn y sector bwyd yr ydych yn rhan ohono?
   a. Sut fyddech chi'n disgrifio'r model cyflawni ar gyfer eich prosiect a'r math o gymorth y mae'n ei gynnig?
   b. Pa fath o fuddiolwyr (a faint ohonynt) y mae eich prosiect yn eu cefnogi?
   c. Beth yw'r sail resymegol dros y prosiect? Mewn geiriau eraill, pam mae ei angen?
   d. Sut byddech chi'n egluro beth mae eich prosiect yn ceisio ei gyflawni?
      i. Sut mae diwedd amcan terfynol y prosiect yn edrych?
      ii. Eglurwch y math o effeithiau amgylcheddol ac economaidd a ddisgwylir o'r prosiect.
2. Sut mae eich prosiect yn cyfrannu at amcanion polisi Llywodraeth Cymru a'r UE?
3. I ba raddau y mae eich prosiect yn ychwanegu gwerth at y math o gymorth sydd eisoes yn bodoli ar gyfer y sector bwyd a diod yng Nghymru?
   a. Sut mae eich prosiect yn ychwanegu gwerth at gynlluniau'r FBIS a'r RBISF neu'n gweithio gyda nhw?
4. A allwch chi ddisgrifio'r math o weithgareddau monitro a gwerthuso sy'n gysylltiedig â'ch prosiect?
   a. Pa fath o ddata ydych chi'n ei gadw?
   b. A oes unrhyw werthusiadau allanol wedi'u cynnal neu ar fin cael eu cynnal?
   c. A fyddech chi'n gallu rhannu'r wybodaeth hon at ddibenion ein hadolygiad? Os ydych, pryd?

Yr FBIS/RBISF

5. A fyddech cystal â disgrifio'ch rôl mewn perthynas â chynllun yr FBIS/RBISF?
   a. Pa fewnbwn, os o gwbl, ydych chi wedi'i gael i gynnal y cynlluniau?
   b. Pa mor aml y mae'r busnesau yr ydych yn eu cefnogi yn cymryd rhan yn y cynlluniau hyn?
6. Pa mor dda y mae eich prosiect neu gynllun wedi'i gynnal ar y cyd â'r FBIS/RBISF?
   a. Ydych chi'n credu eu bod yn ychwanegu gwerth at y prosiect/cynllun yr ydych yn ei gynnal?
      i. Sut maen nhw'n gwneud hynny?
   b. A oes adegau pan maen nhw'n gorgyffwrdd?
      i. Os oes, sut mae hynny'n cael ei reoli?

7. Pa mor effeithiol y cafodd cynlluniau'r FBIS a'r RBISF eu cynnal, yn eich barn chi?
    a. A ydych o'r farn eu bod wedi'u dylunio'n briodol?
        i. A oedd maint y cynlluniau grant yn briodol?
        ii. A oedd maint yr ymyrraeth yn briodol?
        iii. A oedd agweddau eraill, megis y meysydd ariannu a gweithgareddau cymwys, yn briodol?
    b. A ydych chi'n meddwl bod y cynlluniau wedi cefnogi set briodol o fusnesau?
8. Beth oedd prif effeithiau cynlluniau'r FBIS a'r RBISF?
    a. A allwch chi ddisgrifio enghreifftiau o'r effeithiau hyn ar unrhyw un o'r busnesau rydych chi'n eu cefnogi?
9. Pa mor bwysig yw'r cynlluniau hyn wrth helpu i gyflawni'r amcanion a nodir yng ngweledigaeth strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector?
    a. Ai dyma'r defnydd gorau o adnoddau i helpu i gyflawni'r amcanion hyn?
    b. Yn olaf, a oes unrhyw beth nad yw wedi'i gynnwys yn y cyfweliad hwn yr hoffech ei ychwanegu neu unrhyw beth pwysig i sôn amdano ynghylch y gwerthusiad hwn?

## Atodiad C: Cwestiynau'r arolwg i fuddiolwyr

Adran 1: Gwybodaeth gefndir

**Proffil**

1. A fyddech gystal â rhoi'r manylion canlynol i ni? (Holwr i lenwi enw'r cyswllt ac enw'r busnes)
    a. Eich enw
    b. Eich safle neu swydd yn y cwmni (Holwr i gadarnhau mai nhw yw'r person mwyaf priodol i ateb y cwestiynau, h.y. bod ganddynt wybodaeth am y prosiect, ei effaith, a manylion ariannol y cwmni)
    c. Enw eich busnes
    d. Cod post eich busnes
    e. Y flwyddyn y cafodd eich busnes ei sefydlu
2. Cyn cael cymorth gan yr FBIS/RBISF, pa un o'r canlynol oedd yn disgrifio natur eich busnes orau?
    a. Busnes fferm heb unrhyw weithrediadau prosesu
    b. Busnes fferm oedd â gweithrediad prosesu
    c. Busnes prosesu neu weithgynhyrchu bwyd
    d. Rhywbeth arall (manylwch)
3. (Os dewiswyd a neu b) Ym mha un o'r is-sectorau canlynol yr oeddech yn gweithredu ynddynt?
    a. Gwartheg
    b. Defaid
    c. Llaeth
    d. Wyau
    e. Moch
    f. Dofednod
    g. Ŷd/grawn
    h. Rhywbeth arall (manylwch)
4. (Os dewiswyd b neu c) Pa nwyddau oeddech chi'n eu gwerthu?
    a. Cynnyrch llaeth ac wyau
    b. Melysfwyd
    c. Nwyddau eraill wedi'u pobi
    d. Jamiau/mêl
    e. Pupur a halen/sbeisys/sesnin

f. Cig coch
g. Pwdinau
h. Gweithgynhyrchu te a choffi
i. Cynnyrch cig coch
j. Bwydydd wedi'u paratoi/prydau parod
k. Diodydd alcoholaidd
l. Ffrwythau a llysiau
m. Diodydd nad ydynt yn alcoholaidd
n. Dofednod a helgig
o. Pysgod a bwyd môr
p. Bara/ŷd/grawn
q. Bwyd sych
r. Rhywbeth arall

5. A allwch chi ddweud beth oedd eich sgôr hylendid bwyd cyn i chi gael cymorth gan yr FBIS/RBISF? (graddfa 1–5)
6. Hyd y gallwch gofio, pryd wnaethoch chi (mis a blwyddyn):
    a. Edrych gyntaf ar gael cymorth gan yr FBIS/RBISF?
    b. Cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb?
    c. Cael y taliad grant cyntaf?
    d. Gwneud y buddsoddiad?
7. Cyn i chi gael cymorth gan yr FBIS/RBISF, beth oedd eich llwybrau i'r farchnad? Mewn geiriau eraill, sut oeddech chi fel arfer yn gwerthu eich nwyddau? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)
    a. Siopau fferm
    b. Marchnadoedd ffermwyr
    c. Siopau a mannau gwerthu lleol/annibynnol
    d. Cwmnïau prosesu lleol
    e. Manwerthwyr/cyfanwerthwyr cenedlaethol
    f. Nwyddau wedi'u hallforio
    g. Gŵyl neu ddigwyddiad
    h. Cynlluniau bocsys bwyd
    i. Ar-lein
    j. Contractau'r sector cyhoeddus
    k. Arall

8. Cyn i chi gael cymorth gan yr FBIS/RBISF, a oeddech chi wedi ennill unrhyw un o'r achrediadau canlynol?
   a. BRC 8
   b. Safon SALSA
   c. LEAF
   d. Safon y Tractor Coch
   e. B-Corp
   f. RSPCA Assured
   g. Y Ddraig Werdd
   h. Tystysgrif Cynllun Gwarant Fferm Da Byw
   i. Dim
9. A allwch chi ddisgrifio'r uchelgeisiau ar gyfer eich busnes cyn gwneud cais am gymorth?
   a. A oedd eich busnes wrthi'n tyfu ac/neu a oeddech yn cynllunio ar gyfer twf ar y pryd?
   b. Pa rôl oedd gan fuddsoddiad yr FBIS/RBISF mewn unrhyw gynllun twf?
10. (Oes oeddech yn cynllunio ar gyfer tyfu) A oedd unrhyw rwystrau yn eich atal rhag cyflawni eich cynlluniau twf?
   a. Cael gafael ar gyllid
   b. Diffyg capasiti cynhyrchu
   c. Adeiladau/eiddo
   d. Dim sgiliau iawn yn y tîm
   e. Rhywbeth arall (manylwch)
   f. Dim rhwystrau
11. Yn y gorffennol, ydych chi wedi cael cymorth cyfalaf gan ddarparwyr eraill: (Do/Naddo)
   a. cymorth grant gan gynlluniau cymorth eraill?
   b. cyllid i'w ad-dalu o gynlluniau cymorth eraill neu fenthycwyr masnachol?
12. (Os Do) Eglurwch sut wnaethoch chi ddefnyddio'r cymorth cyfalaf.
   a. Ym mha flwyddyn wnaethoch chi gael y cymorth cyfalaf hwn?
13. A ydych wedi cael unrhyw fath arall o gymorth gan ddarparwyr eraill yn y gorffennol?
   a. Cywain
   b. Sgiliau Bwyd Cymru
   c. Prosiect Helix (canolfannau arloesi)
   d. Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy Bwyd a Diod

e. Clwstwr arall (manylwch)
f. Busnes Cymru
g. Cyswllt Ffermio
h. Darpariaeth arall (manylwch)
i. Dim

14. Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf cyn cael y grant gan yr FBIS/RBISF, faint o bobl oeddech chi'n eu cyflogi fel arfer (h.y. cyfanswm nifer y staff) ar gyfartaledd?
    a) Llawn amser
    b) Rhan-amser
    c) Gweithwyr asiantaeth
15. Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf cyn cael y grant gan yr FBIS/RBISF, beth oedd eich trosiant a'ch elw/colled?
    a. Trosiant
    b. Elw/colled
16. Tua pha gyfran o'ch cyflogeion (18+) a oedd yn cael y Cyflog Byw cyn cael y cymorth? (Noder: cyfradd y DU fel y'i diffinnir gan y Living Wage Foundation oedd £8.45 yn 2016, £8.75 yn 2017, £9 yn 2018, £9.30 yn 2019, £9.50 yn 2020, a £9.90 yn 2021 — dyfynnwch y ffigur perthnasol ar sail pryd y derbyniodd y buddiolwr y grant gyntaf — gweler Cwestiwn 5)
17. Tua pha gyfran o'ch cyflogeion oedd yn weithwyr ar gontract dim oriau cyn derbyn y cymorth?

**Ymgysylltu â'r FBIS/yr RBISF**

18. Sut daethoch chi i wybod am y cymorth grant drwy'r FBIS/RBISF?
    a. Gwefan neu gyhoeddiadau Llywodraeth Cymru (e.e. cylchlythyr Gwlad a gwefan Datblygu Gwledig)
    b. Y cyfryngau cymdeithasol
    c. Mewn digwyddiad
    d. Atgyfeirio o gynlluniau eraill (e.e. Cywain, Helix, Sgiliau Bwyd Cymru, Cyswllt Ffermio — manylwch)
    e. Rhywun wedi dweud
    f. Rhywbeth arall (manylwch)
19. Ar raddfa o 1–5, lle mae 1 yn 'Ddim o gwbl' a 5 yn 'I raddau helaeth', i ba raddau ydych chi'n credu bod y cynlluniau'n adnabyddus ymhlith cynhyrchwyr a phroseswyr bwyd a diod yng Nghymru?

a. 1 – Ddim o gwbl
b. 2 – Ychydig
c. 3 – Rhywfaint
d. 4 – Yn fawr
e. 5 – I raddau helaeth

**Ynghylch y buddsoddiad**

20. Beth oedd eich prif resymau dros wneud cais am grant gan yr FBIS/RBISF?
    a. Cynyddu capasiti ac allbwn i ateb y galw
    b. Mynd i'r afael â diffyg capasiti prosesu lleol (o fewn radiws o 35 milltir)
    c. Arallgyfeirio i brosesu
    d. Cyflenwi cwsmeriaid gwahanol/mwy o faint (e.e. archfarchnadoedd)
    e. Mynd i farchnadoedd newydd, gwahanol
    f. Ehangu marchnadoedd sy'n bodoli eisoes
    g. Effeithlonrwydd/arloesi i leihau costau
    h. Newid i dechnolegau carbon is
    i. Tyfu/cyflymu twf y busnes
    j. Cynyddu/diogelu cyflogaeth
    k. Rhywbeth arall
21. (Os dewiswyd e) Disgrifiwch pa fath o farchnadoedd newydd yr oeddech yn ceisio mynd i mewn iddynt. (Holwch, er enghraifft, rhestrau archfarchnadoedd, allforio, cyfleoedd caffael cyhoeddus)
22. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio ar gyfer beth oedd eich buddsoddiad? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)
    a. Cael cyfarpar mwy effeithlon (e.e. mwy awtomataidd, ynni-effeithlon, ac ati) yn lle'r offer presennol
    b. Prynu offer i ddatblygu gallu newydd
    c. Prynu offer i gynyddu cynhyrchiant (h.y. drwy gynyddu allbwn ac/neu leihau costau)
    d. Prynu eiddo newydd/ehangu eiddo presennol i dyfu
    e. Rhywbeth arall (manylwch)
23. A oedd yna gyfyngiadau ariannol a oedd yn eich atal rhag gwneud y buddsoddiad heb gymorth grant? (Oedd/Nac oedd)
    a. (Os Oedd) Beth oedd y rhain?

b. (Os Nac oedd) Eglurwch pam y gwnaethoch ddewis peidio â gwneud y buddsoddiad heb gymorth grant gan yr FBIS/RBISF.
c. (Os Oedd) A wnaethoch chi chwilio am ffynonellau cyllid posibl eraill (e.e. benthyciadau/cyllid grant arall)?
    i. (Os Do) Manylwch ynghylch pa ffynonellau cyllid eraill yr oeddech wedi'u hystyried (benthyciadau neu arian grant).
    ii. (Os Do) Beth wnaeth eich arwain i wneud cais am grant yr FBIS/RBISF yn hytrach na'r ffynonellau cyllid eraill hyn? (Cwestiwn caeedig: rhwyddineb y broses, llai o risg, dim ad-daliad, rhywbeth arall (manylwch))

**Adran 2: Y broses gwneud cais**

24. Pa mor fodlon oeddech chi gyda'r Datganiad o Ddiddordeb a'r broses ymgeisio lawn?

| | **Cam Datganiad o Ddiddordeb** | **Cais llawn** |
|---|---|---|
| Bodlon iawn | | |
| Bodlon | | |
| Ddim yn fodlon nac yn anfodlon | | |
| Anfodlon | | |
| Anfodlon iawn | | |

25. Beth oedd yr heriau, os oedd rhai o gwbl?
26. A ydych yn teimlo i chi gael digon o amser i baratoi'r cais?
    a. Ydw
    b. Nac ydw
27. Eglurwch.
28. A gawsoch chi gymorth i lywio drwy'r broses ymgeisio?
    a. Do
    b. Naddo
    c. Ddim yn siŵr
29. (Os Do) Gan bwy gawsoch chi'n cymorth hwnnw?
    a. Pa mor ddefnyddiol oedd y cymorth (graddfa: Defnyddiol iawn, Defnyddiol, Ddim yn siŵr, Ddim yn ddefnyddiol iawn, Ddim yn ddefnyddiol o gwbl)?
30. A gawsoch y swm llawn o arian grant y gwnaethoch gais amdano?
    a) Do
    b) Naddo

31. (Os Naddo) Beth oedd y rhesymau dros beidio â chael y swm llawn y gwnaethoch gais amdano?
    a. Sut gwnaethoch chi ymateb i hyn? (Cwestiwn caeedig: cael cyllid o rywle arall, cwtogi ar y prosiect, gohirio rhan ohono, rhywbeth arall [manylwch])
32. Ar raddfa o 1–5, lle mae 1 yn 'Ddim o gwbl' a 5 yn 'I raddau helaeth', i ba raddau ydych chi'n credu bod maint y grant yn briodol i'ch anghenion?
33. Pa mor fodlon oeddech chi gyda'r agweddau canlynol ar y cymorth grant? (graddfa: Bodlon iawn, Bodlon, Ddim yn fodlon nac yn anfodlon, Anfodlon, Anfodlon iawn)
    a) Maint yr ymyrraeth – 40% (arian cyfatebol 60%)
    b) Costau a gweithgareddau cymwys (e.e. roedd yn rhaid i o leiaf 90% o gynhyrchion amaethyddol cymwys ddod o fewn yr UE o dan yr FBIS)
    c) Amserlenni cymeradwyo'r grant
34. A oes gennych unrhyw sylwadau pellach ar wahanol agweddau ar y dylunio (h.y. maint y grant, maint yr ymyrraeth, cost cymwys, amserlenni)?

**Adran 3: Cymorth a chefnogaeth**

35. A gawsoch unrhyw gymorth parhaus yn dilyn dyfarnu'r grant?
    a) Do
    b) Naddo
    c) Ddim yn gwybod
36. (Os Do) Gan bwy gawsoch chi'r cymorth hwnnw?
    a. Pa fath o gymorth ydoedd?
37. (Os Do) Pa mor ddefnyddiol oedd y cymorth hwnnw?
    a) Defnyddiol iawn
    b) Defnyddiol
    c) Ddim yn siŵr
    d) Ddim yn ddefnyddiol iawn
    e) Ddim yn ddefnyddiol o gwbl
38. Pa mor fodlon oeddech chi â'r broses hawlio a monitro?
    a. Bodlon iawn
    b. Bodlon
    c. Ddim yn fodlon nac yn anfodlon
    d. Anfodlon
    e. Anfodlon iawn
39. Beth oedd yr heriau, os oedd rhai o gwbl?

40. Pa mor fodlon ydych chi wedi bod gyda'ch profiad cyffredinol o gael cymorth gan yr FBIS/RBISF?
    a) Bodlon iawn
    b) Bodlon
    c) Ddim yn fodlon nac yn anfodlon
    d) Anfodlon
    e) Anfodlon iawn

**Adran 4: Canlyniadau**

41. Yn gynharach, mi wnaethoch chi ddweud eich bod eisiau cymorth gan yr FBIS/RBISF i [ailadroddwch yr ateb i Gwestiwn 19]. Ar raddfa o 1–5, lle mae 1 yn 'Ddim o gwbl' a 5 yn 'I raddau helaeth', i ba raddau ydych chi'n credu eich bod wedi cyflawni'r amcanion hynny?
42. A allwch ddisgrifio'r hyn y mae cymorth grant yr FBIS/RBISF wedi caniatáu i chi ei wneud?
    a. I ba raddau y mae gweithrediadau eich busnes wedi newid o ganlyniad i'r cymorth hwn? A ddefnyddiwyd grant yr FBIS/RBISF i ddisodli un gweithgaredd economaidd am un arall?
43. A fyddech cystal â dweud wrthym os bu unrhyw newid yn y canlynol ers i chi dderbyn cymorth yr FBIS/RBISF?
    a. Gallu eich busnes i ymateb i gyfleoedd newydd
    b. Eich gallu i gynhyrchu incwm
    c. Proffidioldeb eich busnes
    d. Eich uchelgais ar gyfer eich busnes
44. Ar raddfa o 1–5, lle mae 1 yn 'Ddim o gwbl' a 5 yn 'I raddau helaeth', i ba raddau y mae'r newidiadau hynny yn ganlyniad i'r cymorth gan yr FBIS/RBISF?
45. A yw buddsoddiad yr FBIS/RBISF wedi arwain at unrhyw un o'r newidiadau neu fuddion canlynol i'ch busnes?
    a. (Os ydynt yn gwmni prosesu, h.y. wedi dewis b neu c yn ateb i gwestiwn 2) Gwella gallu trwy well offer a chyfleusterau
    b. (Os ydynt yn gwmni prosesu) Gwella cynhyrchiant trwy gynyddu allbwn
    c. (Os ydynt yn gwmni prosesu) Gwella cynhyrchiant trwy ostwng costau
    d. Arallgyfeirio / mynd i mewn i farchnadoedd newydd
    e. Tyfu marchnadoedd presennol
    f. Datblygu cynhyrchion newydd

g. Gwella cynaliadwyedd eich busnes
h. Lleihau eich ôl troed carbon
i. (Os ydynt yn gwmni prosesu) Rhoi modd i chi fyrhau eich cadwyn gyflenwi drwy brynu mwy o ddeunyddiau crai gan gynhyrchwyr lleol
j. (Os ydych yn fusnes fferm, h.y. wedi dewis a neu b i gwestiwn 2) Lleihau faint o brosesu eich cynhyrchion sy'n digwydd y tu allan i Gymru

46. A allwch ddweud wrthym am unrhyw effeithiau amgylcheddol yn sgil y buddsoddiad a wnaed, os rhai o gwbl? Er enghraifft, a yw wedi cynhyrchu effeithlonrwydd adnoddau trwy leihau ynni, dŵr, gwastraff, gwerth ychwanegol i wastraff neu sgil-gynhyrchion, neu wedi cefnogi defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy? (Do/Naddo)
47. (Os do) Dywedwch mwy. Er enghraifft, a ydych chi nawr yn gallu defnyddio llai o fewnbwn ynni/dŵr ar gyfer y cynhyrchion a gynhyrchir?
48. Wrth feddwl am y buddsoddiad a wnaethoch, beth fyddai wedi digwydd pe byddech chi ddim wedi cael y grant?
    a) Fyddwn i ddim wedi gwneud y buddsoddiad cyfalaf o gwbl
    b) Byddwn wedi gwneud y buddsoddiad ond yn ddiweddarach
    c) Byddwn wedi gwneud buddsoddiad gwahanol/ar raddfa lai ar yr un adeg
    d) Byddwn wedi gwneud buddsoddiad gwahanol/ar raddfa lai yn ddiweddarach
    e) Byddwn wedi gwneud y buddsoddiad yn union yr un ffordd
    f) Rhywbeth arall (manylwch)
49. (Os dewiswyd c neu d) Faint wnaethoch chi ei fuddsoddi mewn cyfleusterau offer newydd gyda grant yr FBIS/RBISF?
    a. Faint ydych chi'n meddwl y byddech chi wedi'i fuddsoddi heb y cymorth gan yr FBIS/RBISF?
50. Pa achrediadau sydd gan eich busnes nawr?
    a. BRC 8
    b. Safon SALSA
    c. LEAF
    d. Safon y Tractor Coch
    e. B-Corp
    f. RSPCA Assured
    g. Tystysgrif Cynllun Gwarant Fferm Da Byw
    h. Dim

51. A yw'r cymorth wedi eich helpu gyda'r canlynol? (Atebwch Do, Naddo neu Amherthnasol)
    a. Ennill gwobrau diwydiant (e.e. The Grocer Awards neu Great Taste)
    b. Codi eich sgôr hylendid bwyd
    c. Sicrhau achrediadau
    d. Dod yn sefydliad mwy cynaliadwy yn amgylcheddol
52. A yw eich prosiect wedi cael unrhyw effeithiau andwyol (e.e. effeithiau amgylcheddol negyddol o weithgarwch uwchraddio)?

**Adran effaith economaidd a GVA**

53. Ar gyfartaledd, faint o bobl oeddech chi'n eu cyflogi (cyfrif pennau) yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf ers derbyn cymorth yr FBIS/RBISF?
    a. Llawn amser
    b. Rhan-amser
    c. Gweithwyr asiantaeth
54. Beth yw trosiant ac elw/colled eich busnes ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiweddaraf ers derbyn cymorth gan yr FBIS/RBISF? Os nad ydych wedi cwblhau blwyddyn ariannol eto, amcangyfrifwch drosiant eich busnes yn y flwyddyn gyfredol.
    a. Trosiant
    b. Elw/colled
55. Gan adael grant yr FBIS/RBISF allan o'ch trosiant, pa gyfran (canran) o'ch trosiant diweddaraf y byddech chi'n ei phriodoli i'r buddsoddiad a wnaethoch drwy'r FBIS/RBISF? (Gellid egluro, os yw'r grant wedi'i gynnwys yn eu trosiant diweddaraf, y dylid eithrio hyn o'u hateb — yr holwr i ddarparu ffigur y grant)
56. Faint o gyflogeion a gweithwyr asiantaeth ydych chi'n amcangyfrif a fyddai ar eich cyflogres heddiw pe fyddech chi ddim wedi cael cymorth drwy'r FBIS/RBISF?

| | **Cyflogeion** | **Gweithwyr asiantaeth** |
|---|---|---|
| Yr un fath | | |
| Nifer uwch | | |
| Nifer llai | | |
| Ddim yn gwybod/amherthnasol | | |

57. (Os dewiswyd nifer uwch neu lai) Tua faint o gyflogeion a gweithwyr asiantaeth y byddech wedi eu cael yn lle hynny?
    a. Llawn amser

b. Rhan-amser
c. Gweithwyr asiantaeth

58. (Os yn llai) Ym mha rai o'r categorïau galwedigaeth canlynol y mae'r staff yr ydych yn eu cyflogi nawr fyddai ddim wedi cael eu cyflogi heb gymorth gan yr FBIS/RBISF?
    a. Elfennol (e.e. gweithwyr cyffredinol, warws ac amaethyddol)
    b. Prosesu, offer a pheiriannau (e.e. gweithredwyr peiriannau, cydosodwyr, gyrwyr fforch godi, gyrwyr trenau a bysys)
    c. Gwerthu a gwasanaeth cwsmeriaid
    d. Crefftau medrus (e.e. amaethyddol, adeiladu, metel a thrydanol)
    e. Galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol (e.e. ceidwaid cyfrifon a gweithwyr swyddfa)
    f. Galwedigaethau proffesiynol technegol a chysylltiol (e.e. technegwyr peirianneg a chymorth TG)
    g. Galwedigaethau proffesiynol (e.e. gwyddonwyr, penseiri, arbenigwyr TG)
    h. Prif Weithredwyr ac uwch swyddogion (e.e. cyfarwyddwyr is-adrannau, rheolwyr cynhyrchu)
59. Tua pha gyfran o'ch cyflogeion (18+) sy'n cael y Cyflog Byw Gwirioneddol ar hyn o bryd? (Cyfradd y DU fel y'i diffinnir gan y Living Wage Foundation yw £9.90 yr awr ar hyn o bryd)
60. Tua faint o'ch cyflogeion sy'n weithwyr ar gontract dim oriau ar hyn o bryd?
61. Beth yw eich llwybrau i'r farchnad ar hyn o bryd? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)
    a. Siopau fferm
    b. Marchnadoedd ffermwyr
    c. Siopau a mannau gwerthu lleol/annibynnol
    d. Cwmnïau prosesu lleol
    e. Manwerthwyr/cyfanwerthwyr cenedlaethol
    f. Nwyddau wedi'u hallforio
    g. Gŵyl neu ddigwyddiad
    h. Cynlluniau bocsys bwyd
    i. Ar-lein
    j. Contractau'r sector cyhoeddus
    k. Arall
62. Yn eich blwyddyn ariannol olaf, beth oedd gwerth y canlynol gennych, cewch roi amcangyfrif:

a. Cyfanswm eich pryniannau (h.y. cyfanswm y gwariant ar gyflenwadau fel cynhwysion, pecynnu, nwyddau atodol)?
b. (Os nad yw’n ffermio, h.y. dewis c wrth ateb cwestiwn 2) Prynu deunyddiau crai i’w prosesu?

63. Cyn i chi gael y grant, pa ganran o’r canlynol a ddigwyddai yn lleol (o fewn radiws 35 milltir), mewn mannau eraill yng Nghymru, rywle arall yn y DU, yn yr UE, neu y tu allan i’r UE?

| | **Yn eich ardal leol (o fewn radiws 35 milltir)** | **Rhywle arall yng Nghymru** | **Rywle arall yn y DU** | **Yn yr UE** | **Y tu allan i’r UE** |
|---|---|---|---|---|---|
| Prynu / gwario | | | | | |
| Eich gwerthiannau | | | | | |

64. Ar hyn o bryd, pa ganran o’r canlynol sy’n digwydd yn lleol (o fewn radiws 35 milltir), rhywle arall yng Nghymru, rywle arall yn y DU, yn yr UE, neu’r tu allan i’r UE?

| | **Yn eich ardal leol (o fewn radiws 35 milltir)** | **Rhywle arall yng Nghymru** | **Rywle arall yn y DU** | **Yn yr UE** | **Y tu allan i’r UE** |
|---|---|---|---|---|---|
| Prynu / gwario | | | | | |
| Eich gwerthiannau | | | | | |

65. (Os dywedwyd bod newid) I ba raddau (os o gwbl) y mae’r cymorth a gawsoch drwy’r FBIS/RBISF wedi dylanwadu ar newidiadau yn eich cadwyn gyflenwi o ran dosbarthiad daearyddol:

| | **I raddau helaeth** | **I ryw raddau** | **Ychydig iawn** | **Ddim o gwbl** | **Ddim yn gwybod** |
|---|---|---|---|---|---|
| Prynu / gwario | | | | | |
| Eich gwerthiannau | | | | | |

66. (Os cawsant gymorth ar ôl dechrau COVID-19 ym mis Mawrth 2020) Ar raddfa o 1–5, lle mae 1 yn ‘Ddim o gwbl’ a 5 yn ‘I raddau helaeth’, i ba raddau wnaeth COVID-19 effeithio ar eich gallu i ddefnyddio’r cymorth grant yn ôl y bwriad?
    a. Eglurwch.
67. A gafodd unrhyw faterion eraill, megis Brexit neu gynnydd mewn costau, effaith ar eich gallu i ddefnyddio’r cymorth grant yn ôl y bwriad?

Potensial i’r dyfodol

68. A ydych yn disgwyl i'r buddsoddiad a wnaed o ganlyniad i'r cymorth grant gael effaith ar eich trosiant a'ch cyflogaeth dros y flwyddyn nesaf? (Ydw/Nac ydw)

Os Nac ydw ewch i Adran 5. Os Ydw:

69. Yn ystod y 12 mis nesaf, a ydych chi'n disgwyl i nifer eich cyflogeion:
    a. Cynyddu
    b. Gostwng
    c. Aros yr un fath
    d. Ddim yn gwybod
70. (Os cynyddu) Faint o gyflogeion newydd ydych chi'n disgwyl eu cyflogi yn ystod y 12 mis nesaf?
71. Tua pha gyfran o'r newid hwn fyddech chi'n ei phriodoli i'r cymorth a gawsoch gan yr FBIS/RBISF?
    a. Dim o gwbl
    b. 0 i 20% (2)
    c. 21 i 40% (3)
    d. 41 i 60% (4)
    e. 61 i 80% (5)
    f. 81 i 100% (6)
    g. Y cyfan (7)
72. Yn ystod y 12 mis nesaf, a ydych yn disgwyl i'ch trosiant gynyddu, gostwng neu aros yr un fath?
    a. Cynyddu
    b. Gostwng
    c. Aros yr un fath
    d. Ddim yn gwybod
73. Yn fras pa lefel trosiant ydych chi'n ei ddisgwyl neu'n anelu ato yn y flwyddyn ariannol nesaf?
74. Pa gyfran o'r cynnydd blynyddol hwn mewn trosiant, os o gwbl, y byddech chi'n ei phriodoli i'r newidiadau a gyflwynwyd o ganlyniad i ymyrraeth yr FBIS/RBISF?

**Adran 5: Gorffen**

75. A oes gennych unrhyw beth i'w ychwanegu am y cymorth a gafwyd drwy'r grant?
76. Fel rhan o'r Adroddiad Gwerthuso rydym am gael ambell astudiaeth achos er mwyn dangos yr effaith y mae grantiau'r FBIS a'r RBISF wedi'i chael ar fuddiolwyr. A

fyddech chi'n hapus i ni o bosibl gynnwys eich busnes chi fel un o'r astudiaethau achos hynny?

a. Byddwn
b. Na fyddwn

77. (Os Byddwn) A fyddech chi'n fodlon i ni roi galwad byr i chi i fynd trwy rai cwestiynau pellach ar gyfer yr astudiaethau achos? Ni ddylai'r alwad gymryd mwy na 10 i 15 munud o'ch amser.

a. Byddwn
b. Na fyddwn

# Atodiad D: Cwestiynau'r arolwg i'r rheiny nad oeddent yn fuddiolwyr (Ffôn)

**Adran 1: Gwybodaeth gefndir**

1. A fyddech gystal â rhoi'r manylion canlynol i ni?
    a. Eich enw
    b. Enw eich busnes
    c. Cod post eich busnes
    d. Y flwyddyn y cafodd eich busnes ei sefydlu
2. Ydych chi'n gynhyrchydd cynradd neu'n gwmni prosesu bwyd?
    a. Busnes fferm heb unrhyw weithrediadau prosesu
    b. Busnes fferm sydd â gweithrediad prosesu
    c. Busnes prosesu neu weithgynhyrchu bwyd
    d. Rhywbeth arall (manylwch)
3. (Os dewiswyd a) Ym mha un o'r is-sectorau canlynol ydych chi'n gweithredu ynddo?
    a. Gwartheg
    b. Defaid
    c. Llaeth
    d. Wyau
    e. Moch
    f. Dofednod
    g. Ŷd/grawn
    h. Rhywbeth arall (manylwch)
4. (Os dewiswyd b) Pa nwyddau ydych chi'n eu gwerthu?
    a. Cynnyrch llaeth ac wyau
    b. Melysfwyd
    c. Nwyddau eraill wedi'u pobi
    d. Jamiau/mêl
    e. Pupur a halen/sbeisys/sesnin
    f. Cig coch
    g. Pwdinau
    h. Gweithgynhyrchu te a choffi
    i. Cynnyrch cig coch
    j. Bwydydd wedi'u paratoi/prydau parod
    k. Diodydd alcoholaidd

l. Ffrwythau a llysiau
m. Diodydd nad ydynt yn alcoholaidd
n. Dofednod a helgig
o. Pysgod a bwyd môr
p. Bara/ŷd/grawn
q. Bwyd sych
r. Rhywbeth arall

5. Cyn i chi holi ynghylch cymorth gan yr FBIS /RBSIF, beth oedd eich llwybrau i'r farchnad? Mewn geiriau eraill, sut oeddech chi fel arfer yn gwerthu eich nwyddau?
   a. Siopau fferm
   b. Marchnadoedd ffermwyr
   c. Siopau a mannau gwerthu lleol/annibynnol
   d. Cwmnïau prosesu lleol
   e. Manwerthwyr/cyfanwerthwyr cenedlaethol
   f. Nwyddau wedi'u hallforio
   g. Gŵyl neu ddigwyddiad
   h. Cynlluniau bocsys bwyd
   i. Ar-lein
   j. Contractau'r sector cyhoeddus
   k. Rhyw ffordd arall
6. Cyn i chi holi ynghylch cymorth gan yr FBIS/RBISF, a oeddech chi wedi ennill unrhyw un o'r achrediadau canlynol?
   a. BRC 8
   b. Safon SALSA
   c. LEAF
   d. Safon y Tractor Coch
   e. B-Corp
   f. RSPCA Assured
   g. Y Ddraig Werdd
   h. Tystysgrif Cynllun Gwarant Fferm Da Byw
   i. Dim
7. Cyn i chi holi am y grant gan yr FBIS/RBISF, faint o bobl oeddech chi'n eu cyflogi fel arfer (h.y. cyfanswm nifer y staff) ar gyfartaledd?
   a. Llawn amser
   b. Rhan-amser

    c. Gweithwyr asiantaeth

8. Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf cyn i chi holi am y grant gan yr FBIS/RBISF, beth oedd eich trosiant a'ch colled/elw?
    a. Trosiant
    b. Colled/elw
9. Tua pha gyfran o'ch cyflogeion a oedd yn cael eu talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol cyn i chi holi am y cymorth? (Noder: cyfradd y DU fel y'i diffinnir gan y Living Wage Foundation oedd £8.45 yn 2016, £8.75 yn 2017, £9 yn 2018, £9.30 yn 2019, £9.50 yn 2020, ac £9.90 yn 2021 — dyfynnwch y ffigur perthnasol ar sail pryd y derbyniodd y buddiolwr y grant gyntaf — gweler cwestiwn 5)
10. Tua pha gyfran o'ch cyflogeion a'ch gweithwyr asiantaeth oedd yn weithwyr contract dim oriau cyn i chi holi am y cymorth?

**Adran 2: Ymgysylltu â'r FBIS/yr RBISF**

11. Sut daethoch chi i wybod am y cymorth grant drwy'r FBIS/RBISF?
    a. Gwefan neu gyhoeddiadau Llywodraeth Cymru (e.e. cylchlythyr Gwlad a gwefan Datblygu Gwledig)
    b. Y cyfryngau cymdeithasol
    c. Mewn digwyddiad
    d. Atgyfeirio o gynlluniau eraill (e.e. Cywain, Helix, Sgiliau Bwyd Cymru, Cyswllt Ffermio — manylwch)
    e. Rhywun wedi dweud
    f. Rhywbeth arall (manylwch)
12. Ar raddfa o 1–5, lle mae 1 yn 'Ddim o gwbl' a 5 yn 'I raddau helaeth', i ba raddau ydych chi'n credu bod y cynlluniau'n adnabyddus ymhlith cynhyrchwyr a phroseswyr bwyd a diod yng Nghymru?
    a. 1 – Ddim o gwbl
    b. 2 – Ychydig
    c. 3 – Rhywfaint
    d. 4 – Yn fawr
    e. 5 – I raddau helaeth
13. Beth oedd eich prif resymau dros wneud cais am grant gan yr FBIS/RBISF?
    a. Cynyddu capasiti ac allbwn i ateb y galw
    b. Mynd i'r afael â diffyg capasiti prosesu lleol (o fewn radiws o 35 milltir).
    c. Arallgyfeirio i brosesu

d. Cyflenwi cwsmeriaid gwahanol/mwy o faint (e.e. archfarchnadoedd)
e. Mynd i farchnadoedd newydd, gwahanol
f. Ehangu marchnadoedd sy'n bodoli eisoes
g. Effeithlonrwydd/arloesi i leihau costau
h. Newid i dechnolegau carbon is
i. Tyfu/cyflymu twf y busnes
j. Cynyddu/diogelu cyflogaeth
k. Rhywbeth arall

14. Pam wnaethoch chi ddim cael cymorth grant gan yr FBIS/RBISF?
    a. Roedd y cais yn aflwyddiannus
    b. Nid oeddem angen prynu'r eitemau cyfalaf mwyach
    c. Cawsom hyd i ffynhonnell ariannu fwy addas
    d. Roeddem wedi llwyddo i wneud y buddsoddiad ar ein pennau ein hunain
    e. Roedd y broses ymgeisio yn rhy anodd/yn mynd â gormod o amser
    f. Rhywbeth arall
15. Eglurwch.
16. Pa mor fodlon oeddech chi gyda'r Datganiad o Ddiddordeb a'r broses ymgeisio lawn?

| | **Cam Datganiad o Ddiddordeb** | **Cais llawn** |
|---|---|---|
| Bodlon iawn | | |
| Bodlon | | |
| Ddim yn fodlon nac yn anfodlon | | |
| Anfodlon | | |
| Anfodlon iawn | | |

17. Beth oedd yr heriau, os oedd rhai o gwbl?
18. A gawsoch chi gymorth i lywio drwy'r broses ymgeisio?
    a. Do
    b. Naddo
    c. Ddim yn siŵr
19. (Os Do) Gan bwy gawsoch chi'r cymorth hwnnw?
    a. (Os Do) Pa mor ddefnyddiol oedd y cymorth? (graddfa: Defnyddiol iawn, Defnyddiol, Ddim yn siŵr, Ddim yn ddefnyddiol iawn, Ddim yn ddefnyddiol o gwbl)

**Adran 3: Ynghylch eich buddsoddiad chi**

20. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio pam yr oeddech yn chwilio am fuddsoddiad? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)
    a. Cael offer mwy effeithlon yn lle'r hen offer (e.e. mwy awtomataidd, mwy ynni-effeithlon, ac ati)
    b. Prynu offer i ddatblygu gallu newydd
    c. Prynu offer i gynyddu cynhyrchiant (h.y. drwy gynyddu allbwn ac/neu leihau costau)
    d. Prynu eiddo newydd/ehangu eiddo presennol i dyfu
    e. Rhywbeth arall (manylwch)
21. A ydych chi wedi buddsoddi mewn eitemau cyfalaf ers tynnu'n ôl/bod yn aflwyddiannus yn eich cais i'r FBIS/RBISF?
    a. Do
    b. Naddo
22. (Os Do) A ydych chi wedi prynu'r un eitemau cyfalaf ag yr oeddech wedi bwriadu defnyddio cyllid yr FBIS/RBSIF ar eu cyfer?
    a. Do
    b. Naddo
23. (Os Naddo) A oedd yr eitemau cyfalaf a brynwyd gennych yn ddrutach neu'n llai costus na'r hyn yr oeddech wedi'i gynllunio gyda chymorth FBIS/RBISF?
    a. Drutach
    b. Llai drud
    c. Tua'r un fath
24. (Os yn Ddrutach/Llai drud) Faint oeddech chi'n bwriadu ei fuddsoddi mewn eitemau cyfalaf gyda chymorth gan yr FBIS/RBISF?
25. (Os yn Ddrutach /Llai drud) Faint wnaethoch chi ei fuddsoddi mewn gwirionedd mewn eitemau cyfalaf heb gymorth yr FBIS/RBISF?
26. (Os Naddo i Gwestiwn 22) A oedd yr eitemau cyfalaf a brynwyd gennych yn fwy neu'n llai defnyddiol ac effeithiol?
    a. Mwy defnyddiol/effeithiol
    b. Llai defnyddiol/effeithiol
    c. Tua'r un fath
27. (Os dewiswyd Mwy defnyddiol/effeithiol neu Llai defnyddiol/effeithiol) a allwch chi egluro?

28. (Os Do i gwestiwn 22) A gymerodd hi fwy o amser neu lai o amser i chi wneud y buddsoddiad heb gymorth yr FBIS/RBISF?
    a. Mwy o amser
    b. Llai o amser
    c. Tua'r un fath
29. (Os dewiswyd Mwy o amser neu Lai o amser) Pryd wnaethoch chi'r buddsoddiad (mis/blwyddyn)?
30. Wrth feddwl am y rhesymau yr oeddech eisiau arian yr FBIS/RBISF er mwyn buddsoddi mewn eitemau cyfalaf, i ba raddau yr ydych wedi gallu cyflawni'r amcanion hynny heb gymorth gan y cynlluniau grant? (Graddfa o 1–5, lle mae 1 yn 'Ddim o gwbl' a 5 yn 'I raddau helaeth')
31. Eglurwch pa wahaniaeth, os o gwbl, y mae diffyg cefnogaeth yr FBIS/RBISF wedi'i wneud i'ch busnes.

**Adran 4: Gorffen**

34. Ar gyfartaledd, faint o bobl oeddech chi'n eu cyflogi (cyfrif pennau) yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf ers holi am gymorth yr FBIS/RBISF?
    a. Llawn amser
    b. Rhan-amser
    c. Gweithwyr asiantaeth
35. Beth yw trosiant ac elw/colled eich busnes ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiweddaraf ers derbyn cymorth gan yr FBIS/RBISF? Os nad ydych wedi cwblhau blwyddyn ariannol eto, amcangyfrifwch drosiant eich busnes yn y flwyddyn gyfredol.
    a. Trosiant
    b. Colled/elw
36. Pa achrediadau sydd gan eich busnes nawr, os oes gennych rai o gwbl?
    a. BRC 8
    b. Safon SALSA
    c. LEAF
    d. Safon y Tractor Coch
    e. B-Corp
    f. RSPCA Assured
    g. Y Ddraig Werdd
    h. Tystysgrif Cynllun Gwarant Fferm Da Byw
    i. Dim

37. Tua pha gyfran o’ch cyflogeion sy’n cael y Cyflog Byw Gwirioneddol ar hyn o bryd? (Cyfradd y DU fel y’i diffinnir gan y Living Wage Foundation yw £9.90 yr awr ar hyn o bryd)
38. Tua pha gyfran o’ch cyflogeion sy’n weithwyr ar gontract dim oriau ar hyn o bryd?
39. Pa fath o gymorth fyddai’n ateb eich anghenion orau wrth symud ymlaen?
40. A oes gennych unrhyw sylwadau pellach?

## Atodiad E: Cwestiynau'r arolwg i'r rheiny nad oeddent yn fuddiolwyr (Ar-lein)

**Adran 1: Gwybodaeth gefndir**

1. A fyddech gystal â rhoi'r manylion canlynol i ni?
    a. Eich enw
    b. Enw eich busnes
    c. Cod post eich busnes
    d. Y flwyddyn y cafodd eich busnes ei sefydlu
2. Ydych chi'n gynhyrchydd cynradd neu'n gwmni prosesu bwyd?
    a. Busnes fferm heb unrhyw weithrediadau prosesu
    b. Busnes fferm sydd â gweithrediad prosesu
    c. Busnes prosesu neu weithgynhyrchu bwyd
    d. Rhywbeth arall (manylwch)
3. Cyn i chi holi ynghylch cymorth gan yr FBIS/RBISF, a oeddech chi wedi ennill unrhyw un o'r achrediadau canlynol?
    a. BRC 8
    b. Safon SALSA
    c. LEAF
    d. Safon y Tractor Coch
    e. B-Corp
    f. RSPCA Assured
    g. Y Ddraig Werdd
    h. Tystysgrif Cynllun Gwarant Fferm Da Byw
    i. Dim
4. Cyn i chi holi am y grant gan yr FBIS/RBISF, faint o bobl oeddech chi'n eu cyflogi fel arfer (h.y. cyfanswm nifer y staff) ar gyfartaledd?
    a. Llawn amser
    b. Rhan-amser
    c. Gweithwyr asiantaeth
5. Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf cyn i chi holi am y grant gan yr FBIS/RBISF, beth oedd eich trosiant a'ch colled/elw?
    a. Trosiant
    b. Colled/elw

**Adran 2: Ymgysylltu â’r FBIS/RBISF**

6. Sut daethoch chi i wybod am y cymorth grant drwy’r FBIS/RBISF?
    a. Gwefan neu gyhoeddiadau Llywodraeth Cymru (e.e. cylchlythyr Gwlad a gwefan Datblygu Gwledig)
    b. Y cyfryngau cymdeithasol
    c. Mewn digwyddiad
    d. Atgyfeirio o gynlluniau eraill (e.e. Cywain, Helix, Sgiliau Bwyd Cymru, Cyswllt Ffermio – manylwch)
    e. Rhywun wedi dweud
    f. Rhywbeth arall (manylwch)
7. Beth oedd eich prif resymau dros wneud cais am grant gan yr FBIS/RBISF?
    a. Cynyddu capasiti ac allbwn i ateb y galw
    b. Mynd i’r afael â diffyg capasiti prosesu lleol (o fewn radiws o 35 milltir).
    c. Arallgyfeirio i brosesu
    d. Cyflenwi cwsmeriaid gwahanol/mwy o faint (e.e. archfarchnadoedd)
    e. Mynd i farchnadoedd newydd, gwahanol
    f. Ehangu marchnadoedd sy’n bodoli eisoes
    g. Effeithlonrwydd/arloesi i leihau costau
    h. Newid i dechnolegau carbon is
    i. Tyfu/cyflymu twf y busnes
    j. Cynyddu/diogelu cyflogaeth
    k. Rhywbeth arall
8. Pam wnaethoch chi ddim cael cymorth grant gan yr FBIS/RBISF?
    a. Roedd y cais yn aflwyddiannus
    b. Nid oeddem angen prynu’r eitemau cyfalaf mwyach
    c. Cawsom hyd i ffynhonnell ariannu fwy addas
    d. Roeddem wedi llwyddo i wneud y buddsoddiad ar ein pennau ein hunain
    e. Roedd y broses ymgeisio yn rhy anodd/yn mynd â gormod o amser
    f. Rhywbeth arall

9. Pa mor fodlon oeddech chi â'r Datganiad o Ddiddordeb a'r broses ymgeisio lawn?

| | Cam Datganiad o Ddiddordeb | Cais llawn |
|---|---|---|
| Bodlon iawn | | |
| Bodlon | | |
| Ddim yn fodlon nac yn anfodlon | | |
| Anfodlon | | |
| Anfodlon iawn | | |

10. A gawsoch chi gymorth i lywio drwy'r broses ymgeisio?
    a. Do
    b. Naddo
    c. Ddim yn siŵr

**Adran 3: Ynghylch eich buddsoddiad chi**

11. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio pam yr oeddech yn chwilio am fuddsoddiad? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)
    a. Cael offer mwy effeithlon yn lle'r hen offer (e.e. mwy awtomataidd, mwy ynni-effeithlon, ac ati)
    b. Prynu offer i ddatblygu gallu newydd
    c. Prynu offer i gynyddu cynhyrchiant (h.y. drwy gynyddu allbwn ac/neu leihau costau)
    d. Prynu eiddo newydd/ehangu eiddo presennol i dyfu
    e. Rhywbeth arall (manylwch)
12. A ydych chi wedi buddsoddi mewn eitemau cyfalaf ers tynnu'n ôl/bod yn aflwyddiannus yn eich cais i'r FBIS/RBISF?
    a. Do
    b. Naddo
13. (Os Do) A ydych chi wedi prynu'r un eitemau cyfalaf ag yr oeddech wedi bwriadu defnyddio cyllid yr FBIS/RBSIF ar eu cyfer?
    a. Do
    b. Naddo
14. (Os Naddo) A oedd yr eitemau cyfalaf a brynwyd gennych yn ddrutach neu'n llai costus na'r hyn yr oeddech wedi'i gynllunio gyda chymorth yr FBIS/RBISF?
    a. Drutach
    b. Llai drud

    c. Tua'r un fath

15. (Os Naddo i Gwestiwn 13) A oedd yr eitemau cyfalaf a brynwyd gennych yn fwy neu'n llai defnyddiol ac effeithiol?
    a. Mwy defnyddiol/effeithiol
    b. Llai defnyddiol/effeithiol
    c. Tua'r un fath
16. (Os Do i Gwestiwn 13) A gymerodd hi fwy o amser neu lai o amser i chi wneud y buddsoddiad heb gymorth yr FBIS/RBISF?
    a. Mwy o amser
    b. Llai o amser
    c. Tua'r un fath
17. Wrth feddwl am y rhesymau yr oeddech eisiau arian yr FBIS/RBISF er mwyn buddsoddi mewn eitemau cyfalaf, i ba raddau yr ydych wedi gallu cyflawni'r amcanion hynny heb gymorth gan y cynlluniau grant? (Graddfa o 1–5, lle mae 1 yn 'Ddim o gwbl' a 5 yn 'I raddau helaeth')

**Adran 4: Gorffen**

41. Ar gyfartaledd, faint o bobl oeddech chi'n eu cyflogi (cyfrif pennau) yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf ers holi am gymorth yr FBIS/RBISF?
    a. Llawn amser
    b. Rhan-amser
    c. Gweithwyr asiantaeth
42. Beth yw trosiant ac elw/colled eich busnes ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiweddaraf ers derbyn cymorth gan yr FBIS/RBISF? Os nad ydych wedi cwblhau blwyddyn ariannol eto, amcangyfrifwch drosiant eich busnes yn y flwyddyn gyfredol.
    a. Trosiant
    b. Elw/colled
43. A oes gennych unrhyw sylwadau pellach?

## Atodiad F: Theori Newid ar gyfer yr FBIS a'r RBISF

<table>
<tr><td colspan="4">Sail resymegol: Mae angen i fusnesau bwyd a diod wneud buddsoddiadau sylweddol yn eu hoffer a'u cyfleusterau prosesu er mwyn tyfu eu busnes. Ychydig o gyfleoedd sydd i fusnesau bwyd a diod gael gafael ar gymorth grant cyfalaf, gan gynnwys drwy fenthycwyr masnachol. Felly, mae eu gallu i fuddsoddi yn gyfyngedig.<br>Nodau: Mae'r cynlluniau'n rhoi buddsoddiad grant cyfalaf i helpu busnesau i arloesi a thyfu. Maent yn ategu darpariaethau cymorth presennol eraill sydd ar gael i fusnesau bwyd a diod, a'r rhain oll, gyda'i gilydd, yn ceisio mynd i'r afael â goruchafiaeth microfentrau a'r diffyg symud drwy gategorïau maint busnes (o ficro i fach, i ganolig, i fawr). Maent hefyd wedi'u cynllunio i helpu nodau strategol Llywodraeth Cymru i gael y sector i fod yn fwy cynaliadwy a chynyddu sicrwydd bwyd yn lleol.</td></tr>
<tr><td>Mewnbynnau↓</td><td>Allbynnau ↓</td><td>Canlyniadau tymor canolig B →</td><td>Effeithiau</td></tr>
<tr><td>• Cyllideb o £68.5m ar gyfer y ddau gynllun o'r RDP<br>• Arian cyfatebol gan gyfranogwyr (60% o'r costau)<br>• Gwybodaeth, cysylltiadau a phrofiad staff y cynllun</td><td>• Nifer yr ymholiadau a cheisiadau<br>• Buddsoddi wedi'i wneud mewn offer a chyfleusterau<br>• Nifer y gweithrediadau a gefnogir</td><td rowspan="3">• Canlyniadau i broseswyr:<br>○ Busnesau yn fwy cynhyrchiol<br>○ Swyddi wedi'u creu a'u diogelu<br>○ Mynediad i farchnadoedd newydd<br>○ Cynnydd mewn trosiant ariannol<br>• Busnesau'n dod yn fwy cynaliadwy<br>• Cyfranogwyr yn cynnig gwell gwaith i weithwyr (e.e. cyflog, cyfleoedd uwchsgilio, ac amodau gwaith)<br>• Cynnydd yn y deunyddiau crai a brynir gan gynhyrchwyr lleol, gan felly:<br>○ Lleihau taith bwyd<br>○ Cynnydd mewn trosiant yn y gadwyn gyflenwi ehangach<br>• Gwelliannau i ôl troed carbon trwy fwy o effeithlonrwydd (e.e. defnyddio llai o ynni a dŵr, defnyddio ynni adnewyddadwy, lleihau gwastraff)<br>• Rhagor o fusnesau yn ystyried cynaliadwyedd eu gweithrediadau<br>• Nifer y busnesau sy'n ennill achrediadau newydd, yn ennill gwobrau, ac yn cyrraedd y safonau uchaf o ran hylendid bwyd</td><td rowspan="3">• Mwy o brosesu a gweithgynhyrchu bwyd yng Nghymru gan fod â chapasiti a gallu gwell<br>• Cadwyni cyflenwi byrrach a phrosesu mwy lleol<br>• Natur gystadleuol well gan gynhyrchwyr cynradd sydd wedi'u hintegreiddio'n well i'r gadwyn bwyd-amaeth<br>• Cynnydd yn y gwariant cadwyn gyflenwi sy'n aros yng Nghymru<br>• Twf a mwy o wytnwch yn y sector bwyd a diod<br>• Datblygu sector mwy cynaliadwy sydd ag ôl troed carbon is<br>• Datblygu sector gwerth uchel sydd â gwell amodau gwaith<br>• Gwella enw da a safonau yn y diwydiant, a thrwy hynny gryfhau Brand Cymru</td></tr>
<tr><td>Gweithgareddau →</td><td>Canlyniadau tymor canolig A →</td></tr>
<tr><td>• Hyrwyddo'r cynlluniau i ddarpar ymgeiswyr<br>• Gwneud y cais a'r gwerthusiad<br>• Dosbarthu'r grant<br>• Monitro'r effaith</td><td>• Dysgu o'r broses ymgeisio a chynnal<br>• Proseswyr yn gwella eu gallu ac yn fwy effeithlon drwy well offer a chyfleusterau<br>• Nifer y cynhyrchion newydd a grëwyd<br>• Nifer y cynhyrchwyr sylfaenol sydd wedi arallgyfeirio<br>• Proseswyr yn cynyddu eu hallbynnau<br>• Busnesau yn ymrwymo i'r 'contract economaidd' ac yn cyflawni'r nodau datblygu cynaliadwy sydd yn eu EOI</td></tr>
<tr><td colspan="4"><u>Rhagdybiaethau</u><br>• Bydd yr ymyrraeth yn cyflawni'r canlyniadau dymunol<br>• Mae'r amserlenni a'r cyllid yn briodol i gyflawni'r amcanion</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| • Bydd cymorth i brosiectau bychain yn arwain at dwf ehangach ar lefel macro<br>• Mae angen y buddsoddiad ar bob busnes sy'n ymgeisio<br>• Bydd cynhyrchwyr cynradd yn elwa'n anuniongyrchol drwy gynnydd yn y galw a byddant yn gallu bodloni'r galw hwnnw<br>• Mae'r busnesau sy'n ymgeisio a'r is-sectorau sy'n derbyn buddsoddiad yn rhai priodol ac yn cyd-fynd ag amcanion strategol Llywodraeth Cymru<br>• Mae'r cymorth sydd eisoes ar gael yn annigonol i anghenion y sector<br>• Mae gan fusnesau'r gallu i ymgysylltu'n effeithiol â'r cynlluniau<br>• Mae gan fusnesau'r capasiti i ymgysylltu'n effeithiol â'r cynlluniau<br>• Bydd busnesau'n cyflawni eu hymrwymiadau, gan gynnwys yr elfennau na chaiff eu monitro'n agos (megis gweithredu sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy a'r gadwyn gyflenwi leol)<br>• Caiff canlyniadau ac effeithiau eu cyflawni yn ystod oes y prosiect | |
| <u>Rhwystrau (a risgiau)</u><br>• Diffyg ymwybyddiaeth o'r cymorth/dealltwriaeth wael ohono<br>• Anghenion busnesau yn wahanol i'r cynnig ariannu<br>• Diffyg targedu (e.e. yn ôl is-sector) yn arwain at gefnogi prosiectau nad ydynt yn addas i gyflawni'r nodau ehangach ynghylch twf, gwaith teg, ac ati.<br>• Mae busnesau yn gwneud cais am gymorth nad oes o reidrwydd ei angen, e.e. gogwyddo tuag at fusnesau mwy o faint<br>• Mae effaith y prosiectau wedi'i chyfyngu gan yr effaith dadleoli, h.y. tynnu gwerth oddi ar fusnesau Cymreig eraill<br>• Cyfyngiadau'r RDP, e.e. 90% o gynnyrch amaethyddol cymwys yn dod o'r tu mewn i'r UE<br>• Effeithiau amgylcheddol andwyol nas rhagwelwyd<br>• Gall chwyddiant effeithio ar brisiau offer ar ôl cytuno ar gyllid<br>• Goblygiadau iechyd cefnogi cwmnïau alcohol a bwyd nad yw'n iach<br>• Ceir oedi rhwng cyflwyno cais a derbyn arian, gan arwain at adael y cynllun<br>• Gall ymyrraeth amgylcheddol gymryd amser i weld manteision<br>• Mae COVID-19 (mesurau cadw pellter cymdeithasol a'r cyfnodau clo) a heriau eraill (e.e. Brexit a chwyddiant) yn golygu bod yn rhaid i fusnesau ganolbwyntio ar oroesi | <u>Hwyluswyr</u><br>• Marchnata digonol ac effeithiol i sicrhau galw mawr gan fusnesau cymwys ac ymwybyddiaeth ar draws y diwydiant<br>• Y broses ymgeisio a gwerthuso yn sicrhau arloesedd a phriodoldeb — dylai buddsoddiadau fynd i fusnesau sy'n rhannu gwerthoedd Llywodraeth Cymru ac na fyddent yn gallu buddsoddi heb y cymorth<br>• Cymorth effeithiol wedi'i roi i ymgeiswyr<br>• Monitro a chamau gweithredu priodol i sicrhau bod cyfranogwyr yn cyflawni ymrwymiadau<br>• Pwysau ariannol cynyddol wedi gorfodi rhai busnesau i ystyried sut y gallant arloesi a thyfu<br>• Gweithgarwch marchnata a hyrwyddo effeithiol i ennyn diddordeb busnesau i gael cymorth |

## Atodiad G: Data ar broffil yr ymgeiswyr

### Maint y busnes

| | FBIS | | | | RBISF | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maint y busnes** | **Llwyddiannus** | **Aflwyddiannus/ tynnu'n ôl** | **Y cyfan** | **Sampl yr arolwg** | **Llwyddiannus** | **Aflwyddiannus/ tynnu'n ôl** | **Y cyfan** | **Sampl yr arolwg** |
| Dim | 13% | 24% | 21% | 10% | 17% | 29% | 23% | 9% |
| 1 i 4 | 54% | 49% | 50% | 51% | 48% | 46% | 47% | 64% |
| 5 i 9 | 4% | 6% | 5% | 2% | 28% | 11% | 19% | 18% |
| 10 i 24 | 8% | 8% | 8% | 10% | 0% | 14% | 7% | 0% |
| 25 i 49 | 8% | 4% | 5% | 12% | 7% | 0% | 4% | 9% |
| 50 i 99 | 7% | 4% | 5% | 12% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| 100 i 249 | 5% | 2% | 3% | 4% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| 250 neu fwy | 1% | 3% | 2% | 10% | 0% | 0% | 0% | 9% |

Ffynhonnell: Data gwybodaeth reoli a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

**Data is-sectorau'r FBIS**

| Is-sector | Llwyddiannus | Aflwyddiannus/ tynnu'n ôl | Y cyfan | Cyfradd llwyddo | Gwerth y grant a gymeradwywyd | % y grant a gymeradwywyd | Cyfartaledd y grant a gymeradwywyd | % y buddiolwyr | % o sampl yr arolwg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llaeth | 24 | 74 | 98 | 24% | £24,477,200 | 41% | £1,019,883 | 21% | 18% |
| Bwyd parod | 2 | 5 | 7 | 29% | £691,282 | 1% | £345,641 | 2% | 2% |
| Cig | 18 | 67 | 85 | 21% | £13,291,840 | 22% | £738,436 | 15% | 16% |
| Garddwriaeth | 2 | 11 | 13 | 15% | £11,928,076 | 20% | £5,964,038 | 2% | 2% |
| Alcohol (e.e. bragdai) | 13 | 43 | 56 | 23% | £1,704,998 | 3% | £121,786 | 11% | 12% |
| Wyau | 41 | 67 | 108 | 38% | £5,534,773 | 9% | £134,994 | 35% | 33% |
| Melysfwyd | 1 | 9 | 10 | 10% | £239,794 | 0% | £239,794 | 1% | 2% |
| Pobyddiaeth | 8 | 26 | 34 | 24% | £1,435,023 | 2% | £179,378 | 7% | 12% |
| Mêl | 3 | 7 | 10 | 30% | £139,542 | 0% | £46,514 | 3% | 2% |
| Jamiau | 3 | 4 | 7 | 43% | £36,307 | 0% | £12,102 | 3% | 0% |
| Bwyd (cyffredinol) | 2 | 7 | 9 | 22% | £242,000 | 0% | £121,000 | 2% | 2% |
| Bwyd anifeiliaid | 0 | 6 | 6 | 0% | £0 | 0% | amherthnasol | 0% | 0% |
| Arall | 0 | 7 | 7 | 0% | £0 | 0% | amherthnasol | 0% | 0% |
| Llysiau | 0 | 4 | 4 | 0% | £0 | 0% | amherthnasol | 0% | 0% |
| Te | 0 | 1 | 1 | 0% | £0 | 0% | amherthnasol | 0% | 0% |
| Ŷd/grawn | 0 | 2 | 2 | 0% | £0 | 0% | amherthnasol | 0% | 0% |
| Planhigion | 0 | 3 | 3 | 0% | £0 | 0% | amherthnasol | 0% | 0% |
| Cynnyrch | 0 | 4 | 4 | 0% | £0 | 0% | amherthnasol | 0% | 0% |
| Dŵr | 0 | 1 | 1 | 0% | £0 | 0% | amherthnasol | 0% | 0% |

Ffynhonnell: Data gwybodaeth reoli a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

**Data is-sectorau'r RBISF**

| Is-sector | Llwyddiannus | Aflwyddiannus/ tynnu'n ôl | Y cyfan | Cyfradd llwyddo | Gwerth y grant a gymeradwywyd | % y grant a gymeradwywyd | Cyfartaledd y grant a gymeradwywyd | % y buddiolwyr | % o sampl yr arolwg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Alcohol (e.e. bragdai) | 4 | 7 | 11 | 36% | £171,799 | 21% | £42,950 | 15% | 0% |
| Llaeth | 4 | 3 | 7 | 57% | £125,626 | 15% | £31,406 | 14% | 27% |
| Cig | 4 | 7 | 11 | 36% | £62,128 | 7% | £15,532 | 14% | 18% |
| Te/coffi | 3 | 4 | 7 | 43% | £73,212 | 8% | £24,404 | 10% | 18% |
| Jamiau | 2 | 2 | 4 | 50% | £67,977 | 8% | £22,659 | 7% | 0% |
| Pobyddiaeth | 2 | 13 | 15 | 13% | £104,738 | 12% | £34,913 | 7% | 0% |
| Melysfwyd | 2 | 5 | 7 | 29% | £7,375 | 1% | £7,375 | 7% | 9% |
| Diodydd | 2 | 4 | 6 | 33% | £69,934 | 8% | £34,967 | 7% | 0% |
| Arall | 2 | 1 | 3 | 67% | £50,000 | 6% | £50,000 | 7% | 9% |
| Garddwriaeth | 2 | 1 | 3 | 67% | £56,199 | 7% | £28,100 | 7% | 18% |
| Dŵr | 0 | 2 | 2 | 0% | £0 | 0% | amherthnasol | 0% | 0% |
| Pysgod | 0 | 2 | 2 | 0% | £0 | 0% | amherthnasol | 0% | 0% |
| Pecynnu | 0 | 1 | 1 | 0% | £0 | 0% | amherthnasol | 0% | 0% |
| Mêl | 0 | 1 | 1 | 0% | £0 | 0% | amherthnasol | 0% | 0% |
| Llysiau | 0 | 2 | 2 | 0% | £0 | 0% | amherthnasol | 0% | 0% |
| Bwyd (cyffredinol) | 0 | 1 | 1 | 0% | £0 | 0% | amherthnasol | 0% | 0% |

Ffynhonnell: Data gwybodaeth reoli a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

## Atodiad H: Cymharu samplau o'r arolygon i fuddiolwyr a'r rhai nad ydynt yn fuddiolwyr

### Math o fusnes

| | Buddiolwr | | Heb fod yn fuddiolwr | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Busnes fferm heb unrhyw weithrediadau prosesu | 13 | 25% | 8 | 16% |
| Busnes fferm sydd â gweithrediad prosesu | 8 | 15% | 12 | 24% |
| Busnes prosesu neu weithgynhyrchu bwyd | 31 | 60% | 27 | 55% |
| Arall | 0 | 0% | 2 | 4% |

### Is-sector

| | Buddiolwr | | Heb fod yn fuddiolwr | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Pobyddiaeth | 6 | 12% | 1 | 3% |
| Melysfwyd | 1 | 2% | 2 | 5% |
| Cig | 8 | 16% | 6 | 16% |
| Llaeth | 10 | 20% | 12 | 32% |
| Garddwriaeth | 1 | 2% | 0 | 0% |
| Wyau | 16 | 31% | 6 | 16% |
| Alcohol (e.e. bragdai) | 6 | 12% | 7 | 18% |
| Bwyd (cyffredinol) | 1 | 2% | 2 | 5% |
| Prydau parod | 1 | 2% | 0 | 0% |
| Mêl | 1 | 2% | 2 | 5% |

### Maint y grant a roddwyd / gofynnwyd amdano

| | Buddiolwr | | Heb fod yn fuddiolwr | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Hyd at £20k | 5 | 10% | 8 | 20% |
| £20–50k | 6 | 12% | 8 | 20% |
| £50–100k | 7 | 13% | 10 | 25% |
| £100–500k | 24 | 46% | 11 | 28% |
| £500k–£1m | 4 | 8% | 1 | 3% |
| Mwy na £1m | 6 | 12% | 2 | 5% |

**Nifer y cyflogeion (FTE) ar adeg ymgeisio am gymorth**

| | Buddiolwr | | Heb fod yn fuddiolwr | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Dim | 7 | 14% | 0 | 0% |
| 1 i 4 | 24 | 47% | 39 | 81% |
| 5 i 9 | 1 | 2% | 0 | 0% |
| 10 i 24 | 5 | 10% | 5 | 10% |
| 25 i 49 | 5 | 10% | 2 | 4% |
| 50 i 99 | 6 | 12% | 1 | 2% |
| 100 i 249 | 3 | 6% | 1 | 2% |

**Trosiant y busnes ar adeg ymgeisio am gymorth**

| | Buddiolwr | | Heb fod yn fuddiolwr | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Dim trosiant | 6 | 10% | 7 | 20% |
| Hyd at £50,000 | 7 | 12% | 9 | 26% |
| £50,000 i £100,000 | 4 | 7% | 4 | 11% |
| £100,000 i £500,000 | 17 | 29% | 8 | 23% |
| £500,000 i £1,000,000 | 5 | 9% | 4 | 11% |
| £1,000,000 i £5,000,000 | 8 | 14% | 3 | 9% |
| £5,000,000 i £10,000,000 | 4 | 7% | 0 | 0% |
| £10,000,000+ | 7 | 12% | 0 | 0% |

## Atodiad I: Astudiaethau achos

**Astudiaeth achos 1: Red Boat Ice Cream Parlour**

Mae gan Red Boat Ice Cream Parlour bedair siop ledled Ynys Môn a'r Gogledd, ac mae'n gwerthu hufen iâ gelato ar arddull Eidalaidd. Mae'r busnes yn cael ei redeg gan y perchnogion Tony a Lyn, gyda'r cynnyrch yn cael ei wneud yn eu huned yn Llangefni ac yn seiliedig ar hyfforddiant helaeth Tony yn y grefft o wneud hufen iâ a gafodd ym Mhrifysgol Carpigiani yn yr Eidal. Ar ôl agor parlwr yn nhref wyliau Biwmares, agorodd y busnes siopau newydd ym Mhorthaethwy, Prestatyn, a Chaernarfon mewn ymateb i'r galw am eu cynnyrch.

Gwnaeth y busnes gais llwyddiannus am £150k mewn cymorth grant gan yr FBIS yn 2018 gyda'r dyhead i ehangu eu cyfleusterau cynhyrchu i alluogi arallgyfeirio'r farchnad a chreu cynnyrch yn well. Disgrifiodd y ffurflen gais y byddai'r buddsoddiad yn creu cyfleuster gweithgynhyrchu hufen iâ modern, penodedig a hynod effeithlon, ynghyd â lle storio a gofod manwerthu, ochr yn ochr â gweithredu fel academi hyfforddi, a fyddai'n allweddol i gynyddu eu busnes: "mae'r uned weithgynhyrchu ganolog [ h.y. yr hyn sydd bellach yn ganolfan iddynt yn Llangefni] yn hollol angenrheidiol […] bydd y cynnydd a ragwelir yn ein cynhyrchu yn amhosibl o'r lleoliad presennol ym Miwmares." Nododd ymhellach sut y byddai canoli'r cyfleuster cynhyrchu yn galluogi'r busnes i sicrhau effeithlonrwydd o ran gweithgynhyrchu (e.e. peiriannau mwy o faint) ac o ran dosbarthu'r cynnyrch.

Heblaw am fenthyciad dechrau busnes wedi'i ariannu'n breifat wrth sefydlu'r busnes yn wreiddiol, roeddent yn newydd i gael cyllid cyfalaf. Gan fod eu hymdrechion blaenorol i gael cyllid ar gyfer eu cynlluniau twf drwy fanciau'r stryd fawr yn aflwyddiannus, roedd y grant, ynghyd â'r cymorth a gafwyd gan Busnes Cymru, yn hanfodol i ganiatáu ar gyfer ehangu a thyfu'r busnes, fel y dywedodd perchennog y busnes:

"Ni fyddai banciau'r stryd fawr wedi ariannu hyn; roedd y cyllid yn hanfodol i'n galluogi i fuddsoddi ac ehangu. Hebddo fe fydden ni'n dal wedi bod yn siop stryd fawr yn gwerthu hufen iâ."

Yn wir, nid yw'r busnes yn credu y byddent wedi gallu gwneud unrhyw fuddsoddiad cyfalaf o gwbl heb ymyrraeth yr FBIS.

Heblaw am y cymorth ariannol a oedd wedi'u galluogi i gynyddu eu cynhyrchiant, mae Red Boat Ice Cream hefyd wedi elwa o gymorth gyda marchnata, yn ogystal â chymorth gan

Busnes Cymru i weithio ar eu huchelgeisiau i ddatblygu'r cwmni a thyfu ei gynhyrchiant, a hynny wedi'u galluog i wireddu nod eu busnes i ehangu i sawl lleoliad.

Cyn ymyrraeth yr FBIS, dim ond o'u parlwr ym Miwmares yr oeddent yn gweithredu ochr yn ochr ag uned loeren fach. Cadarnhaodd y busnes fod y cymorth grant yn hollbwysig wrth agor tri lleoliad newydd yng Ngogledd Cymru. Mae eu canolfan gynhyrchu newydd yn Llangefni yn cynnwys offer modern ychwanegol, gan alluogi Red Boat Ice Cream i gynhyrchu hufen iâ yn llawer mwy effeithlon ac i safonau llawer mwy ecogyfeillgar a chynaliadwy. Mae'r ganolfan gynhyrchu hefyd wedi chwarae rhan bwysig yn ehangu ac yn arallgyfeirio eu busnes, gan eu galluogi i gynnal mwy o arbrofion ar flasau gwahanol a chreu cynhyrchion ychwanegol ar gyfer stocwyr a marchnadoedd newydd. Ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl heb y grant ynghyd â'r cymorth "defnyddiol iawn" a gafwyd gan Busnes Cymru. Roedd y perchnogion yn fodlon iawn ar eu profiad cyffredinol o ran y gefnogaeth gan yr FBIS:

"Fydden ni byth wedi gallu gwireddu ein breuddwydion a'n dyheadau heb y grant. Dylai Llywodraeth Cymru geisio cadw'r cynllun hwn i fynd heb gefnogaeth yr UE. Rwy'n meddwl y byddai'n wych i economi Cymru."

Daeth y grant ar yr adeg iawn hefyd, gan gyd-fynd â hyfforddiant a chymorth gan Busnes Cymru ychydig cyn ac yn ystod y pandemig, a hynny wedi helpu i gynyddu eu gwytnwch a darparu cynllun i gynnal eu gweithrediadau a pharhau i werthu (er gwaethaf cau'r stryd fawr a dim gwerthiannau wyneb yn wyneb). Gwnaeth Red Boat Ice Cream hyn trwy agor siop ar-lein yn gwerthu eu gelato, yn ogystal â chynllun dosbarthu lleol ar hyd coridor yr A55, gan alluogi cwsmeriaid i brynu hufen iâ, cacennau gelato, a chynhyrchion eraill trwy gydol y cyfnodau clo.

Ar ôl ennill achrediad SALSA, mae'r cynnydd yn eu gallu cynhyrchu wedi galluogi'r busnes i arallgyfeirio ymhellach drwy gyflenwi stocwyr rhanbarthol a chenedlaethol. Maent wedi bod yn llwyddiannus wrth ennill achrediadau a gwobrau eraill hefyd, gan gynnwys achrediad STS, ennill Good Food Award yn 2019 a 2020, ennill Gwobr Busnes y Daily Post am y Bwyd a Diod Gorau yn 2019, a chyfeiriwyd atynt hefyd gan The Times i fod yn rhif tri ar restr Parlyrau Hufen Iâ Glan Môr Gorau Prydain yn 2022. Fodd bynnag, roeddent yn dweud bod COVID-19 a'r prinder llafur wedi hynny yn parhau i fod yn anodd iawn i'w busnes a'u gallu i fodloni amodau effaith grant yr FBIS:

"Fel pawb arall, rydym wedi bod yn cael trafferth recriwtio pobl ar gyfer pob lleoliad gwerthu ac ar gyfer staff blaen tŷ. Mae gennym o leiaf dri agoriad ar gyfer staff newydd ac mae bron

yn amhosibl dod o hyd iddynt. Fel rhan o grant yr FBIS, fe ddywedon ni y bydden ni'n creu chwe swydd [ynghyd â diogelu'r 10 yr oedd ganddyn nhw ar y pryd]. Mae hyn bellach yn anodd oherwydd mae gennym ni'r swyddi'n cael eu hysbysebu ond dydyn ni ddim yn cael y bobl yn dod amdanyn nhw. Mi wnaeth llawer o bobl adael yn ystod neu ar ôl ffyrlo hefyd i gael swyddi neu fynd i fusnesau eraill."

Serch hynny, mae Red Boat Ice Cream wedi gallu cynyddu nifer eu staff yn sylweddol o fusnes oedd â 10 aelod o staff trwy gydol y flwyddyn (saith llawn amser, tri rhan amser) a 15 o weithwyr tymhorol ar gyfer tymor prysur yr haf, i fod bellach â 15 o staff trwy gydol y flwyddyn (12 gweithiwr llawn amser a thri rhan amser) a 18 o weithwyr tymhorol. Ymhellach, eu nod yw cynnig cyflogau staff sy'n uwch na'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol yn ogystal â Chyflog Byw Gwirioneddol, ac maent wedi gallu gwneud hyn drwy gydol eu profiad â grant yr FBIS ac yn parhau i wneud hynny ar hyn o bryd.

**Effeithiau economaidd**

Cyn y cymorth, cofnododd y cwmni drosiant blynyddol o £480k. Mae hyn bellach wedi cynyddu i £736k (ar adeg yr arolwg yn 2022). Gellir priodoli hyn i broses fwy effeithlon a chynyddu'r allbwn cynhyrchu, ac arallgyfeirio marchnadoedd yn llwyddiannus. Roedd Red Boat Ice Cream yn gwbl ddibynnol ar werthu'n uniongyrchol i gwsmeriaid o'u siop yn Ynys Môn cyn y grant, ond erbyn hyn mae ganddynt wyth llwybr gwahanol o werthu eu cynnyrch – o werthu dros y cownter mewn mwy o leoliadau i siopau fferm a manwerthwyr cenedlaethol.

Bydd y twf hwn wedi cael effaith ehangach yn y gadwyn gyflenwi leol, gyda'r busnes yn amcangyfrif fod 60% o'u pryniant yn digwydd yn yr ardal leol (o fewn radiws o 35 milltir). Yn wir, roedd eu ffurflen gais yn nodi eu bwriad i ddod o hyd i gynhwysion gan gyflenwyr lleol ac roeddent am ddatblygu cysylltiadau agos â'r diwydiant llaeth lleol yn benodol.

Maent hefyd wedi gallu lansio cynhyrchion newydd sydd wedi hybu gwerthiant; er enghraifft, mae eu potiau 125ml newydd o gelato yn cael eu gwerthu i fwytai a busnesau eraill, ac maent nawr yn edrych i ehangu a chynhyrchu eu bariau siocled eu hunain a all, yn eu barn nhw, hybu eu gwerthiant yn ystod misoedd oerach yr hydref a'r gaeaf. Ar ben hynny, mae'r cyfleusterau newydd wedi cefnogi arloesedd parhaus y busnes drwy sicrhau bod mwy o le i hyfforddi ac uwchsgilio staff mewn technegau a gweithdrefnau newydd, o gymysgu cynhwysion a chreu blasau i weithgynhyrchu gelato.

Er gwaethaf yr ansicrwydd yn y sector a welwyd oherwydd yr argyfwng costau byw, canlyniadau Brexit, a phrinder llafur, dywedodd Red Boat Ice Cream fod eu huchelgeisiau ar gyfer y busnes yn y dyfodol wedi cynyddu'n sylweddol yn dilyn y grant:

"[Roedd grant yr FBIS wedi ein helpu i] gyflawni ein hamcanion a'n dyheadau ac fe wnaethon ni ei ddefnyddio fel sbringfwrdd i'r busnes symud ymlaen."

**Astudiaeth achos 2: Terry’s Patisserie**

Mae Terry’s Patisserie yn fusnes teuluol wedi’i leoli yng Nghaerffili, ac mae’n cynhyrchu amrywiaeth fawr o bwdinau a chynhyrchion wedi’u pobi gan eu rhewi ar gyfer busnesau a chyfanwerthwyr/manwerthwyr. Dechreuodd y cwmni yn 2011, yn wreiddiol byddai Terry Williams yn cyflenwi pwdinau a patisserie o gegin ei gartref i fwytai lleol, ac aeth ymlaen i ennill cyfres o Wobrau Great Taste (yn 2014, 2015, 2016 a 2017) cyn gwneud cais llwyddiannus am grant yr RBISF yn 2017.

Cafodd y cwmni grant o £100k ym mis Mehefin 2018 a defnyddiwyd hwn i ehangu eu busnes ym mis Rhagfyr 2018. Erbyn hynny, roedd y busnes eisoes wedi ehangu i gegin fasnachol fach ac yn cynnwys aelodau eraill o’r teulu mewn gweithlu o bedwar aelod o staff llawn amser. Roedd angen y grant i gyd-fynd â’r twf a gynlluniwyd ganddynt, oherwydd, yn ôl y perchennog, yr heriau yn ymwneud â chael gafael ar gyllid oedd yr unig beth a oedd yn eu hatal rhag tyfu bryd hynny: “Doedd banciau ddim am roi benthyg dim i ni.” Maent yn credu na fyddent wedi gallu gwneud unrhyw fuddsoddiad cyfalaf heb y grant, gan nad oedd ganddynt y cyllid preifat a’r sicrwydd i wario’r swm hwnnw o arian eu hunain.

Yr awydd hwn i dyfu’r busnes a chynyddu lefel eu trosiant oedd y prif sbardun ar gyfer cymorth. Ni allent fodloni’r galw am eu cynnyrch, felly, roedd angen iddynt gynyddu capasiti cynhyrchu trwy fuddsoddi yn yr offer a meddalwedd a ddefnyddiant i gynhyrchu eu pwdinau, ehangu eu cegin fasnachol i ddwywaith y maint, ac, ar ôl gorffen, cyflogi staff newydd i helpu â’r cynnydd yn eu cynhyrchiant. Arallgyfeirio, datblygu cynhyrchion newydd, ac ymgais i chwilio am farchnadoedd newydd oedd rhai o brif elfennau’r cynllun twf a sbardunodd yr angen am chwistrelliad cyfalaf, fel y dywedodd Terry mewn cyfweliad yn 2018:

“Rydym yn ehangu ein cegin fasnachol gan ddefnyddio grant gan Lywodraeth Cymru, a bydd hynny’n cynyddu ein capasiti. Bydd yr estyniad yn creu uned newydd sy’n arbenigo mewn eitemau wedi’u pobi ar gyfer hambwrdd, gan ein bod am hyrwyddo’r rhain i fwy o siopau coffi, caffis, a’r gwasanaeth bwyd.”

Nodwyd hefyd ganddynt yn eu ffurflen gais y byddai’r gwelliannau i’w prosesau yn dileu aneffeithlonrwydd yn eu gweithgynhyrchu wedi’i achosi gan fannau storio gwahanol yn ogystal â lleihau’r amseroedd derbyn nwyddau trwy gynyddu’r gofod storio ar y safle.

Roedd y busnes yn fodlon iawn â'r broses ymgeisio gyffredinol am y cymorth, heb ganfod unrhyw heriau penodol o ran cael y cymorth, ac yn fodlon iawn ar y cyfan â'u profiad o dderbyn cymorth gan yr RBISF.

Mae effeithiau'r buddsoddiad yn amlwg iawn yn natblygiad y cwmni, gyda'r busnes yn adrodd ei fod wedi gwella eu gallu trwy well offer a chyfleusterau, gwella cynhyrchiant trwy gynyddu allbwn a lleihau costau, gan eu galluogi i arallgyfeirio ar yr un pryd hefyd â thyfu marchnadoedd presennol, a gwella cynaliadwyedd eu busnes. Mae arallgyfeirio eu marchnadoedd wedi golygu cyflenwi mwy i siopau caffi ledled y DU (yn hytrach na dibynnu'n gyfan gwbl ar y farchnad Gymreig). Yn wir, roedd hanner eu gwerthiant i gwsmeriaid lleol (o fewn radiws o 35 milltir) a'r hanner arall i'r farchnad Gymreig ehangach cyn y cymorth. Mae eu marchnadoedd daearyddol bellach wedi ehangu i'r pwynt lle amcangyfrifir bod 40% o'u gwerthiant yn cael ei gynhyrchu gan gwsmeriaid o weddill y DU.

Mae'r cymorth cyfalaf wedi bod yn allweddol i'r llwyddiant hwn, er bod y busnes hefyd wedi elwa ar wasanaethau eraill megis hyfforddiant mewn marchnata a brandio a gafwyd fel rhan o Glwstwr Bwyd Da Cywain:

"Yn bersonol, teimlwn fod y clwstwr yn hanfodol mewn dwy ffordd allweddol: yn gyntaf, cefnogaeth broffesiynol ac uniongyrchol gan y mentoriaid […] yn ail, mae cymysgu busnesau o'r un anian â'i gilydd i rannu profiadau a thrafod materion tebyg yn amhrisiadwy."

**Manteision economaidd**

Mae llwyddiant y busnes wedi bod yn amlwg iawn yn y twf yn eu gwerthiant, gyda chynnydd pum gwaith yn eu trosiant blynyddol o £150k cyn y cymorth i £900k yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Ar ôl gallu bodloni'r galw, cynyddu effeithlonrwydd cynhyrchu, a chostau cynhyrchu is drwy'r cymorth a gafwyd gan yr RBISF, maent yn priodoli'r rhan fwyaf o'r trosiant diweddar hwn i'r ymyrraeth. Yn ogystal, oherwydd bod Terry's Patisserie yn prynu bron popeth yng Nghymru (cyfanswm o £450k yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf), mae'r gwelliannau a thwf i'r busnes hefyd yn gysylltiedig â chynnydd a hwb yng ngwerthiant busnesau bwyd eraill Cymru yn y gadwyn gyflenwi.

Ymhellach, maent hefyd wedi gallu tyfu eu gweithlu'n sylweddol o weithlu sy'n cynnwys pedwar aelod o staff amser llawn i 15 o weithwyr llawn amser, gan wneud y newid o fod yn ficro-fenter i fusnes bach.

**Astudiaeth achos 3: Wrexham Lager**

Mae Wrexham Lager yn gwmni sydd â hen hanes gan ei fod wedi cynhyrchu lager yn Wrecsam ers 1881 ond wedyn wedi cau i lawr yn 2000 ar ôl cyfnod anodd. Cafodd y cwmni ei ail-lansio gan y perchnogion presennol yn 2011 gan ddefnyddio'r un cynhwysion a rysáit â'r bragdy gwreiddiol. Y nod oedd adfywio'r cwmni i fod fel ydoedd yn ei oes aur, gan mai dyma'r busnes cyntaf i gynhyrchu lager yn y Deyrnas Unedig.

Roedd y busnes yn dibynnu'n bennaf ar allfeydd adwerthu lleol/annibynnol cyn y cymorth gan yr FBIS ac roedd yn ceisio mynd i mewn i farchnadoedd allforio newydd yn Ewrop, UDA, Canada, Awstralia a Japan. Gwelwyd ganddynt fod angen cynyddu eu gallu cynhyrchu er mwyn cyflawni eu cynllun busnes. Roedd hyn yn cynnwys ehangu'r bragdy oedd ganddynt ar y pryd i ddatblygu neuadd eplesu newydd i fod â chyfanswm o 36 o danciau, chwe oerydd, a pheiriannau ategol.

Llwyddodd Wrecsam Lager i sicrhau grant o £600k gan yr FBIS ym mis Ionawr 2019, gyda'r buddsoddiad wedi'i gwblhau ym mis Tachwedd y flwyddyn honno. Roedd y buddsoddiad hwn yn cynnwys adnewyddu hen offer a phrynu offer newydd. O ganlyniad, mae'r bragdy bellach ar ei anterth a'r mwyaf effeithlon erioed ac mae'r tîm wedi gallu tyfu'r cwmni mewn ffordd na fyddai wedi bod yn bosibl heb gymorth yr FBIS, gan ddyfynnu diffyg arian am beidio gallu tyfu cyn hynny (er gwaethaf y galw am fwy o gynnyrch). Er bod Wrexham Lager yn credu ei bod yn debygol y byddent wedi gwneud buddsoddiad rywbryd yn y dyfodol heb y cyllid a roddwyd, byddai wedi cymryd llawer mwy o amser i fanteisio ar y cyfleoedd allforio ac ar y galw yn y farchnad am eu cynnyrch sydd bellach wedi'i sefydlu.

Mae'r busnes wedi gallu cynyddu amlygrwydd eu brand, gan ennill sawl gwobr aur mewn cystadlaethau rhyngwladol yn yr Almaen yn ystod y cyfnod 2020-2022. Dywedon nhw hefyd fod y newidiadau a wnaed i'r busnes a'i weithrediadau wedi bod yn hollbwysig i ddyfodol y cwmni:

"Mae gweithrediadau'r cwmni wedi newid yn eithaf sylweddol – mae'n llawer mwy effeithlon. Rydym wedi rhoi'r holl ddeunydd gwneud bragdy i mewn a'r cyfan wedi'i ariannu gan y cynllun buddsoddi. Roedd yn rhoi modd i fragdy effeithlon iawn weithredu i'w gapasiti llawn. Heb y grant fydden ni ddim wedi gallu ei wneud mor gyflym nac mor brydlon a byddem wedi colli allan ar gyfleoedd allforio."

Er eu bod yn falch eu bod wedi mynd drwy broses yr FBIS, teimlent fod y cais ar gyfer y cynllun buddsoddi yn ddiangen o hir ac astrus, a'u bod wedi cael trafferthion cael gafael ar gymorth drwy ddesg gymorth ar-lein WEFO. Yn ogystal, nodwyd bod yr oedi cyn cael cymeradwyaeth wedi'i gwneud yn anodd iawn cynllunio ar gyfer dyfodol y cwmni.

**Effeithiau amgylcheddol ac economaidd**

Mae'r buddsoddiadau a wnaed gan Wrexham Lager wedi arwain at ehangu ac arallgyfeirio cyffredinol yn y marchnadoedd a gyrchwyd ganddynt a chynnydd yn y cynnyrch y maent yn eu gwerthu. Maent bellach yn cyflenwi manwerthwyr/cyfanwerthwyr cenedlaethol a sawl gŵyl yn ogystal â'r siopau yr oeddent yn eu cyflenwi cyn y cymorth. Maent hefyd wedi sefydlu allforion i wledydd megis De Korea, Canada, yr Unol Daleithiau, Japan, a gwledydd Llychlyn. Er bod ansicrwydd yn ymwneud â Brexit wedi llesteirio rhywfaint o'r twf yn eu marchnadoedd allforio – "rydym wedi bod yn brwydro'n aruthrol i allforio i Ewrop, gan fod y rhwystrau i allforio bellach yn hynod feichus" – maent wedi gallu gwneud rhywfaint o gynnydd yn erbyn yr amcan strategol hwn. Cyn y cymorth, cynhyrchai'r cwmni 90% o'u gwerthiant o'r tu mewn i Gymru, gyda 10% yn dod o weddill y DU. Nawr, mae cyfran y gwerthiannau y tu allan i Gymru wedi cynyddu, gydag 20% yn dod o weddill y DU, 5% o wledydd yn yr UE, a 5% o wledydd o weddill y byd.

Yn hollbwysig, mae Wrexham Lager wedi gallu cynyddu eu trosiant 40%, o tua £1m i £1.4m, ac maent yn rhagweld cynnydd i £1.7m y flwyddyn nesaf. At hynny, maent hefyd yn cefnogi dau weithiwr llawn amser ychwanegol, gan gynyddu nifer eu staff o chwech i wyth, ac yn rhagweld y bydd dau weithiwr arall yn cael eu hychwanegu at y tîm yn y 12 mis nesaf.

Y tu hwnt i'r elw economaidd, maent wedi gweld cyfraniadau cadarnhaol at leihau ôl troed carbon y busnes o ganlyniad i fuddsoddiad yr FBIS, gyda phrosesau cynhyrchu mwy ynni-effeithlon, gostyngiad yn y defnydd o ddŵr, a llai o wastraff yn eu llinell weithgynhyrchu. Yn ôl y cais a gyflwynwyd, byddai'r oeryddion a'r tanciau eplesu/cyflyru arfaethedig yn cynhyrchu arbedion ynni o 21% a 30% yn y drefn honno. Dywedodd y cwmni hefyd eu bod yn rhoi mwy o ystyriaeth i oblygiadau amgylcheddol eu cynhyrchu a'u cynnyrch. Ynghylch eu profiad cyffredinol o dderbyn cymorth gan yr FBIS, dywedodd Wrexham Lager:

"Roedd ei angen. Nid oedd yn broses syml, ond roedd tîm WEFO wedi trin y cyfan yn broffesiynol. Yn y dyfodol byddwn yn gobeithio y byddai proses symlach, mwy cyffredinol a chefnogaeth i fusnesau bach a chanolig fel nad oes rhaid iddynt neidio drwy'r holl gylchoedd."

**Astudiaeth 4: Fferm Cerrigroes**

Sefydlwyd menter prosesu wyau a dofednod newydd ar Fferm Cerrigroes yn 2004 gan Andrew, Janet, Roger a Ross Abberley. Yn draddodiadol, menter cig eidion a defaid oedd Cerrigroes dan ofal Andrew a Janet a'u dau fab ifanc, Roger a Ross. Roedd y busnes yn gweld yr angen i arallgyfeirio er mwyn sicrhau incwm parhaus i'r fferm a fyddai'n cynnal y tri theulu sy'n rhedeg y busnes. Ar ôl sefydlu bod marchnad am wyau buarth gyda galw mawr am yr 'wy Cymreig', ac y gallai gynnig llawer mwy o elw fesul hectar na thrwy gig eidion neu ddefaid, aethant ati i sefydlu eu busnes prosesu wyau. Cyn ymgysylltu â chynllun yr FBIS yn 2017, roedd gan y fferm 28,000 o ddofednod buarth wedi'u lleoli mewn adeilad llawr gwastad a system aml-haen. Roedd ganddynt reolwr rhan-amser a oedd yn rhedeg y gwaith ar gyflog o £16k y flwyddyn ynghyd â dau weithiwr rhan-amser, ond nid oedd y teulu Abberley yn cymryd cyflog o'r busnes.

Roedd sawl cymhelliant yn sail i benderfyniad y busnes i fynd ar ofyn cymorth gan yr FBIS. Dymunent barhau i dyfu eu busnes oherwydd eu bod ar gapasiti llawn ac yn gwneud cais am drwydded IPPC ar gyfer 48,000 o ieir buarth. Roeddent am ehangu i farchnadoedd newydd, yn benodol i archfarchnadoedd a siopau mwy o faint. Yn ôl eu ffurflen gais, roedd angen i'r busnes sicrhau arbedion maint i'w gwneud eu hunain yn ddeniadol i fwy o gwsmeriaid, a chael ôl troed carbon is a lefelau nwyddau uwch. Eu cynnig oedd defnyddio'r cyllid i osod system aml-haen ar gyfer 32,000 i'w chysylltu â'r uned 16,000 bresennol, gyda chludwyr wyau allanol, unedau paled, a stacwyr wyau i gael gwared ar yr angen i wneud popeth â llaw yn ogystal â robot i gynorthwyo â'r codi paledi ar symudwr paled i symud hambyrddau wyau. Byddai hyn yn eu galluogi i gynyddu eu trosiant, torri costau, cyflogi mwy o staff, a darparu gwell cyflogau o ganlyniad.

Ymhellach, cawsant eu hysgogi gan awydd i wella eu perfformiad amgylcheddol trwy newid y systemau llawr gwastad, gan nodi y byddai hyn hefyd yn arwain at welliannau mawr i les yr adar. Roedd y bwriad hefyd yn ymwneud ag addasu rhan o'r uned newydd er mwyn darparu cyfleuster swyddfa a chegin i staff, ynghyd â buddsoddi mewn camerâu i fonitro symudiadau wyau dros y cludwyr wyau i'r uned brosesu. Roedd y cais a gyflwynwyd am gyllid yr FBIS yn nodi y byddai'r gwelliannau hyn, yn enwedig y camerâu wyau, y cludydd cromlin, a'r symudwr paled, yn cynhyrchu effeithlonrwydd ynni yn yr uned dofednod ac yn lleihau costau gweithredu:
"Y paciwr a'r staciwr sydd i'w gosod yw'r rhai mwyaf effeithlon ar y farchnad, gan sicrhau bod y system yn rhedeg i'w lefelau gorau posibl."

Yn dilyn eu cais, derbyniodd y busnes grant o £130,974 ym mis Mehefin 2018 i'w cefnogi gyda'u dymuniadau i ehangu a gwneud y cyfleusterau'n fwy effeithlon ac yn fwy awtomataidd. Heb y cyllid grant, dywedodd y busnes wrthym ei bod yn debygol y byddent wedi cael eu gorfodi i wneud buddsoddiad ar raddfa lai ac y byddai wedi cymryd mwy o amser i wneud hynny.

Mae'r gwelliannau hyn wedi cael effaith fawr ar y busnes, a phwysleisia'r perchennog na fyddent wedi gallu cael eu gwneud heb gefnogaeth yr FBIS:

"Rydym wedi uwchraddio'r busnes. Heb [y grant] byddai gennym baciwr arafach a byddem yn cynhyrchu llai."

Er gwaethaf egluro eu bod yn hapus â'r gefnogaeth a roddwyd, mynegodd perchnogion y busnes beth rhwystredigaeth â'r broses ymgeisio a'r amser a gymerodd cyn i'w grant gael ei gymeradwyo. O ran y broses ymgeisio, soniwyd ganddynt fod angen cryn dipyn o waith i'w gwneud a'i bod yn gymhleth. O ganlyniad, penderfynwyd talu ymgynghorydd i weithio ar y cais gyda nhw. Roeddent yn gweld hyn yn risg sylweddol i'w busnes, o ystyried eu hymrwymiadau amser a'u llafur eu hunain a chostau ffi'r ymgynghorydd, gan fod â risg o fod â chais aflwyddiannus ar ddiwedd y broses. Nodwyd ymhellach ganddynt fod yr aros hir am gymeradwyaeth yn ei gwneud yn anodd cynllunio ar gyfer dyfodol y fferm. Heblaw am hynny, ni theimlwyd ganddynt fod unrhyw heriau sylweddol eraill wrth ymwneud â'r cynllun.

**Manteision economaidd**

Dywedodd y busnes fod eu trosiant wedi cynyddu 122% o £450k cyn derbyn y cymorth grant i £1m yn y flwyddyn ariannol ddiweddaraf. Amcangyfrifodd y busnes fod tua 60%, neu £600k, o'u trosiant blynyddol diweddaraf wedi'i briodoli i'r cymorth gan yr FBIS. Roeddent hefyd wedi gallu ehangu i farchnadoedd newydd ac amrywio eu gwerthiant yn ddaearyddol, gan fynd o ddau leoliad/dull masnachu i bedwar. Er nad yw'n ymddangos bod cynnydd wedi bod yn eu cyflogaeth, nododd y busnes yn ei ffurflen gais y byddai'n cynyddu oriau'r staff presennol o ganlyniad i ehangu'r busnes.

Yn ogystal, er nad yw Cerrigroes yn ei briodoli'n gyfan gwbl i'r grant a roddwyd iddynt, mae'n ddiddorol nodi bod eu gweithgarwch prynu o weithgynhyrchwyr a chynhyrchwyr o Gymru wedi cynyddu o 10% cyn y cymorth i 60% ar hyn o bryd. Mae tystiolaeth bellach o effeithiau ehangach ar y gadwyn gyflenwi yn eu ffurflen gais, lle roeddent wedi ymrwymo i

ddefnyddio contractwr lleol i wneud y gwaith sylfaen ar gyfer y safle, tra byddai cwmnïau bwyd lleol hefyd yn cael eu defnyddio.

**Effeithiau amgylcheddol a buddion eraill**

Yn dilyn y cymorth, mae'r busnes wedi datblygu prosesau mwy ynni-effeithlon ac wedi gwella amodau eu stoc. Dywedodd Cerrigroes eu hunain fod y grant wedi eu helpu i ddod yn sefydliad mwy amgylcheddol gynaliadwy, ac ar y pwnc hwn dywedodd perchennog y busnes: "Rydyn ni'n nawr yn gallu rhedeg yr offer am lai o oriau. Mae gennym hefyd fwy o oleuadau LED i arbed ar y trydan."

Yn ogystal â'r effeithiau amgylcheddol, mae Cerrigroes hefyd wedi cael dau achrediad arall. Yn ogystal â'u hardystiad RSPCA Assured a'r Dystysgrif Cynllun Gwarant Fferm Da Byw a oedd ganddynt cyn y cymorth, maent bellach wedi'u hachredu â'r Lion Code ac M&S Assured, sydd wedi eu galluogi i ddangos ansawdd eu cynhyrchion yn haws i ddefnyddwyr.

**Astudiaeth 5: The Welsh Sausage Company**




Sefydlwyd The Welsh Sausage Company yn 2001 ac maent wedi'u lleoli yn y Trallwng. Mae'r busnes yn gyflogwr pwysig yn y dref, gyda thua 40 o staff ac allbwn gweithgynhyrchu sylweddol wrth gynhyrchu dros 1 miliwn o selsig y dydd. Mae'r Welsh Sausage Company yn cyflenwi selsig, byrgyrs a chynhyrchion cig eraill i fusnesau, gyda nifer o gleientiaid nodedig fel M&S, McDonald's, a Wetherspoons.

Gwnaethant gais llwyddiannus am grant yr FBIS gan gael £141,160 yn 2018 i ddatblygu ochr cig moch eu busnes, gan nad oedd wedi'i awtomeiddio. Roedd hyn yn hanfodol i'w galluogi i dyfu a chynyddu eu gallu i gyflenwi manwerthwyr mawr, fel y nodwyd yn eu cais am gyllid: "Mae'r prosiect hwn yn rhan sylfaenol o'n strategaeth fusnes graidd barhaus ar gyfer y 10 mlynedd nesaf."

Er bod y busnes eisoes yn cynllunio ar gyfer twf ar adeg gwneud cais am y grant, roeddynt hefyd yn wynebu cyfyngiadau ariannol mawr o ran llwyddo i fodloni'r cynnydd yn y galw, gan fod diffyg capasiti cynhyrchu yn llesteirio eu twf parhaus. Yn yr un modd, er bod eu busnes craidd wedi tyfu, roedd elfen cig moch eu busnes wedi dechrau gostwng yn 2016/17, gan danberfformio yn erbyn y disgwyl oherwydd ei fod yn anghystadleuol. Disgrifiwyd y broses gynhyrchu fel un llafurddwys ac aneffeithlon.

Defnyddiwyd y cyllid grant i fuddsoddi mewn tri darn newydd o offer gweithgynhyrchu bwyd uwch i'w gosod yn eu safle cynhyrchu, a'r rhain yn cynnwys lapiwr cloriau, peiriant pecynnu cig moch, a sleisiwr cig moch. Gyda'i gilydd, roedd y cydrannau hyn yn ffurfio llinell gynhyrchu sleisio a phacio cig moch manwerthu cyflawn newydd, gan gynyddu'r capasiti o 2.5 i 18 tunnell yr wythnos. Roedd hyn yn gwella cyflymder ac effeithlonrwydd y busnes yn sylweddol a thrwy leihau costau cynhyrchu, roeddent yn gallu cynnig eu cynnyrch yn fwy cystadleuol i gwsmeriaid a sectorau newydd a phresennol er mwyn sicrhau a thyfu'r busnes ac adfywio eu gwerthiant disymud ar gig moch. Roeddent hefyd wedi gallu creu cynhyrchion newydd ac, oherwydd y cyllid, gallent fanteisio ar y galw cynyddol am fwyd heb glwten a heb alergeddau, gyda'r offer a'r cyfleusterau newydd yn hanfodol i ddatblygu cynhyrchion sy'n gyfeillgar i alergeddau heb groeshalogi.

Roedd y grant wedi galluogi i'r busnes gyflymu eu cynlluniau tyfu drwy fuddsoddi'n gynt mewn offer mwy newydd, mwy datblygedig sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Er eu bod yn

fusnes gwerth sawl miliwn o bunnoedd, roedd angen cymorth allanol arnynt i ariannu’r elfen gyfalaf, gan adael eu busnes i ariannu’r twf mewn gwerthiant. Pwysleisiwyd ganddynt y byddai’r gostyngiad yn eu gwerthiant cig moch wedi bod yn anodd ei wrthdroi ar ôl bod yn anghystadleuol cyhyd pe na bai’r prosiect wedi mynd yn ei flaen.

Pwysleisiodd The Welsh Sausage Company fod eu twf wedi dibynnu ar y cyllid hwn, ac ni chredai perchennog y cwmni y byddent wedi gallu gwneud y buddsoddiad heb y cymorth. Cyfeiriodd y cwmni hefyd at brofiad hynod gadarnhaol o gael cymorth yr FBIS, a dywedodd eu bod wedi gallu dyblu maint eu busnes o ganlyniad i’r cymorth:

“[Mae’r FBIS wedi bod â] rôl fawr yn ein twf, gan fod angen i ni fod yn fwy awtomataidd – roedd angen i’r cwsmeriaid weld yr hyn y gallem ei gyflawni.”

**Effeithiau economaidd**

Mae’r buddion a’r effeithiau economaidd a welwyd ar gyfer The Welsh Sausage Company yn dilyn y buddsoddiad wedi bod yn sylweddol. Mae trosiant blynyddol y cwmni wedi mwy na dyblu o ran maint, gyda’r cwmni’n cynhyrchu £12m yn eu cyfrifon diweddaraf, sef 218% yn uwch na’u trosiant cyn-buddsoddiad o £5.5m. Mae’r cwmni hefyd wedi gallu cyflogi 14 o weithwyr llawn amser arall trwy dwf eu busnes, gyda 38 o weithwyr llawn amser a dau yn rhan-amser. Yn ogystal, roedd yr offer gweithgynhyrchu uwch newydd yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr peiriannau gael eu hyfforddi â galluoedd technegol uwch i weithredu’r peiriannau’n effeithiol.

Llwyddwyd i gyflawni eu nod o gynyddu nifer y marchnadoedd y gwerthir iddynt a nifer y llwybrau i’r farchnad hefyd. Maent wedi gweld cynnydd sydyn yn y galw gan gwmnïau sydd wedi’u lleoli yn y DU yn dilyn heriau cadwyn gyflenwi’r UE ar ôl Brexit, ac mae’r buddsoddiad wedi eu galluogi i ateb y galw hwnnw. Mae hyn yn amlwg iawn yn lleoliad daearyddol eu gwerthiant, gyda marchnad y DU wedi cynyddu o 30% o gyfanswm eu gwerthiant cyn cael y cymorth i 85% yn dilyn y cymorth, a chadarnhaodd y cwmni mai’r gwelliannau a wnaed oedd yn bennaf gyfrifol am hyn.

**Effeithiau amgylcheddol**

Mae'r buddsoddiad wedi gwneud y busnes yn fwy cynaliadwy ac yn fwy ecogyfeillgar trwy gael cyfarpar mwy newydd, mwy effeithlon a phrosesau awtomataidd yn lle'r hen offer. Yn ogystal, mae'r cwmni yn symud i werthu'n fwy lleol gan eu galluogi i leihau taith bwyd, ac maent hefyd wedi byrhau cadwyni cyflenwi trwy brynu mwy o'u cynhwysion amrwd gan gynhyrchwyr lleol. Disgrifiodd ffurflen gais y prosiect yr effaith ar fyrhau cadwyni cyflenwi fel a ganlyn:

"Mae ein prosiect yn cynnig cadwyn gyflenwi byrrach trwy lenwi'r bwlch yn y cyflenwad cig moch a gynhyrchwyd yng Nghymru, yn darparu ystod ehangach o gynnyrch sy'n fwy cystadleuol, gan ddileu'r angen i fanwerthwyr, cyfanwerthwyr, arlwywyr a defnyddwyr terfynol i fynd i'w brynu y tu allan i Gymru. Mae'r farchnad gyfanwerthu wedi'i dominyddu gan gig moch o'r Iseldiroedd neu Ddenmarc a byddai'r prosiect hwn yn cynnig dewis arall i fyrhau'r gadwyn gyflenwi. Mae'r cynnydd yn y swm yn ein galluogi i brynu'n uniongyrchol gan gynhyrchwyr cynradd yn hytrach na thrydydd partïon, gan fyrhau'r gadwyn gyflenwi."